cymorth cymru
connect • strengthen • influence

WLGA • CLILC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion

## Canllawiau ac Arfer Da

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29376 ISBN digidol 978 1 4734 7639 4

**Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion**
**Canllawiau ac Arfer Da**

***Cefnogi pobl ifanc ar eu taith tuag at annibyniaeth a llwyddiant economaidd drwy gyngor ar dai, opsiynau ac atal digartrefedd***

Wrth lunio fframwaith 'Llwybr Cadarnhaol' Cymru mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag amrywiaeth eang o awdurdodau lleol, asiantaethau digartrefedd, cymdeithasau tai a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hefyd, rydym wedi ymgynghori â phobl ifanc drwy Cymorth Cymru. Hoffem ddiolch i bawb am eu cymorth. Drwy eu holl gyngor, rhannu arbenigedd a'u cymorth cadarnhaol cawsom gryn dipyn o wybodaeth ac mae wedi helpu i lunio'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith yn y ddogfen hon yn hyrwyddo 'llwybr cadarnhaol' tuag at fyd oedolion. Mae'n seiliedig ar y 'Llwybr Cadarnhaol' y mae St Basils, sef asiantaeth digartrefedd ieuenctid yn Lloegr, wedi'i ddatblygu, gyda chyngor a chymorth asiantaethau eraill, pobl ifanc a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Hoffem ddiolch i St Basils am roi caniatâd inni addasu fersiwn Lloegr.

Ochr yn ochr â'r ddogfen 'Llwybr Cadarnhaol' hon, ceir 'chwaer-fersiwn' a ddatblygwyd gan Barnardo's yn benodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru. Mae 'Fframwaith Llety a Chymorth y Rhai sy'n Gadael Gofal' ar gael yma.

Yn y ddogfen hon ceir enghreifftiau o'r hyn y nodwyd ei fod yn gweithio'n dda a rhai enghreifftiau o ddarparu gwasanaeth arloesol. Dylid nodi bod llawer o enghreifftiau eraill ledled Cymru – yn aml wedi'u nodweddu gan waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill.

Ochr yn ochr â'r ddogfen 'Llwybr Cadarnhaol' hon, ceir 'chwaer-fersiwn' a ddatblygwyd gan Barnardo's yn benodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru. Mae 'Fframwaith Llety a Chymorth y Rhai sy'n Gadael Gofal' ar gael yma. http://www.barnardos.org.uk/what_we_do/barnardos_today/wales/wales_policy/cym_policy_research_publications.htm

## Cynnwys


1) Cyflwyniad Tudalen 3

2) Diagram o'r fframwaith Tudalen 7

3) Y darlun yn 2016 Tudalen 10

4) Llwybr Cadarnhaol i bobl ifanc yng Nghymru Tudalen 13

5) O'r ymateb mewn argyfwng i gynllunio ar gyfer cyfnodau pontio Tudalen 15

6) Pobl ifanc ag anghenion lluosog a chymhleth Tudalen 17

7) Cyd-gynllunio, cyd-gomisiynu a chydweithio Tudalen 18

8) Tybiaethau sy'n sail i fframwaith y Llwybr Cadarnhaol Tudalen 19

9) Nodweddion sylfaenol dull gweithredu Llwybr Cadarnhaol Tudalen 21

10) Y pum elfen yn fframwaith y Llwybr Cadarnhaol Tudalen 22

10.1 Gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc a theuluoedd Tudalen 22

10.2) Cymorth Cynnar Tudalen 26

10.3) Ymateb a llwybr integredig tuag at lety a chymorth a gomisiynwyd Tudalen 32

10.4) Gwasanaethau llety a chymorth a gomisiynwyd Tudalen 43

10.5) Amrywiaeth o opsiynau tai Tudalen 54

Atodiad Un: Profiad plentyndod oedolion ag Achosion Lluosog o Allgáu Tudalen 61

Atodiad Dau: Dull gweithredu a awgrymir ar gyfer rhoi terfyn ar ddefnyddio llety Gwely a Brecwast Tudalen 63

Atodiad Tri: Enghraifft o Fframwaith Canlyniadau Tudalen 67

## 1. Cyflwyniad

Mae’r ‘Llwybr Cadarnhaol’ yn fframwaith hyblyg i awdurdodau lleol a’u partneriaid ei ddefnyddio i gynnig dull wedi’i gynllunio o atal digartrefedd a rhoi opsiynau tai i bobl ifanc. Ei nod yw helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau i gydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl ifanc. Cafodd y llwybr ei ddatblygu gan gydnabod bod tai diogel, gweddus a fforddiadwy yn sail i gyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill – p’un a ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, iechyd neu gymunedau diogelach.

Nid yw fframwaith y ‘Llwybr Cadarnhaol’ yn ystyried tai a digartrefedd ar wahân. Ei nod yw helpu i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar y cyd mewn Tai, Gwasanaethau Plant a phortffolios ehangach er mwyn sicrhau canlyniadau mewn sawl maes i rai o’r grwpiau o bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Yn 2016 comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect gyda’r nod o ddatblygu opsiynau tai ieuenctid, llwybrau ac atal digartrefedd i bobl ifanc. Mae’r fframwaith ‘Llwybr Cadarnhaol’ hwn yn rhan o’r prosiect hwnnw ac mae’r ddogfen wedi’i datblygu drwy gyfuniad o ddysgu o’r hyn sy’n gweithio’n dda eisoes, ymchwil, ymgynghori a meddwl am y ffordd orau o ymateb i newidiadau mewn polisi ac arfer presennol yng Nghymru a’r DU.

Bu cynnydd sylweddol yng Nghymru i wella dulliau o atal digartrefedd, gan gynnwys cyflwyno deddfwriaeth newydd yn 2015 a osododd ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a’i liniaru i bob aelwyd yng Nghymru.[1]

Ochr yn ochr â hyn, o dan ddeddf newydd, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithas a Llesiant (Cymru) 2014[2] cyflwynwyd rhai newidiadau sy’n ymwneud â hawliau pobl ifanc sy’n gadael gofal a grwpiau eraill o bobl ifanc sy’n agored i niwed, yn ogystal â dyletswydd gyffredinol ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn lleol i blant ac oedolion. Mae’r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar berson sy’n arfer swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP).[3] Felly mae angen i benderfyniadau a wneir, er enghraifft, ynglŷn â darparu gwasanaethau neu ddyrannu adnoddau ystyried hawliau pob person ifanc o dan 18 oed.

Ar lawr gwlad, mae awdurdodau lleol, asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus, cymdeithasau tai ac asiantaethau yn y trydydd sector yn parhau i gydweithio i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc sy’n agored i niwed sy’n wynebu’r risg o ddigartrefedd. Mae pobl ifanc, teuluoedd a’r gwasanaethau sy’n eu cynorthwyo yn wynebu heriau sylweddol. Yng ngoleuni hyn, mae rhai ardaloedd lleol yn adolygu ac yn ail-lunio gwasanaethau lleol i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sydd, ar adeg symud i fyd oedolion, angen cyngor a chymorth, nid yn unig o ran opsiynau llety, ond elfennau eraill o’u bywydau wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol.

---

[1] Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i atal a/neu liniaru digartrefedd ymhlith yr holl aelwydydd sy’n ‘gymwys’. Gweler Rhan 2 o’r Ddeddf yma: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/enacted

[2] I gael rhagor o fanylion am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gweler: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted

[3] Adran 7(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ym mhob ardal ceir rhai pobl ifanc sydd â bywydau cymhleth y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i symud yn llwyddiannus i fyd oedolion. Ond mae gan eraill angen syml am gartref a allai ‘droi’ yn ddigartrefedd a’r holl anawsterau y gall eu hachosi os na chaiff ei ddiwallu. Mae gan awdurdodau lleol, asiantaethau addysg a hyfforddiant, gwasanaethau lleol y GIG, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru oll ran i’w chwarae i wella ymatebion lleol er mwyn osgoi costau yn y tymor hwy a sicrhau gwell canlyniadau.

Mae egwyddorion a’r rhesymeg dros y fframwaith ‘Llwybr Cadarnhaol’ yn gyson ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r ffordd y caiff ei chymhwyso’n ymarferol ac yn ei hategu. [4]

Byddai’n fuddiol cymhwyso pum egwyddor llesiant Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 at ddull gweithredu’r Llwybr Cadarnhaol.

***Hirdymor –*** *Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.*
***Atal –*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.*
***Integreiddio –*** *Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.*
***Cydweithio –*** *Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant.*
***Cynnwys –*** *Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu[5].*

Yn ymarferol yn lleol mae hyn yn golygu:

- Ffocws ar ganlyniadau llwyddiannus i bobl ifanc – mae gan lawer ohonynt anghenion lluosog a chymhleth mewn sawl agwedd ar eu bywydau;
- Trefnu gwasanaethau ar sail teithiau pobl ifanc a’r hyn sy’n gwneud gwahaniaeth yn eu barn hwy;
- Dull integredig o’r cam cynllunio a chomisiynu hyd at ddarparu gwasanaethau;
- Yr hyn sy’n gweithio’n dda eisoes – a chydnabod yr heriau sydd i’w hwynebu;
- Meddwl trwy systemau – sut i atal digartrefedd a chynllunio’n fwy effeithio gyda’ch gilydd;
- Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o wella a datblygu gwasanaethau;
- Rhannu data at ddibenion dadansoddi a chynllunio a defnyddio technoleg yn well.

---

[4] I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 gweler: http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir/future-generations-bill/deddf-llesiant-cenedlaethau%E2%80%99r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion

[5] I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gweler: http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir

Ceir rhai newidiadau cadarnhaol mewn polisïau yng Nghymru ym maes atal digartrefedd. Nodir bod dyletswyddau newydd i atal a lliniaru digartrefedd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015 yn cael effaith sylweddol a dywedir eu bod ar flaen y gad yn y DU[6]. Nid yw hynny'n golygu nad oes rhai problemau 'ymsefydlu' anochel a gwersi cynnar i'w dysgu, ond yn gyffredinol ystyrir bod y newid hwn yn gadarnhaol iawn ac yn benodol mae'n rhoi mwy o opsiynau atal a lliniaru i bobl ddigartref sengl.

Dylanwadwyd ar y meddylfryd ar gyfer fframwaith y 'Llwybr Cadarnhaol' i Gymru gan gyfeiriad cyffredinol polisïau'r DU a Llywodraeth Cymru, o ran yr heriau a'r cyfleoedd, er nad yw manylion rhai diwygiadau lles wedi'u datblygu eto. Wrth i gyflogaeth ddod hyd yn oed yn fwy pwysig i allu pobl ifanc i sicrhau llety y tu allan i'r cartref teuluol gall y risg y bydd pobl ifanc yn aros mewn lleoedd anniogel gynyddu[7]. Bydd angen cynyddol i bartneriaethau lleol nodi a helpu i ddiogelu pobl ifanc sy'n wynebu risg a rhoi cymorth effeithiol i'w helpu i symud i fyd dysgu a gwaith ochr yn ochr â chymorth tai. Wrth wneud hynny, bydd partneriaid yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cyffredin. Er enghraifft, o ran gwella cyflogadwyedd, gellir ystyried yr anghenion a'r rhwystrau a wynebir gan unigolion (yn ogystal â'u hasedau a'u hadnoddau) yn gyfannol, lle mae partneriaid a gwasanaethau yn cydweithio i wella cyfleoedd unigolyn i gael cyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth. Mae cyfleoedd gwirioneddol i wneud hyn yng Nghymru drwy gysoni prosesau comisiynu, gwasanaethau a rhaglenni yn well, ym maes Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nod fframwaith y 'Llwybr Cadarnhaol' yw symud o ymateb 'mewn diffyg' lle mai dim ond pan fo person ifanc yng nghanol argyfwng digartrefedd y caiff anghenion tai pobl ifanc eu diwallu'n aml, i ddull gweithredu llawer mwy rhagweithiol sy'n cynnwys opsiynau tai ymyrryd yn gynnar. <u>Nid</u> yw hyn yn ymwneud ag annog pobl ifanc i adael cartref yn ifanc. Mae'n ymwneud â rhoi'r wybodaeth berthnasol a realistig sydd ei hangen ar rieni a phobl ifanc er mwyn iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain. Dengys tystiolaeth fod pobl ifanc yn aros yn y cartref yn hwy lle y bo modd gwneud hynny. Mae deall pa opsiynau tai sydd ym mhob ardal a'r gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn bwysig i bob person ifanc a'i deulu. Mae nodi bylchau mewn cyflenwad a diwallu anghenion y rhai nad oes modd iddynt aros yn y cartref yn rôl allweddol i awdurdodau cyhoeddus a darparwyr tai lleol.


Mae fframwaith y Llwybr Cadarnhaol a amlinellwyd yn y ddogfen yn cynnig y dylid rhoi mynediad lleol cyffredinol at wybodaeth a chyngor i bobl ifanc a'u teuluoedd neu eu gofalwyr er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau tai realistig sydd ar gael yn lleol a llywio'r penderfyniadau a wneir ganddynt. I'r rhai hynny sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd neu na allant ddiwallu eu hanghenion tai drwy eu hadnoddau a'u rhwydweithiau eu hunain mae angen rhoi cyngor, cymorth a mynediad at opsiynau wedi'u cynllunio yn gynnar <u>cyn</u> bod argyfwng. I'r rhai hynny sy'n wynebu bod yn ddigartref ceir ymateb gwasanaeth integredig, gyda mynediad at nifer o opsiynau tai â chymorth drwy borth gwasanaeth wedi'i dargedu ac wedi'i integreiddio os oes angen.

Mae pob elfen o'r fframwaith yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried a dadansoddi data ynglŷn â phwy fydd angen cael gwasanaethau wedi'u targedu neu

[6] Gweler Adroddiad Monitor Cymru Crisis 2015
http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015_final.pdf
[7] Gweler adroddiad Depaul i'r DU yn 2016 ar ddigartrefedd cudd ymhlith pobl ifanc:
https://uk.depaulcharity.org/sites/default/files/Depaul-UK-Report-Danger-Zones-and-Stepping-Stones-April-2016.pdf

wasanaethau ymatebol, beth fydd y dull mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau yn lleol, sut i wella dulliau atal digartrefedd sylfaenol ac eilaidd a galluogi mwy o deuluoedd a phobl ifanc i fanteisio ar opsiynau cyffredinol. Proses iteraidd yw hon, sy'n cael budd o gylch o fonitro, dadansoddi, adolygu a diwygio wedi'i ategu gan eglurder ynglŷn â'r canlyniadau a fwriedir.

# Model Llwybr Cadarnhaol




*Gyda diolch i St Basils sydd wedi rhoi caniatâd inni ddefnyddio'r diagram hwn*

**Fframwaith y Llwybr Cadarnhaol: Y Pum Maes Gwasanaeth**

**1. Gwybodaeth a chyngor i bob person ifanc a phob teulu**

Y Gwasanaeth: Gwybodaeth a chyngor amserol a chywir ynglŷn â'r opsiynau tai lleol sydd ar gael i bawb, a roddir mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys gwybodaeth ar y we a thrwy ysgolion er mwyn cyrraedd pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Canlyniadau a ddymunir:

- Caiff pobl ifanc a theuluoedd eu grymuso i gynllunio cyfnodau pontio tuag at fyw'n annibynnol heb gymorth gwasanaethau arbenigol.
- Maent yn deall y cysylltiadau rhwng dewis tai a'u sefyllfa ariannol a chyflogaeth.
- Maent yn gwybod ble i gael cymorth os bydd ei angen arnynt.

**2. Ymyriadau cynnar wedi'u targedu**

Y Gwasanaeth: Mae ymyriadau cynnar wedi'u targedu i gyrraedd aelwydydd lle mae pobl ifanc yn fwyaf tebygol o wynebu'r risg o ddigartrefedd. Darparu gwasanaethau sy'n cynnwys pob gwasanaeth lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu risg, e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ac asesu unrhyw anghenion gofal a chymorth yn ôl y gofyn.

Canlyniadau a ddymunir:

- Atal a diogelu – mae pobl ifanc yn aros yn y rhwydwaith teuluol lle y bo modd, maent yn ddiogel ac yn cael cymorth i wneud symudiadau wedi'u cynllunio os bydd angen iddynt symud allan.

**3. Ymateb integredig ('canolfan' neu 'ganolfan rithwir' a phorth tuag at lety a chymorth a gomisiynwyd**

Y Gwasanaeth: Wedi'i arwain gan yr Awdurdod Tai a Gwasanaethau Plant, gwasanaeth integredig i bobl ifanc sy'n ddigartref, sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu y mae angen cymorth arnynt gyda symudiadau a gynlluniwyd tuag at annibyniaeth. Mae opsiynau tai a gwasanaethau atal digartrefedd, sydd yn aml wedi'u cyd-leoli, yn dod ynghyd gyda gwasanaethau eraill gan gynnwys cymorth i lwybrau tuag at ddysgu a gwaith. Caiff hyn ei ategu gan wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiad o unrhyw anghenion gofal a chymorth yn ogystal ag anghenion tai. Mae'n cynnwys 'porth' sydd wedi'i ysgogi gan anghenion tuag at lety â chymorth a gomisiynwyd a gwasanaethau cymorth hyblyg fel y bo'r angen.

Mae hwn yn fan casglu data allweddol a fydd yn llywio'r broses barhaus o ddatblygu'r llwybr lleol.

Canlyniadau a ddymunir:

- Caiff digartrefedd ei atal lle bynnag y bo modd, er enghraifft drwy helpu pobl ifanc i aros yn eu rhwydwaith teuluol neu eu hatal rhag colli tenantiaeth.
- Mae pobl ifanc y mae angen llety a/neu gymorth arnynt yn ei gael, gan gynnwys llety brys addas, mynediad cyflym, a chymorth uniongyrchol a parhaus lle y bo angen.
- Mae llety a chymorth i bobl ifanc yn ategu eu llwybrau tuag at ddysgu a gwaith yn hytrach nag amharu arnynt.

**4. Llety a chymorth a gomisiynwyd**

Y Gwasanaeth: Amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc iau a mwy agored i niwed. Ceir rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth lleol wedi'u cysoni â'r opsiynau hyn. Mae llety a chymorth wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn rhai opsiynau, er enghraifft: cynllun llety â chymorth, tŷ llety â chymorth, trefniadau byw ôl-18 o dan "Pan fyddaf yn barod" Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Tai yn Gyntaf. Mae allgymorth hyblyg hefyd ar gael i gynorthwyo pobl ifanc lle bynnag y maent yn byw (gan gynnwys yn y cartref teuluol) ac, os bydd ei angen, mae'n parhau pan fyddant yn symud.

Canlyniadau a ddymunir:

- Mae pobl ifanc yn cael y sefydlogrwydd a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt, yn ymddiddori mewn dysgu, hyfforddiant a gwaith a symud ymlaen i fod yn fwy annibynnol.

**5. Amrywiaeth o Opsiynau Tai**

Y Gwasanaeth: Amrywiaeth o opsiynau tai diogel, gweddus, fforddiadwy a hunangynhwysol, yn y sector preifat a'r sector tai cymdeithasol. Caiff yr hyn a gynigir yn lleol ei lywio gan y farchnad dai leol a'i amlinellu mewn strategaethau tai lleol, gan ddefnyddio partneriaethau os bydd eu hangen i greu opsiynau i bobl ifanc sy'n dechrau ennill eu bywoliaeth ar incwm isel. Gall hyn gynnwys dulliau creadigol megis partneriaethau â darparwyr dysgu, cyflogwyr a gwasanaethau cyflogaeth er mwyn cysylltu llety a ddarperir â chyfleoedd i ddysgu a gweithio. Hyrwyddo mynediad at allgymorth hyblyg/cymorth fel y bo'r angen rhag ofn y bydd ei angen ar bobl ifanc.

Canlyniadau a ddymunir:
Mae pobl ifanc yn economaidd weithgar ac yn byw mewn cartrefi addas y gallant eu fforddio – gallant adeiladu ar gyfer eu dyfodol.

## 3. Y darlun yn 2016

Yn y farchnad dai bresennol, mae pobl ifanc yn wynebu mwy o anfantais economaidd nag unrhyw grŵp arall; mae eu hincwm yn aml yn isel wrth iddynt barhau â'u haddysg a/neu ddechrau gweithio; nid oes ganddynt brofiad o ddod o hyd i lety a'i gynnal ac maent yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu gan landlordiaid oherwydd canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag oedran ynglŷn â nifer o risgiau fel darpar denantiaid.

Mae patrymau tai cyffredinol ymhlith pobl ifanc wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Yn gyntaf, mae mwy o bobl ifanc yn aros yng nghartref eu rhieni am gyfnod hwy, neu'n dychwelyd i gartref eu rhieni[8].

Yn ogystal â hyn, mae llety rhent preifat fel math o ddeiliadaeth ar gyfer pob grŵp oedran a math o aelwyd yng Nghymru wedi cynyddu 100% mewn 10 mlynedd.

Amcangyfrifir bod deiliadaeth tai cymdeithasol fel opsiwn tai i bobl o dan 25 oed wedi gostwng tua 23% i bobl o dan 25 oed a bod perchen-ddeiliadaeth wedi gostwng 37%[9]. Ni ddisgwylir i'r patrymau hyn newid yn y dyfodol agos[10], er bod rhai newidiadau polisi i gefnogi perchen-ddeiliadaeth ymhlith prynwyr tro cyntaf.

Ar yr ochr gyflenwi, mae asiantaethau tai a digartrefedd blaenllaw[11] yn parhau i fonitro effaith diwygiadau lles ers 2011, yn enwedig nifer o newidiadau i lefelau Budd-dal Tai[12] sydd wedi arwain at lai o gyflenwad fyth o dai fforddiadwy yn y sector rhentu preifat sydd ar gael i bobl ifanc ar incwm isel.

Mewn rhai rhannau o Gymru, dywed awdurdodau lleol mai prin iawn yw'r cyfleoedd i bobl ar incwm isel gael llety yn y sector rhentu preifat. Nodwyd yn anecdotaidd fod y Gyfradd Llety a Rennir ynghyd â'r gostyngiadau yn lefel y budd-dal tai sy'n daladwy yn lleol yn cael effaith andwyol ar y llety rhentu preifat sydd ar gael, ac yn benodol ar y grŵp o dan 25 oed, y nodir eu bod yn cael eu disodli yn y farchnad gan y grŵp 26-35 oed a phobl ifanc eraill mewn cyflogaeth ond na allant gael morgais eto. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi ac yn y sector rhentu preifat yn cynyddu (Sefydliad Polisi Newydd / Sefydliad Joseph Rowntree / Data Aelwydydd yn is na'r Incwm Cyfartalog i Gymru).

Yn y garfan 16-24 gyffredinol ceir grŵp o bobl ifanc a nodwyd gan academyddion tai fel rhai sydd â llwybrau tai 'caotig', a nodwyd yn rhannol drwy eu profiad o ddigartrefedd. Erbyn 2020 rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn cynnwys 81,000 o bobl 18-24 oed yn y DU[13]

---

[8] Gweler: http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2015-11-05#young-adults-living-with-their-parents
[9] Gweler D Quilgars a J Rugg in Youth and Policy Mai 2015: http://www.youthandpolicy.org/wp-content/uploads/2015/04/rugg-quilgars-young-people-and-housing1.pdf
[10] Gweler David Clapham et al, Prifysgol Caerdydd a Sefydliad Joseph Rowntree 2012 http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/young-people-housing-options-full_0.pdf
[11] Er enghraifft, Shelter Cymru, Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru
[12] Y prif newidiadau yw: Y Gyfradd Llety a Rennir, sy'n cyfyngu faint o fudd-dal tai sy'n daladwy ar gyfer llety rhent preifat i ystafell mewn tŷ a rennir ac mae wedi cael ei hestyn o'r grŵp o dan 25 oed i'r grŵp o dan 35 oed; y lefel ar gyfer pennu lwfans tai lleol wedi newid o'r 50fed ganradd i'r 30ain ganran, gan leihau nifer yr eiddo/ystafelloedd fforddiadwy sydd ar gael i'r rhai sy'n cael Budd-dal Tai mewn unrhyw ardal leol; ac mewn tai cymdeithasol, y rheolau ynglŷn â thanfeddiannu o fis Ebrill 2013 sydd wedi arwain at leihad yn y llety sydd ar gael i bobl sengl wrth i bobl symud o eiddo mwy i eiddo llai o faint.
[13] Gweler David Clapham et al, Prifysgol Caerdydd a Sefydliad Joseph Rowntree 2012 http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/young-people-housing-options-full_0.pdf

na allant gael gafael ar lety sefydlog hirdymor ac y byddant y byw ar waelod y sector rhentu preifat, gan brofi anhawster i gadw eu tenantiaethau. Mae diwygiadau lles sydd ar fin cael eu cyflwyno sy'n effeithio ar bobl ifanc yn debygol o waethygu'r sefyllfa hon. Y tu hwnt i atal digartrefedd a mentrau ar raddfa fach mewn ardaloedd lleol, nid oes unrhyw bolisi tai rhagweithiol cydlynol i'r grŵp hwn.

O ran niferoedd, yn seiliedig ar gofnodi pobl ddigartref yn statudol, bu lleihad sylweddol yn nifer y bobl 16/17 oed a dderbyniwyd rhwng 2011/12 a 2014/15. Lleihaodd nifer y rhai a dderbyniwyd yn y grŵp hwn o 460 yn 2011/12 i 200 yn 2014/15 Mae'r lleihad hwn yn rhannol o ganlyniad i well gwaith atal ar y cyd rhwng Awdurdod Tai a Gwasanaethau Plant, ond gellir ei esbonio'n rhannol hefyd gan gynnydd yn nifer y bobl ifanc 16/17 oed sy'n dod yn rhai sy'n derbyn gofal o ganlyniad i ddigartrefedd.[14]

Ymhlith y rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc 18-21 oed eraill sy'n agored i niwed mae'r sefyllfa dros yr un cyfnod adrodd o bedair blynedd wedi parhau'n eithaf tebyg, gyda 130 yn cael eu derbyn o fewn y grŵp hwn yn 2014/15.

Nid yw'r data statudol yn cofnodi'r elfennau sy'n ymwneud â digartrefedd ieuenctid sy'n fwy anodd eu mesur. Mae digartrefedd 'cudd' yn cynnwys gorlenwi, sgwatio neu aros gyda ffrindiau/cydnabod yn achlysurol, dros dro, a elwir yn aml yn Saesneg yn 'sofa surfing'. O fewn y mathau hyn o drefniadau a lleoliadau gall y lefelau'r risg y gall pobl ifanc gael eu hamlygu iddynt fod yn uchel iawn, gan gynnwys camfanteisio rhywiol a throseddol[15].

Gall cysgu ar y stryd fod yn fwy gweladwy na mathau eraill o ddigartrefedd cudd. Cydnabyddir yn gyffredinol fod patrymau cysgu ar y stryd ymhlith pobl ifanc yn wahanol nag ymhlith oedolion hŷn ac mae achosion o gysgu ar y stryd yn tueddu i fod am gyfnodau llai. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o geisio defnyddio eu rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn osgoi cysgu ar y stryd. Nid yw graddau cysgu ar y stryd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn hysbys, gan na chaiff y rhai sy'n cysgu ar y stryd eu cyfrif ar sail oedran[16].

Mae pobl o dan 25 oed deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn ddigartref nag oedolion eraill[17] a rhagwelir y bydd rhai diwygiadau lles a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon yn cynyddu digartrefedd ymhlith y grŵp oedran hwn. Mae'r lefelau is o dai 'symud ymlaen' fforddiadwy i bobl ifanc sengl yn golygu ei bod yn debygol y bydd cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n aros am gyfnodau hir mewn llety â chymorth cymharol ddrud, am nad oes ganddynt unman arall i symud iddo. Mae'r sefyllfa yn gwaethygu oherwydd diwygiadau lles ers 2010 y cydnabyddir yn genedlaethol mai ar bobl o dan 25 oed y cânt yr effaith fwyaf negyddol.

---

[14] Eglurodd dyfarniad G v Southwark 2009 fod cyfraith plant yn cael blaenoriaeth dros gyfraith tai yn achos pobl ifanc 16/17 oed sy'n ddigartref. Yn 2010/11 yng Nghymru cafwyd 119 o achosion newydd o bobl ifanc 16/17 oed yn cael eu derbyn i ofal awdurdod lleol, ond erbyn 2013/14 roedd y niferoedd wedi cynyddu i 242 o bobl ifanc, sef dyblu'r grŵp oedran hwn i bob diben. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd pob un o'r bobl ifanc hyn yn derbyn gofal oherwydd digartrefedd (e.e. efallai y bydd rhai yn derbyn gofal drwy statws remand, diogelu neu fod yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches).

[15] Gweler adroddiad Depaul i'r DU yn 2016 ar ddigartrefedd cudd ymhlith pobl ifanc: https://uk.depaulcharity.org/sites/default/files/Depaul-UK-Report-Danger-Zones-and-Stepping-Stones-April-2016.pdf

[16] Gweler Beth Watts, Prifysgol Heriot Watt – adroddiad OVO ar ddigartrefedd ieuenctid yn y DU 2015, tudalen 57 https://ihurerblog.files.wordpress.com/2015/11/youth-homelessness-in-the-uk.pdf

[17] Gweler adroddiad Beth Watts, fel uchod.

Dywedwyd bod y Lwfans Ceisio Gwaith i bobl o dan 25 oed, na fydd yn newid tan 2020, ar lefel 'islaw amddifadrwydd'[18] ac ynghyd â pholisïau eraill y Llywodraeth, mae'n golygu mai ychydig iawn o opsiynau fforddiadwy fydd gan bobl o dan 25 oed heb opsiwn teulu i ddibynnu arno. Mae hyn ynghyd â'r prinder llety cymdeithasol un gwely mewn sawl ardal yng Nghymru a diffyg llety rhent preifat a rennir sy'n fforddiadwy ar fudd-dal tai yn lleihau nifer yr opsiynau. Amser a ddengys sut y bydd cymdeithasau tai yn datrys y broblem o ddarparu llety i'r rhai o dan 35 oed y bydd eu budd-dal tai yn gyfyngedig i'r Gyfradd Llety a Rennir, sydd, mewn llawer o achosion, dipyn yn is na rhenti presennol cymdeithasau tai.

Mae'r sefyllfa hon yn debygol o arwain at "flocio" mwy o lety â chymorth, gan gynyddu'r risg y bydd rhai awdurdodau lleol yn rhoi pobl ifanc mewn llety gwely a brecwast, y bernir bob amser ei fod yn anaddas.

O safbwynt ymarferol a safbwynt polisi, ni nodir eto ble y byddai pobl ifanc na allant aros gartref na gyda chyn-ofalwyr maeth/gofal preswyl yn mynd yn realistig na'r cyd-adweithio anodd rhwng deddfwriaeth lles, digartrefedd, tai a phobl ifanc.

Er gwaethaf yr holl heriau a phwysau, y newidiadau'n lleol ac yn genedlaethol, a'r materion anhysbys a all godi yn y dyfodol, ceir llawer o elfennau cadarnhaol. Ceir deddfwriaeth newydd ynglŷn â digartrefedd sydd â photensial sylweddol, er ei bod ar gam cynnar, i leihau risgiau digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Ceir dyletswydd newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n galluogi llawer o bobl ifanc i aros gyda gofalwyr maeth ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Ledled Cymru, ceir enghreifftiau o arloesi, 'cydgysylltu' rhwng asiantaethau a ffocws ar wella dulliau atal digartrefedd ieuenctid. Yn fwy nag erioed bydd angen inni ddefnyddio'r hyn sy'n gweithio'n dda a chydweithredu i gadw pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref a'u helpu i symud ymlaen yn gadarnhaol.

[18] Gweler yr adroddiad yn 2016 gan Sefydliad Joseph Rowntree: *Destitution in the UK* gan Suzanne Fitzpatrick, Glen Bramley, Filip Sosenko, Janice Blenkinsopp, Sarah Johnsen, Mandy Littlewood, Gina Netto a Beth Watts https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk

## 4. Llwybr Cadarnhaol i bobl ifanc yng Nghymru

Mae tri ffactor allweddol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith y 'Llwybr Cadarnhaol' yng Nghymru. Mae'r cyntaf a'r ail yn ymwneud â 'beth sydd angen ei newid ac mae'r trydydd yn ymwneud yn fwy â 'sut i newid'.

Yn gyntaf, mae'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd yn gyfle i fynd i'r afael â'r systemau ar gyfer diwallu anghenion tai ymhlith pobl ifanc, a gall y ddeddfwriaeth fod yn gyfrwng i sicrhau newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol o fewn sefydliadau a chymunedau dros amser. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ddyletswydd newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn gynnar hefyd yn newid y ffocws o argyfwng i ddarparu gwasanaethau lefel is yn gynharach.

Yn ail, mae llawer o awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n ddarparwyr yn nodi – unwaith eto'n anecdotaidd – fod cyfran uwch o bobl ifanc ag anghenion cymhleth neu luosog yn mynd yn ddigartref neu'n gadael gofal. Mae gan lawer o bobl ifanc o leiaf un neu fwy o'r canlynol: ymddygiad troseddol; problemau iechyd meddwl; camddefnyddio sylweddau; digartrefedd[19]. Mae'r cymorth sydd ei angen er mwyn i'r grŵp hwn bontio'n gadarnhaol i fyd oedolion yn llawer mwy dwys na'r hyn y mae'r rhan fwyaf o wasanaethau Cefnogi Pobl a gomisiynir yn gallu ei gynnig, ond sut y gall gwasanaethau gael eu datblygu'n well i'r grŵp hwn o ystyried y pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach?

Felly mae'r trydydd cwestiwn yn un pragmatig – 'sut' i wneud newidiadau? Gellir dadlau bod cyd-gynllunio a chyd-gomisiynu i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn bwysicach nag erioed.

Y man cychwyn ar gyfer cyd-weithio yw cyfres o ganlyniadau lleol a rennir. Mae'n rhaid cydnabod bod fframwaith canlyniadau ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl yn bodoli eisoes, ond ar gyfer y 'Llwybr Cadarnhaol', sy'n ehangach na thai â chymorth, mae angen i ganlyniadau ymwneud yn fwy penodol â phobl ifanc a'r cyfnod pontio i fyd oedolion, gyda ffocws ar elfennau neu gamau eraill o'r 'Llwybr Cadarnhaol', megis gweithgarwch atal a symud ymlaen.

Yn y rhan olaf o'r ddogfen hon ac yn Atodiad 3 rydym yn awgrymu rhai canlyniadau posibl yn fanylach, sy'n cysylltu â rhai o'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru[20]. O'r cychwyn dylanwedir ar ein meddylfryd gan y canlyniad cyffredinol, sef bod pobl ifanc yn economaidd weithgar. Mae hyn yn sail i bob canlyniad arall a ddymunir i bobl ifanc. Mae pobl ifanc sy'n annibynnol yn ariannol ac sydd mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o:

- fod yn iach, yn gorfforol ac yn emosiynol
- cael cydberthnasau cadarnhaol
- bod yn ddiogel a pheidio ag ymddwyn yn droseddol neu'n wrthgymdeithasol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon sy'n rhoi mwynhad.
- gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymuned leol.

---

[19] Nid oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol o anghenion cymhleth/lluosog, ond hoffem awgrymu derbyn y diffiniad fel y'i hamlinellir ar dudalen 12 o adroddiad 'Hard Edges Mapping' 2015, gweler: http://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/Hard-Edges-Mapping-SMD-2015.pdf

[20] Gweler yma ar gyfer y 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol i Gymru: http://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf

Mae tai a sicrwydd ariannol yn mynd law yn llaw. Heb le gweddus a diogel i fyw ynddo, mae bron yn amhosibl paratoi ar gyfer byd gwaith neu gadw swydd. Heb sicrwydd ariannol, mae'n annhebygol iawn y bydd pobl ifanc yn byw mewn llety gweddus a diogel fel oedolion ifanc.

Mae'r hyn a ddisgrifir yma ynglŷn â thai a phobl ifanc yn y canllawiau yn adlewyrchu'r enghreifftiau o arfer da ledled Cymru – ac yn annog cynnig mwy cadarnhaol a chyffredinol a all helpu mwy o bobl ifanc a'u teuluoedd i osgoi argyfwng a chael mwy o reolaeth dros eu llwybrau tuag at annibyniaeth. Ystyrir y tri ffactor ysgogi hyn a'r newidiadau sydd eu hangen yn fanylach isod.

**5. O’r ymateb mewn argyfwng i gynllunio ar gyfer cyfnodau pontio**

Mae cyngor ar dai ac opsiynau yn gweithio

Drwy’r holl ddysgu a rennir, ymgynghori ac amcanestyn ceir neges glir fod angen inni symud y tu hwnt i’r hyn a ystyrir yn ddull “diffyg/argyfwng” o ddiwallu anghenion llety a chymorth pobl ifanc.

Mae llawer o bobl ifanc yn ceisio datrys eu problemau tai a digartrefedd cyn troi at yr awdurdod lleol am gymorth[21]. Awgryma hyn ei bod yn debygol bod mwy o gyfle i ddatrys anghenion tai a digartrefedd yn llwyddiannus os caiff pobl ifanc eu hannog i geisio gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth i atal digartrefedd, lawer yn gynt.

Mae angen dull gweithredu mwy cyffredinol o gynnig cyngor ar dai ac opsiynau. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i gynllunwyr, strategwyr tai a darparwyr ddatblygu ‘cynnig’ tai ehangach, mwy priodol a chyffredinol ond llawer mwy lleol i bobl ifanc sy’n annog uchelgais a chyflogaeth ochr yn ochr â chynllunio llwybrau tai.

Cynllunio opsiynau tai a rhyddhau cyflenwad

Mae tai diogel, gweddus a fforddiadwy yn gonglfaen hollbwysig i bobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion economaidd weithgar. Fodd bynnag, mae llwybrau pobl ifanc i ddod o hyd i’w cartrefi annibynnol eu hunain yn mynd yn fwy cymhleth, yn cymryd mwy o amser ac yn mynd yn anodd i’w wneud[22]. Mae awdurdodau lleol hefyd yn nodi nad yw disgwyliadau pobl ifanc o ganlyniadau tai – fel arfer eu fflat eu hunain – yn seiliedig ar realiti lleol yr hyn sydd ar gael neu sy’n fforddiadwy.

Mae pobl ifanc yn mynd drwy bob math o sefyllfaoedd gwahanol; aros gyda rhieni, teulu estynedig neu ofalwyr maeth; byw gyda ffrindiau; symud i fyw gyda phartner; mynd i’r brifysgol neu’r coleg; byw mewn llety â chymorth; rhannu llety rhent preifat; trefnu morgais neu fyw mewn tai cymdeithasol.

O ran cyflenwad tai, mae’r darlun yn amrywio’n fawr ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd mae’n haws cael llety cymdeithasol a gall rhai grwpiau ei gael drwy flaenoriaeth ychwanegol o dan Gynllun Dyrannu’r awdurdod lleol – er enghraifft, pobl ifanc sy’n gadael gofal a phobl ifanc sy’n barod i symud ymlaen o lety â chymorth. Mewn sawl ardal ceir prinder dybryd o lety cymdeithasol un ystafell[23] ond mae rhywfaint o lety ar gael i’r rhai sydd ar incwm isel i’w rannu yn y sector rhentu preifat. Mewn rhai awdurdodau lleol ceir prinder tai cymdeithasol a phrin iawn yw’r llety rhentu preifat i bobl ifanc ar incwm isel.

O ganlyniad i’r ffactorau uchod ceir adroddiadau o fwy o ‘flocio’ ym maes llety â chymorth, gyda phobl ifanc yn barod i symud ymlaen ond nid oes llety sefydlog i’w gynnig iddynt.

---

[21] Gweler: Suzanne Fitzpatrick a N Pleace et al, *Statutory Homelessness in England: The experience of families and 16-17 year olds*, DCLG, 2008 a hefyd adroddiad Centrepoint yn 2015, ‘Out of Reach: Young People’s Experience of Rough Sleeping and Sofa Surfing’

[22] Gweler D Quilgars a J Rugg in Youth and Policy Mai 2015: http://www.youthandpolicy.org/wp-content/uploads/2015/04/rugg-quilgars-young-people-and-housing1.pdf

[23] Llety cymdeithasol un ystafell sy’n llety ‘anghenion cyffredinol’ ac sydd ar gael i bobl ifanc – h y. heb ei ddyrannu i bobl hŷn drwy bolisïau gosod lleol.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi comisiynu mwy o lety 'â chymorth llai dwys' – sy'n opsiwn 'dilyniant' byrdymor arall ymhlith y gyfres o opsiynau llety â chymorth sydd ar gael yn lleol, sydd fel arfer yn gysylltiedig â chynllun llety sy'n bodoli eisoes, fel cam olaf cyn bod pobl ifanc yn cael eu tenantiaeth annibynnol eu hunain. Mae'r defnydd o'r sector rhentu preifat fel opsiwn symud ymlaen yn gynyddol gyffredin[24], gan arwain at bobl ifanc yn rhannu ag eraill fel arfer. Ceir rhai enghreifftiau o dai cymdeithasol a rennir i bobl ifanc yng Nghymru, ond nid yw hwn yn opsiwn sydd wedi cael ei ddatblygu yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Ond yng nghyd-destun rhenti cymdeithasol yn cael eu capio i gyfraddau'r Lwfans Byw Lleol, mae'n rhaid bod hwn yn opsiwn y mae angen ei hyrwyddo bellach.[25] Nid yw'r opsiwn hwn yn ateb ynddo'i hun ond gall fod yn un o'r opsiynau yn lleol. Yr opsiwn hwn fydd yn gwneud y defnydd gorau o stoc wag fwy o faint, ond mae'n gofyn am ddatblygiadau rhagweithiol gan landlordiaid cymdeithasol yn niffyg opsiynau amgen fforddiadwy a gweddus ar gael.

Mae ailystyried cynnig cyffredinol i bobl ifanc o ran opsiynau tai yn gwneud synnwyr da yn strategol. Ond mae'n golygu y bydd angen i'r rhai sy'n gweithio ym maes strategaeth, cynllunio a dyrannu tai, mynediad at y sector rhentu preifat a strategaethau cyflogaeth fod yn rhan o'r drafodaeth a'r gwaith cynllunio er mwyn datblygu opsiynau cyflenwi yn lleol. Ceir nifer o gynlluniau arloesol a gwersi defnyddiol i'w dysgu o gynlluniau peilot ar bobl ifanc yn rhannu[26] er mwyn helpu gyda syniadau. Amlinellir enghreifftiau o'r rhain yn ddiweddarach, yn y disgrifiad o'r elfen derfynol o'r 'Llwybr Cadarnhaol'. Mae adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[27] i nodi opsiynau tai fforddiadwy i bobl sengl o dan 35 oed, lle telir y Gyfradd Llety a Rennir, yn 'bapur gwyntyllu' defnyddiol i landlordiaid cymdeithasol a dylai helpu i lywio'r gwaith o gynllunio opsiynau tai yng Nghymru.

[24] Gweler http://ppiw.org.uk/ppiw-report-publication-the-potential-role-of-the-private-rented-sector-in-wales/
a gweler tudalen 6 o D Quilgars a J Rugg yn Youth and Policy Mai 2015: http://www.youthandpolicy.org/wp-content/uploads/2015/04/rugg-quilgars-young-people-and-housing1.pdf

[25] Gweler Anna Clarke ac Andrew Heywood, *Astudiaeth dichonolrwydd ar y rhagolygon o ddatblygu model tai hyfyw ar gyfer rhai â hawl i'r gyfradd tai a rennir yn unig, Canolfan Ymchwil Tai a Chynllunio Caergrawnt, Prifysgol Caergrawnt, Mehefin 2016* http://chcymru.org.uk/en/view-news/chc-and-wlga-viable-housing-model-research

[26] Gweler pecynnau cymorth Crisis ynglŷn â rhyddhau mynediad i'r sector rhentu preifat i bobl ifanc: http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/PRS%20Youth%20Homelessness%20Toolkit.pdf
a'i werthusiad a'i becyn offer o dan y rhaglen 'Sharing Solutions': gweler http://www.crisis.org.uk/pages/sharing-solutions-programme.html

[27] Gweler Anna Clarke ac Andrew Heywood, *Astudiaeth dichonolrwydd ar y rhagolygon o ddatblygu model tai hyfyw ar gyfer rhai â hawl i'r gyfradd tai a rennir yn uni*, Canolfan Ymchwil Tai a Chynllunio Caergrawnt, Prifysgol Caergrawnt, Mehefin 2016 http://chcymru.org.uk/en/view-news/chc-and-wlga-viable-housing-model-research

## 6. Pobl ifanc ag anghenion lluosog a chymhleth

Nid oes a wnelo digartrefedd ymhlith pobl ifanc â diffyg llety yn unig fel arfer. Mae'r achosion sylfaenol yn aml yn deillio o broblemau neu ffactorau llawer cynharach mewn plentyndod. Mewn darn diweddar o ymchwil o bwys cenedlaethol[28] yn Lloegr, sy'n mapio anfantais ddifrifol a lluosog (a ddiffinnir fel digartrefedd, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a chamddefnyddio sylweddau) roedd **25%** o oedolion â'r math mwyaf aciwt o anfantais ddifrifol a lluosog a gyfwelwyd yn **18-25** oed.

Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng anfantais luosog ddifrifol a thrawma yn ystod plentyndod, gan gynnwys cam-drin (rhywiol, corfforol, emosiynol ac esgeulustod), byw gyda thrais a chamddefnyddio sylweddau yn y cartref teuluol, rhedeg i ffwrdd o'r cartref, rhiant â phroblemau iechyd meddwl, digartrefedd teuluol, bod mewn gofal a digartrefedd ieuenctid. Roedd gan 85% o'r rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o'r profiadau hyn. Mae ffactorau eraill megis peidio â mynd i'r ysgol a gwaharddiad o'r ysgol, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ifanc a phroblemau iechyd meddwl yn sail i blentyndod nifer o bobl yn y grŵp hwn. Gweler Atodiad 1 am amlinelliad defnyddiol o brofiadau bywyd y rhai sy'n wynebu allgáu lluosog hirdymor – mae hon yn ymchwil i'r DU gyfan o 2013[29].

Y grŵp hwn yw'r bobl ifanc y mae pob rhan o'r sector cyhoeddus yn cydnabod mai hwy yw'r mwyaf anodd i'w helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol gwahanol – er enghraifft o ran iechyd corfforol a meddyliol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, diogelwch cymunedol. Mae modd sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r grŵp hwn ond mae'n gofyn am ddull gweithredu sy'n ychwanegol at y lefel o gymorth a gomisiynir fel arfer drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Gall y cymorth cywir ar yr adeg gywir drawsnewid bywydau'r bobl ifanc hyn – ond mae angen ffordd wahanol o feddwl ynghylch rhoi cymorth.

Byddai'r rhan fwyaf o gomisiynwyr a darparwyr mewn ardaloedd lleol yn cytuno bod diffyg cyfatebiaeth rhwng anghenion y grŵp hwn a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. Mae a wnelo hyn â mwy nag atal digartrefedd, ond hefyd â chanlyniadau negyddol eraill – er enghraifft, iechyd gwael, statws NEET a throseddu.

---

[28] G.Bramley a S.Fitzpatrick et al. *'Hard Edges – Mapping Severe and Multiple Disadvantage in England"* a gyhoeddwyd gan Sefydliad Lankelly Chase 2015

[29]

**7. Cyd-gynllunio, cyd-gomisiynu a chydweithio**

Mae cyd-gomisiynu a chydweithio yn ffactor hanfodol i fusnes mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n golygu bod angen i asiantaethau yn y sector cyhoeddus gytuno ar eu cyd-flaenoriaethau strategol, y canlyniadau y maent yn anelu atynt a symleiddio eu priod gylchoedd cynllunio er mwyn gwneud hynny. Gall canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl helpu i alluogi hyn yn hytrach na'i atal.

Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu mwy o lwyddiant i bobl ifanc a darpariaeth well a mwy effeithlon i asiantaethau pan gaiff gwasanaethau eu dylunio o amgylch pobl ifanc. Mae'r dull gweithredu hwn yn llawer mwy tebygol o wella canlyniadau mewn nifer o feysydd ac felly bydd yn arbed arian cyhoeddus yn y byrdymor a'r tymor hwy.

Mae **Atodiad 3** yn nodi enghraifft o fframwaith canlyniadau a rennir a all fod o ddiddordeb fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth leol ar gysoni neu integreiddio gwasanaethau'n well.

Yn ddelfrydol, y ffordd ymlaen yw sefydlu neu wella ar eich 'llwybr' lleol i bobl ifanc sy'n agored i niwed, drwy ymateb mwy cydgysylltiedig i broblemau amlweddog, gyda gwaith cyd-gomisiynu wedi'i deilwra'n lleol ar draws asiantaethau yn y sector cyhoeddus sydd gyda'i gilydd yn ymrwymedig i set o ganlyniadau sy'n dibynnu ar ei gilydd. Dylai'r Llwybr Cadarnhaol hwn fod yn eitem ar yr agenda i grwpiau comisiynu rhanbarthol a lleol. Rhagwelir y bydd yn eitem i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl awdurdodau lleol. Dylai trafodaethau a gweithgarwch cynllunio ddigwydd mewn partneriaeth â phartneriaid comisiynu mewn Gwasanaethau Plant, Cefnogi Pobl a thimau NOMS.

Yr her yw sut i symud o gomisiynu ar sail mater unigol (er enghraifft, mynd i'r afael â statws NEET, digartrefedd, cymorth sy'n ymwneud â thai drwy Raglen Cefnogi Pobl, troseddu, gadael gofal, iechyd meddwl), i fwy o gynllunio a chomisiynu ar y cyd ar hyd y 'llwybr' lleol cyfan. Mae cymorth effeithiol a llwyddiannus ac ymyriadau tai i bobl iau yn fuddsoddiad a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r galw am wasanaethau.

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd casglu a dadansoddi data wrth gydweithio. Yn gyffredinol, ceir bwlch yn hyn o beth yn y rhan fwyaf o ardaloedd lleol. Ond data yw'r llwyfan sy'n llywio gwaith cynllunio a chomisiynu ac sy'n ei gwneud yn bosibl i ddadansoddi'n barhaus a deall effaith ar wasanaethau a grwpiau gwahanol o bobl ifanc.

## 8. Tybiaethau sy'n sail i fframwaith y Llwybr Cadarnhaol

- Nid yw pobl ifanc yn grŵp homogenaidd; ceir amrywiad sylweddol o ran yr oedran y maent yn gadael cartref eu rhieni, y cymorth y mae rhieni/teulu yn ei roi, y math o lety y maent yn symud i mewn iddo'n gyntaf a'r rhesymau dros symud allan o gartref eu rhieni.

- Dim ond os ydynt mewn cyflogaeth neu hyfforddiant seiliedig ar waith y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gallu fforddio byw'n annibynnol oni bai eu bod yn cael cymorth ariannol ychwanegol gan eu rhieni/teulu eu hunain neu'r awdurdod lleol fel 'rhiant corfforaethol'. Mae cynnydd mewn costau byw, gostyngiadau mewn budd-daliadau mewn termau real ac yn benodol y newidiadau arfaethedig i fudd-daliadau lles i bobl 18 i 21 oed – a'r penderfyniad i roi terfyn ar hawl awtomatig i fudd-dal tai a chyflwyno Rhwymedigaeth Ieuenctid gydag amodau cryfach sydd â mwy o gyfyngiadau amser na'r Lwfans Ceisio Gwaith – oll yn ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa hon[30].

- Ar hyn o bryd, nid yw'r farchnad dai yn diwallu anghenion llety pobl ifanc ar incwm isel na allant fyw gyda'u teulu. Mae landlordiaid yn fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol i'r bwlch hwn os gellir meithrin hyder mewn ardaloedd lleol drwy fynd ati i gynnig llwybr integredig, gan glymu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn agosach wrth lety a mynd ati'n fwy rhagweithiol i baratoi pobl ifanc fel tenantiaid ifanc – gall y dulliau gweithredu hyn leihau'r risgiau canfyddedig a gwirioneddol i landlordiaid yn y sector preifat a landlordiaid cymdeithasol.

- Mae angen i bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr gael gwybodaeth glir tra bod pobl ifanc yn dal yn yr ysgol/coleg ynglŷn ag opsiynau tai lleol a realiti byw'n annibynnol, o ran materion fforddiadwyedd, dewis lleol, costau cudd, rhannu llety a disgwyliadau landlordiaid.

- Mae gan bob ardal leol ei hamodau marchnad dai unigryw ei hun a bydd yn creu atebion lleol i anghenion llety ieuenctid, yn seiliedig ar amgylchiadau a chyfleoedd lleol.

- Dylai llety fod yn ddiogel, yn weddus ac yn fforddiadwy ac ni ddylai ei gost fod yn rhwystr sy'n atal pobl ifanc rhag ymgymryd â hyfforddiant, prentisiaethau neu gyflogaeth.

- Dylai'r llwybr gynnig dilyniant a helpu pobl ifanc gyda'u dyheadau. Ond mae angen iddo hefyd roi cyfle i bobl ifanc wneud camgymeriadau fel rhan o'u dysgu, eu datblygiad seicolegol a'u profiad fel oedolion ifanc.

- Mae symudedd yn hollbwysig i bobl ifanc sy'n mynd i mewn i fyd addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth; ni ddylai materion cysylltiad lleol o ran mynediad at lety gyfyngu ar gyfleoedd yn groes i bob rheswm.

- Er gwaethaf opsiynau tai cyfyngedig i bobl ifanc sengl mewn sawl rhan o Gymru a'r heriau sy'n gysylltiedig â diwygiadau lles, gallai fod cyfleoedd o hyd i ryddhau cyflenwad a rennir a datblygu opsiynau llety newydd i bobl ifanc. Er enghraifft, ceir

[30] Noder nad yw manylion am y diwygiad lles hwn ar gael eto ond gallai'r effeithiau fod yn sylweddol – er enghraifft amcangyfrifir y bydd yn effeithio ar 11,449 o bobl ifanc mewn tai cymdeithasol (gweler Inside Housing, 14 Mai 2015).

dulliau gweithredu arloesol y mae angen eu hefelychu, o ran rhannu tai cymdeithasol a chefnogi mynediad at lety rhentu preifat.

- Mae’r llwybr digartrefedd yn un negyddol ac yn brofiad sy’n achosi stigma i bobl ifanc a dylid ei osgoi lle bynnag y bo modd drwy ddarparu amrywiaeth o opsiynau tai, cymorth a chyngor mwy rhagweithiol eraill yn gynharach, er mwyn annog pobl ifanc sydd â rhieni/teulu i gynllunio gyda’i gilydd ac osgoi argyfwng.

- Fel arfer, y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig sy’n gadael y cartref teuluol yn gynharaf a heb ddim cymorth na dewis i ddychwelyd adref. Mae awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau eraill eisoes yn gwybod pa bobl ifanc sy’n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref cyn cyrraedd 16 oed. Mae’n bosibl atal digartrefedd a chynllunio gyda’r teuluoedd hyn pa lwybrau y bydd pobl ifanc yn eu dilyn os na allant aros gartref.

- Dull gweithredu integredig yn lleol sydd fwyaf tebygol o sicrhau cymorth atal effeithiol a phontio llwyddiannus. Mae amrywiaeth eang o ddarpar bartneriaid, er enghraifft Awdurdodau Gwasanaethau Plant, Awdurdodau Tai, cymdeithasau tai, comisiynwyr Cefnogi Pobl, Canolfan Byd Gwaith, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyflogwyr, darparwyr iechyd arbenigol a sylfaenol, Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a darparwyr yn y Trydydd Sector. Mae angen i ddiddordeb mewn datblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth fod yn ddisgwyliad penodol o wasanaethau i bobl ifanc.

- Mae gan bobl ifanc wahanol lefelau gwahanol o angen pan fyddant yn byw’n annibynnol ar eu teuluoedd – bydd angen cyfnod o gymorth dwys ar leiafrif bach er mwyn iddynt bontio’n llwyddiannus i fyd oedolion, tra mai’r cyfan y bydd ei angen ar eraill yw ychydig o gymorth rheoli tai.

- Mae pontio’n llwyddiannus i fyd oedolion i bobl ifanc sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth yn gofyn am ddull gweithredu integredig gan nifer o asiantaethau. Fel arfer, nid yw gwasanaethau Cefnogi Pobl ar eu pennau eu hunain yn gallu diwallu anghenion y bobl ifanc hynny sydd â lefel uchel iawn o anghenion.

**9. Beth yw nodweddion sylfaenol dull gweithredu llwybr cadarnhaol i bobl ifanc?**

Ceir isod rai o'r egwyddorion a awgrymir a'r rhesymeg sydd ei hangen ar lefel leol i sicrhau newid mewn arferion gwaith a diwylliant.

- Dull gweithredu integredig system gyfan o atal digartrefedd ieuenctid yn y lle cyntaf a lle y bo angen, cefnogi symudiadau arfaethedig pobl ifanc tuag at annibyniaeth drwy lwybr cadarnhaol.
- Datblygu gwasanaethau ac arferion sy'n buddsoddi mewn cyngor opsiynau tai cyffredinol ac ymyriadau cynnar wedi'u targedu yn hytrach nag ymateb i argyfwng yn unig.
- Darparu gwasanaethau di-dor, hawdd eu defnyddio, gan wneud defnydd gwell o adnoddau prin drwy gydgysylltu a chydlynu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyfuno cyllidebau asiantaethau lle y bo'n effeithiol gwneud hynny, ac adeiladu ar wybodaeth leol, asedau cymunedol sy'n bodoli eisoes ac ymdrechion gwirfoddol.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd ar bob cam o'r llwybr, nid yn unig ar dai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ond ar agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc wrth iddynt bontio i fyd oedolion, gan gynnwys diogelwch, iechyd, cyfleoedd diwylliannol a chwaraeon.
- Dilyniant tuag at annibyniaeth i bobl ifanc, drwy gynnig amrywiaeth o opsiynau llety i ddiwallu anghenion gwahanol a ffocws cryf parhaus ar feithrin y sgiliau, y profiad a'r cymhelliant sydd eu hangen i gael cyflogaeth yn y pen draw.
- Ethos sy'n gosod pobl ifanc a'u rhieni/teuluoedd wrth wraidd cynllunio a darparu – mae cydberthnasau arwyddocaol a chefnogol ag un neu fwy o weithwyr proffesiynol medrus yn aml yn allweddol er mwyn i bobl ifanc sy'n agored i niwed bontio'n llwyddiannus.
- Gall cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o lunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys addysgwyr a chefnogwyr sy'n gyfoedion, arwain at ragoriaeth mewn darpariaeth a rhoi cyfleoedd dysgu pwysig i bobl ifanc ar gyfer y dyfodol.
- Mynd i'r afael â phenbleth cyflenwi'r hyn sydd wir yn llety fforddiadwy, diogel a gweddus i bobl ifanc ar incwm isel ac i rai, fynediad â therfyn amser at gymorth budd-dal tai.

# 10. Y pum elfen yn fframwaith y Llwybr Cadarnhaol

## 1) Gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc a theuluoedd (cynnig i bawb)

<u>Y Gwasanaeth:</u>

Gwybodaeth a chyngor amserol a chywir ynglŷn â'r opsiynau tai sydd ar gael i bawb, a roddir mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys gwybodaeth ar y we a thrwy ysgolion er mwyn cyrraedd pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

<u>Canlyniad a ddymunir</u>:

Caiff pobl ifanc a theuluoedd eu grymuso i gynllunio cyfnodau pontio tuag at fyw'n annibynnol heb gymorth gwasanaethau arbenigol. Maent yn deall y cysylltiadau rhwng dewis tai a'u sefyllfa ariannol a chyflogaeth. Maent yn gwybod ble i gael cymorth os bydd ei angen arnynt.

**Beth ddywedodd pobl ifanc**

- *Nid oes un ffordd benodol o gyrraedd pobl ifanc – mae pawb yn wahanol*
- *Gwnewch bethau'n syml – gofynnwch i bobl ifanc helpu i ddylunio negeseuon – llai o eiriau mwy o luniau!*
- *Mae Facebook a Twitter yn dda – gallwch ddarganfod pethau ym mhreifatrwydd yn eich cartref eich hun*
- *Rydym yn cael ein cysgodi'n ormodol o ran beth a wnawn weithiau a phan fyddwch yn gadael cartref dych chi ddim yn gwybod dim byd – ond mae'n rhaid i chi ofalu amdanoch eich hun"*
- *Mae pobl ifanc yn yr ysgol yn dysgu am fathemateg... trigonometreg.... ond pan fyddant yn gadael y cartref a chael eu lle eu hunain dyn nhw ddim yn gwybod sut mae ffwrn yn gweithio – mae angen i chi eu dysgu am dai a sut beth yw hi mewn gwirionedd*
- *Mae angen i rieni wybod ble i gael cymorth a gwybodaeth – meddygfeydd, yr ysgol a gwefannau eraill*
- *Dywedwch wrth rieni ein bod yn realiti heddiw*

**Y gwasanaeth**
Gallai'r hyn a gynigir yn y rhan hon o'r llwybr gynnwys:

- Gwaith addysg ar opsiynau tai mewn ysgolion a cholegau fel rhan o'r gwaith ar gyfer y cwricwlwm llythrennedd ariannol[31] gyda phobl ifanc. Gallai hyn gwmpasu realiti opsiynau/dewisiadau tai, agweddau ariannol ar fyw'n annibynnol, digartrefedd a sut i'w osgoi – ac yn hollbwysig, ble i fynd i gael cymorth a chyngor cynnar.
- Sesiynau gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc.
- Gwybodaeth a chyngor i rieni a theuluoedd er mwyn sicrhau bod eu dealltwriaeth o'r opsiynau tai sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy i bobl ifanc yn eu hardal yn realistig ac yn gyfredol.
- Gwybodaeth, cyngor ac adnoddau i hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ynglŷn â ble i droi am gymorth a realiti opsiynau tai a digartrefedd ar oedran cynnar.

**Ystyriaethau ac awgrymiadau**

<u>Cyrraedd pobl ifanc</u>

Yr adborth gan bobl ifanc yw bod eisiau ac angen gwybodaeth dda arnynt am opsiynau tai a realiti byw'n annibynnol (nid dim ond am ddigartrefedd), ond nid ydynt yn ei chael fel arfer yn yr ysgol.

Yn ogystal â chyrraedd plant a phobl ifanc mewn ysgolion, colegau AB a chanolfannau ieuenctid, gellid datblygu sianeli cyfathrebu eraill yn lleol, er enghraifft, gwybodaeth o safon uchel ar y we y gellir ei rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, sy'n cyfeirio at linell cyngor dros y ffôn leol os oes angen. Mae cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddylunio hyn yn debygol o fod yn ddefnyddiol iawn.

Gall rhai ysgolion uwchradd yng Nghymru ddewis diwrnodau 'amserlen amgen' lle rhoddir mwy o ffocws ar faes penodol o'r cwricwlwm. Gall hyn fod yn ffordd o ddysgu elfennau o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), drwy wahodd asiantaethau allanol i'r ysgol i roi gwybodaeth a chyngor i ddisgyblion. Gellid cynnwys gweithdai ar opsiynau tai yn y diwrnodau hyn.

Gallai'r math hwn o waith gynnwys nifer o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn pobl ifanc fel tenantiaid llwyddiannus y dyfodol – nid dim ond Awdurdodau Tai ond landlordiaid cymdeithasol eraill, Gwasanaethau Plant ac asiantaethau'r Trydydd Sector. Gallai wneud synnwyr busnes yn y tymor hwy i gyd-ariannu neu gyd-gefnogi mewnbwn i ysgolion a cholegau AB, gan ganolbwyntio ar opsiynau tai a fforddiadwyedd yn ogystal â digartrefedd. Ni ddylai hyn fod yn 'ofid a gwae' i gyd a gellir ei gyflwyno mewn ffordd uchelgeisiol ond realistig, sy'n canolbwyntio ar y dewis o dai yn gysylltiedig â llwybrau tuag at weithgarwch economaidd. Mae angen hefyd gynnwys gwybodaeth am ble i fynd i gael cyngor/cymorth ar gam cynnar.

Mae pobl ifanc o dan oedran gadael yr ysgol nad ydynt yn mynychu ysgol na choleg yn wynebu risg uwch o fod yn ddigartref ar oedran cynnar, felly mae angen ystyried sut i'w cyrraedd, er enghraifft drwy Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth amgen yn lle darpariaethau ysgol prif ffrwd a darpariaeth gwaith ieuenctid.

Mae dulliau o gyfathrebu yn cynnwys:

---

[31] Gweler: http://learning.gov.wales/resources/learningpacks/financial-education/?lang=cy

- Defnyddio technoleg bresennol i roi cyngor a gwybodaeth gyffredinol i bobl ifanc drwy gyfryngau cymdeithasol, pyrth sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion, colegau AB a gwefannau awdurdodau lleol.

- Addysg gan gyfoedion, a all weithio'n dda mewn lleoliad ystafell ddosbarth. Mae'n cael effaith fawr ar bobl ifanc a all ofyn cwestiynau'n uniongyrchol a dysgu gan gyfoedion sydd wedi cael profiad uniongyrchol o ddigartrefedd.

- Gweithdai theatr a thrafod a all ennyn diddordeb pobl ifanc yn effeithiol.

- Ffilmiau byrion sy'n cynnwys lleisiau pobl ifanc y gellir eu chwarae fel rhan o sesiynau strwythuredig gyda pherson/pobl allanol sy'n cynnal y sesiwn, neu gydag athro sydd wedi cael ei friffio i ryw raddau ymlaen llaw. Yr adborth cyffredinol yw mai darpariaeth gan asiantaethau allanol sy'n gweithio orau, ond mae'n fwy costus o ran amser.

- Gweithdai a gynhelir gan staff hyfforddedig a medrus, sy'n cyflwyno pecyn diddorol o wybodaeth a chyngor i bobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth a lleoliadau mwy anffurfiol.

**ENGHRAIFFT – Bus Stop – Conwy a Sir Ddinbych**

Prosiect 'Byw yn Annibynnol' – sy'n codi ymwybyddiaeth o realiti digartrefedd ieuenctid a byw yn annibynnol.

Ariennir y prosiect gwobredig Byw yn Annibynnol gan Lywodraeth Cymru a Grŵp Cynefin. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Cartrefi Conwy, Tai Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ac yn darparu nifer o raglenni addysg a chymorth ledled Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaethau addysgol ataliol, hyblyg i bob ifanc (hyd at 25 oed) mewn ysgolion, Addysg Bellach, Addysg Amgen a mathau eraill o ddarpariaeth ieuenctid, ac i bobl ifanc sy'n agored i niwed megis y rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth.

Mae'r prosiectau'n amrywio o gyrsiau ataliol wedi'u hachredu i bobl ifanc sy'n wynebu risg, i weithdai sgiliau untro. Hefyd, gall y prosiect weithio un i un gyda phobl ifanc sy'n wyneb risg fawr o fod yn ddigartref.

Un o fentrau addysgol diweddar y prosiect yw ei gêm fwrdd newydd, 'Byw yn Annibynnol', a ddatblygwyd gan y prosiect mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin, Cartrefi Conwy, Tai Gogledd Cymru a Phrosiect Bus Stop. Cynhaliwyd gwaith ymchwil a chanfuwyd bod rhyngweithio wrth chwarae gêm fwrdd yn fwy buddiol i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu na'r llwybr mwy amlwg o greu gêm ddigidol. Mae'r gêm ddwyieithog, a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Tai Pobl Ifanc, sydd oll wedi profi digartrefedd eu hunain, ar gael i ysgolion a grwpiau cymunedol ledled Cymru i'w defnyddio fel adnodd dysgu.

Ymhlith yr adnoddau eraill roedd y daflen Byw yn Annibynnol wreiddiol a'r cerdyn cyfeirio ac ap a gwefan Byw yn Annibynnol www.goingitalone.co.uk. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â gemma@goingitalone.co.uk

Cyrraedd rhieni/gofalwyr

Mae llawer o bobl ifanc yn cael gwybod am y dewis o dai sydd ar gael iddynt gan eu teuluoedd, ond efallai na fydd rhieni ac aelodau hŷn o’r teulu yn gyfarwydd â’r heriau newydd yn y farchnad dai i bobl ifanc e.e. diwygiadau lles, dewis cyfyngedig i bobl ifanc oherwydd fforddiadwyedd a chyflenwad o dai cymdeithasol sy’n lleihau.

Felly, gall fod yn fuddiol gosod gwybodaeth i rieni a phobl ifanc ar wefannau awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ac ar fformat taflen sy’n cwmpasu’r canlynol:

- Opsiynau tai i bobl ifanc yn lleol ac ystyriaethau fforddiadwyedd realistig
- Pa mor anodd ydyw i bobl ifanc ymdopi os ydynt yn gadael cartref yn ifanc
- Cynllunio symudiadau gyda phobl ifanc sy’n gadael cartref
- Ble i fynd i gael cyngor a chymorth ynglŷn â materion tai
- Gyda phwy y dylid cysylltu os bydd rhiant yn ei chael hi’n anodd ymdopi â phlentyn yn ei arddegau.

Cyrraedd gweithwyr proffesiynol eraill

Nodir bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol sy’n cynghori pobl ifanc ynglŷn â realiti gadael cartref yn ifanc (yn benodol, dewis a fforddiadwyedd yn y tymor hwy) a’r opsiynau sydd ar gael pan fydd pobl ifanc yn gadael llety â chymorth. Gall fod yn werthfawr datblygu deunydd briffio byr y gellir ei gyflwyno o bryd i’w gilydd i dimau lleol sy’n gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd sy’n cwmpasu’r canlynol:

- Opsiynau tai yn lleol i bobl ifanc, fforddiadwyedd a’r heriau sy’n gysylltiedig â diwygiadau lles
- Effaith negyddol digartrefedd ar bobl ifanc a chymunedau, gan gynnwys y mathau o sefyllfaoedd sy’n dwyn risg y gall pobl ifanc heb unman i aros eu hwynebu
- Y dull ataliol a chysyniad y Llwybr Cadarnhaol
- Y sefyllfa gyfreithiol
- Y ffactorau ysgogi/risg a brofir gan bobl ifanc yn eu harddegau a all arwain at ddigartrefedd yn ddiweddarach.
- Ffynonellau o wybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol sydd ar gael i bobl ifanc a theuluoedd.

## 2) Ymyriadau Cynnar – cynnig wedi'i dargedu

Y Gwasanaeth:

Mae ymyriadau cynnar wedi'u targedu i gyrraedd aelwydydd lle mae pobl ifanc yn fwyaf tebygol o wynebu'r risg o ddigartrefedd. Darparu gwasanaethau sy'n cynnwys pob gwasanaeth lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu risg, e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder. Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth os oes angen. Asesu unrhyw anghenion gofal a chymorth yn ôl y gofyn.

Canlyniad a ddymunir:

Atal a diogelu – mae pobl ifanc yn aros yn y rhwydwaith teuluol lle y bo modd, maent yn ddiogel ac yn cael cymorth i wneud symudiadau wedi'u cynllunio os bydd angen iddynt symud allan.

**Beth ddywedodd pobl ifanc**

- *'Maen nhw'n siarad am eich problemau – ond dyn nhw ddim yn eu datrys'*
- *Rhowch fwy o gymorth gwirioneddol i deuluoedd – trefnwch i wasanaethau iechyd meddwl a chyfryngu fynd i gartrefi teuluol*
- *Mae angen mwy o wasanaethau cyfryngu*
- *Byddwch yn onest ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd os byddwch yn gadael cartref – ond peidiwch â chodi braw er mwyn gwneud i bobl ifanc aros*
- *"Credwn fod man gwyn man draw ond pan gyrhaeddwch, nid yw hynny'n wir'*
- *'Petaen nhw wedi dweud sut beth fyddai – wel, gallai fod wedi gwneud gwahaniaeth'*

**Y Gwasanaeth**

Mae gwaith ymyrryd yn gynnar wedi'i dargedu i gadw pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref yn y cartref/rhwydwaith teuluol pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Mae'r ffocws ar gynllunio a pharatoi pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref a'u rhieni/teulu CYN eu bod mewn argyfwng – elfen hollbwysig o'r Llwybr Cadarnhaol.

Mae profiadau/problemau yn ystod plentyndod gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a all awgrymu risg uchel o ddigartrefedd cynnar a digartrefedd yn y dyfodol ac allgáu lluosog[32] – ac y mae nifer o asiantaethau yn ymwybodol ohonynt fel arfer cyn bod rhywun yn 16 oed – yn cynnwys:

---

[32] Gweler: Atodiad Un yn y ddogfen hon. Daw o adroddiad, ' Pathways into multiple exclusion homelessness in seven UK cities' by S. Fitzpatrick et al 2013. Mae'r adroddiad llawn yma: https://pureapps2.hw.ac.uk/portal/files/7456915/US_Pathways.pdf A gweler hefyd dudalen 286 o Bennod 12 o adroddiad Digartrefedd Statudol yn Lloegr, sy'n ystyried profiadau personol 350 o bobl ifanc 16/17 oed. Dyma'r gwaith ymchwil manylach o hyd ar ddigartrefedd i'r grŵp oedran hwn: https://www.york.ac.uk/media/chp/documents/2008/Family%20Homelessness%20final%20report.pdf

- Dim yn mynd i'r ysgol/wedi'u gwahardd o'r ysgol
- Bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol
- Rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll am noson neu fwy
- Esgeulustod
- camddefnyddio sylweddau – fe'u cyfeirir at wasanaethau yn Haenau 2/3/4
- Cam-drin domestig/trais yn y cartref teuluol
- Problemau iechyd meddwl yn y teulu (rhieni a/neu berson ifanc)
- Brodyr a chwiorydd hŷn sy'n ddigartref ar oedran cynnar

**Ystyriaethau ac awgrymiadau**

Mae llawer o bobl ifanc yn dweud nad ydynt yn gwybod ble i droi i gael cymorth. Dengys gwaith ymchwil fod tua 80% o bobl ifanc yn ceisio opsiynau eraill cyn mynd at awdurdod lleol. Erbyn hynny, efallai fod y cyfleoedd i atal digartrefedd wedi mynd yn llai.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau mae'r mwyafrif o bobl ifanc sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol gan ddweud eu bod yn ddigartref eisoes yn hysbys i wasanaethau eraill sydd, yn aml, yn rhai statudol ac yn cael cymorth ganddynt. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnal ymarfer i geisio nodi pobl ifanc sy'n nodi risgiau uchel, gan gynnwys Conwy a Chaerffili. Bydd y gwasanaethau canlynol – ac eraill – yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref:

- Ysgolion
- Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – pobl ifanc yn eu harddegau mewn gofal, sy'n agos at fod yng ngofal awdurdod lleol, sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant, y rhai sy'n cael gwasanaethau cymorth i deuluoedd
- Colegau AB
- Asiantaethau yn y trydydd sector

Ond nid yw rhai pobl ifanc yn cael cysylltiad â gwasanaethau cyn iddynt ddod yn ddigartref, felly nid oes modd nodi'r grŵp hwn. Mae gwybodaeth leol glir a hygyrch ynglŷn â beth i'w wneud a ble i gael cyngor yn bwysig.

Mae ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o anawsterau gadael cartref yn ifanc yn aml yn gyfyngedig. Efallai y bydd rhai achosion lle mae'r opsiwn o adael cartref a dweud wrth yr awdurdodau bod person yn ddigartref/mynd i mewn i lety â chymorth yn cael ei dderbyn yn rhy hawdd – efallai fel 'ateb' byrdymor i anawsterau teuluol. Yr her yw sefydlu systemau lle gall yr holl wasanaethau lleol nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref yn systematig a chymryd camau i atal argyfwng digartrefedd, cadw pobl ifanc yn eu

rhwydweithiau teuluol a lle y bo modd gweithio mewn partneriaeth i hwyluso symudiadau wedi'u cynllunio.

**Cymorth cynnar i aros gartref**

- Mae rhaglenni ymyrryd ataliol cenedlaethol eisoes yn bodoli, megis Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd a gynhelir ym mhob awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg a'u rhieni. Hefyd, caiff gwasanaethau eraill eu darparu neu eu comisiynu gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant, Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder sy'n anelu at roi cymorth i deuluoedd gyda materion penodol. Mae'n bwysig bod y meini prawf atgyfeirio rhwng gwasanaethau yn cynnwys digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd fel ffactor sy'n ysgogi ymyriadau.

- Mae chwe Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol yn goruchwylio gwaith diogelu mewn grwpiau o awdurdodau lleol. Maent yn cydgysylltu'r gwaith o weithredu blaenoriaethau diogelu cenedlaethol, polisïau newydd ac yn amlinellu unrhyw flaenoriaethau lleol. Bydd llawer o bobl ifanc yn eu harddegau sy'n wynebu risg uchel o ddigartrefedd yn profi neu'n amlygu ffactorau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â digartrefedd ieuenctid (e.e. cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, mynd ar goll, esgeulustod, byw gyda thrais yn y cartref teuluol, problemau iechyd meddwl, hunan-niwed, camddefnyddio sylweddau). Felly gall fod yn fuddiol datblygu canllawiau ar y cyd drwy'r Bwrdd Diogelu a all fod ar gael i weithwyr proffesiynol ynglŷn â nodi'r problemau/risgiau a all arwain at ddigartrefedd ieuenctid, ble i droi am gymorth a realiti gadael cartref yn ifanc.

- Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, y Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd a'r model 'Llwybr Cadarnhaol' oll wedi'u seilio ar weithio amlasiantaethol a chymorth ymarferol, o fewn model o atal, diogelu ac unioni a dull gweithredu system gyfan sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gwell. Mae cysylltiad clir rhwng y meini prawf ar gyfer cymorth i deuluoedd sy'n cynnwys pobl ifanc yn eu harddegau hwyr a rhai o'r ffactorau achosol a all arwain at ddigartrefedd ieuenctid (e.e. rhieni sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref teuluol, problemau iechyd meddwl, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ddim yn mynychu'r ysgol/gwaharddiad o'r ysgol). Yn lleol, mae'n debyg y bydd cyfleoedd i gysoni'n fwy â gwaith y Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf a'r rhan hon o waith 'Llwybr Cadarnhaol', sy'n canolbwyntio ar gadw pobl ifanc yn y cartref lle y bo modd. Mae pobl ifanc yn dweud mai gweithio gyda'r teulu cyfan yn y cartref teuluol a cheisio bod yn ymarferol ac yn realistig bob amser sydd fwyaf buddiol.

- Dylid ystyried sut i osgoi 'dibyn' lle mae gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc aros gartref/yn y rhwydwaith teuluol yn dod i ben i bobl ifanc 16 neu 17 oed. O ran Gwasanaethau Plant ceir dadl 'gwario i arbed' gref dros barhau i weithio gyda phobl ifanc hyd at 18 oed a'u teuluoedd, o ystyried y costau'n ddiweddarach sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau statudol i bobl ifanc 16/17 oed sy'n ddigartref[33].

[33]Tŷ'r Arglwyddi – dyfarniad G v Southwark 2009 a chanllawiau statudol 2010 Llywodraeth Cymru "Provision of acommodation for 16 and 17 year old young people who may be homeless" Gweler: http://gov.wales/docs/dhss/publications/100915housingcircularen.pdf .Noder ar adeg ysgrifennu (Awst 2016) roedd angen diweddaru'r canllawiau hyn yng ngoleuni newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth digartrefedd a phlant.

- Gall parhad cymorth ymarferol, sy'n ddigon hyblyg i fynd y tu hwnt i ffiniau gwasanaethau traddodiadol a dilyn pobl ifanc y tu hwnt i 18 oed, helpu i atal digartrefedd. Mae cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn debygol o ddod i ben yn 18 oed, ond gallai cymorth arall barhau neu gael ei gynnig – yn dibynnu ar ba mor integredig yw'r ffordd y darperir gwasanaethau lleol. Gallai'r math o gymorth y gellid ei gynnig gynnwys, er enghraifft, gwaith parhaus gyda gweithiwr Teuluoedd yn Gyntaf neu Wasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd, asiantaeth yn y Trydydd Sector yn cynnig cymorth rhianta, cyfryngu teuluol neu gynadledda mewn grŵp teuluol.

**Cynllunio gyda theuluoedd i atal argyfwng**

- Mae rhai pobl ifanc ym mhob ardal leol na allant aros gartref am amrywiaeth o resymau ac mae angen iddynt adael cartref eu rhieni. Er gwaethaf ymdrechion, er enghraifft, aelodau cefnogol o'r teulu a gweithwyr proffesiynol, nid yw aros gartref yn ddiogel nac yn ymarferol yn yr hirdymor.

- Pan fydd yn debygol bod angen i bobl ifanc symud, gellid ystyried gwaith cynllunio rhagweithiol gyda'r person ifanc a'i deulu. Nid oes a wnelo hyn ag annog pobl ifanc i symud allan pan nad oes angen iddynt wneud hynny, na rhoi'r gorau i geisio helpu pobl ifanc a theuluoedd, ond mae a wnelo â gwneud <u>cynlluniau wrth gefn</u> gyda hwy, yn seiliedig ar y farn broffesiynol o fewn awdurdodau lleol a chyda'u partneriaid.

- Mae hefyd yn gyfle i esbonio realiti'r sefyllfa ymhellach gyda'r teulu cyfan o ran pa opsiynau sydd ar gael a pha mor anodd yw gadael cartref yn ifanc. Gallai cynadledda mewn grŵp teuluol fod yn adnodd defnyddiol ar yr adeg hon er mwyn sicrhau bod y teulu yn cynorthwyo yn yr holl waith cynllunio – ac yn ddelfrydol gyda'r teulu yn arwain neu'n cyd-arwain y gwaith cynllunio. Pan na fo unrhyw broblemau diogelu sylweddol, mae cyfnodau pontio mwy esmwyth sy'n cefnogi cyswllt parhaus rhwng pobl ifanc a'u teuluoedd yn debygol o arwain at ganlyniadau gwell nag ymadawiad 'mwy toredig' o'r cartref teuluol.

- Ystyriwch ddatblygu opsiynau i <u>ohirio</u> penderfyniad pobl ifanc i symud allan mewn argyfwng lle nad oes problem o ran diogelu. Ceir rhai enghreifftiau o gynlluniau y gall fod yn fuddiol eu hystyried sy'n rhoi cymhelliant i aros gartref ac yna gynllunio symud allan os bydd angen. Gellid addasu rhai o'r rhain yn unol â'ch cyd-destun lleol. Er enghraifft, ceir rhai enghreifftiau o ohirio symudiadau, mewn cyd-drafodaeth â'r teulu. Mae cymorth parhaus i'r teulu neu gyfryngu ar gael, ond ceir cytundeb o ran gofyniad bod y person ifanc yn cael rhywfaint o hyfforddiant cyn cael tenantiaeth ac yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant cyn y gellid ystyried eu helpu i symud.

**Gwaith cyfryngu**
Asiantaeth yn y Trydydd Sector yw Llamau, sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc a menywod sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ledled Cymru. Mae'r gwasanaethau cyfryngu a ddarperir gan Llamau mewn 10 awdurdod lleol wedi'u hymgorffori neu eu cysoni â gwasanaethau atal digartrefedd ieuenctid. Ceir enghraifft dda ym Mro Morgannwg, lle mae 'siop un stop' yn dwyn ynghyd wasanaeth cyfryngu Llamau a Gwasanaethau Plant, Tai a gwasanaeth Jigso Llamau – gwasanaeth cynghori ar dai / hawliau lles a thŷ llety â chymorth. Mae'r gwasanaethau cyfryngu yn gweithio gyda theuluoedd a phobl ifanc mewn gofal hefyd, lle mae risg y bydd lleoliad yn methu.

Mae'r model o gyfryngu a ddefnyddir yn cydweddu i Gamau Dau a Thri y Llwybr Cadarnhaol. Mae'n rhagweithiol, gan gynnig ymateb uniongyrchol i ofalwyr/teuluoedd pan fo angen a defnyddio ymweliadau cartref – adnodd atal hanfodol ynddo'i hun – a chyd-drafod mwy anffurfiol yn ogystal â sgiliau cyfryngu. Yn genedlaethol, mae llawer o bobl ifanc yn dweud y byddent wedi gweithio'n galetach o bosibl i gyd-dynnu â'u rhieni/gofalwyr pe baent wedi sylweddoli beth oedd realiti gadael cartref neu ofal yn gynnar. Er ei fod bob amser yn ystyried diogelu, mae Llamau yn ceisio cyfleu realiti'r sefyllfa'n ymarferol o ran y mathau tebygol o lety a gynigir i bobl ifanc, eu lleoliad a heriau o ran fforddiadwyedd. Ond hyd yn oed pan na all pobl ifanc aros gartref neu mewn lleoliadau gofal, mae gweithwyr cyfryngu yn ceisio eu helpu i symud mewn ffordd fwy cynlluniedig ac, yn bwysig ddigon, yn hyrwyddo cyswllt cadarnhaol parhaus â gofalwyr/rheini pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Mae pobl ifanc yn dweud bod cyfryngu o fudd mawr hyd yn oed pan na allant aros yng nghartref gofalwr neu gartref teuluol.

Lle y caniatâ cyllid a chontractau, bydd Gweithwyr Cyfryngu yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau cynnar, 14-15 oed. Dywedir bod hyn yn ffordd hynod effeithiol o atal argyfwng digartrefedd pan fyddant yn hŷn.

Mae eu model cyflawni yn hynod effeithiol oherwydd y dull gweithredu 'gallu gwneud', cysoni neu integreiddio â gwasanaethau statudol a sgiliau ac ymrwymiad y staff. Fe'i cydnabyddir yn genedlaethol fel enghraifft o arfer gorau.

Cyswllt: Joe Payne, Pennaeth Gwasanaethau a Chyfryngu Teuluol Caerdydd a'r Fro: joepayne@llamau.org.uk

**<u>Prosiect Ymyriadau Teuluol Solas:</u> <u>ATAL digartrefedd ieuenctid yng Nghasnewydd a sir Fynwy</u>**

Ariennir Solas gan gyngor Casnewydd a chyngor Sir Fynwy, yn ogystal â Charter Housing a Chymdeithas Dai Sir Fynwy i roi cymorth lefel uchel i deuluoedd sydd â phlant lle ceir risg o ddigartrefedd. Drwy weithio gyda'r aelwyd gyfan, gan ddefnyddio arbenigedd lleol i gydlynu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir a pheidio â'r rhoi gorau iddi'n hawdd – a pheidio ag ofni mynd i'r afael â'r materion anodd megis cam-drin domestig – mae Solas yn atal problemau yn y dyfodol a allai arwain at ddadfeddiannu a digartrefedd ieuenctid.

Mae Solas yn gweithio gyda theuluoedd sydd â phroblemau amlweddog o un genhedlaeth i'r llall; dengys gwaith diweddar fod 56% o'r oedolion yn y teuluoedd yn blant a dderbyniodd ofal eu hunain a bod gan 90% o'r teuluoedd blant neu bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant

na chyflogaeth, bod gan 80% oedolyn â phroblem iechyd meddwl, bod gan 80% rywun ar yr aelwyd a oedd yn camddefnyddio sylweddau a bod 70% wedi cael profiad o gam-drin domestig. Mae'r ffactorau hyn oll yn ffactorau allweddol sy'n ysgogi pobl ifanc yn eu harddegau i adael cartref a mynd yn ddigartref ar oedran cynnar.

Gall Solas weithio gyda theulu am hyd at ddwy flynedd neu fwy os oes angen. Mae'r gwaith yn ymarferol iawn ond mae hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau o ran camweithredu teuluol a phroblemau wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Mae'n canolbwyntio ar atebion hunangynhaliol o fewn y teulu a'r gymuned leol. Gall hyn gynnwys nifer o atebion ymarferol yn ogystal â chyfryngu ac ail-greu cydberthnasau yn y gymuned leol.
Mae gan dîm Solas y sgiliau ac mae wedi cael hyfforddiant i ymgymryd ag ymyriadau seico-gymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel na chaiff unrhyw broblemau eu hanwybyddu na'u hystyried yn amherthnasol.

Mae canran uchel o deuluoedd sy'n gweithio gyda Solas yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn hyfforddiant, addysg na chyflogaeth (NEET). Mae sicrhau llwyddiant yn y maes hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y teulu, y gymuned leol ac wrth gwrs y person ifanc unigol. Yng Nghaerffili y llynedd, roedd 90% o'r bobl ifanc y gweithiodd Solas â hwy yn NEET, ar ôl eu hymyriad dim ond 10% oedd yn NEET.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Charlotte Waite, Cyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a

Theuluoedd: Charlotte.Waite@solas-cymru.co.uk

# 3) Ymateb integredig i bobl ifanc y sydd angen cymorth gyda thai a Phorth i lety a chymorth a gomisiynwyd

Y Gwasanaeth:

Wedi'i arwain gan yr Awdurdod Tai a Gwasanaethau Plant, gwasanaeth integredig i bobl ifanc sy'n ddigartref, sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu y mae angen cymorth arnynt gyda symudiadau a gynlluniwyd tuag at annibyniaeth. Mae opsiynau tai a gwasanaethau atal digartrefedd, sydd yn aml wedi'u cyd-leoli, yn dod ynghyd gyda gwasanaethau eraill gan gynnwys cymorth i lwybrau tuag at ddysgu a gwaith. Wedi'i ategu gan wybodaeth, cyngor a chymorth ac asesiad o unrhyw anghenion gofal a chymorth yn ogystal ag anghenion tai. Mae'n cynnwys 'porth' sydd wedi'i ysgogi gan anghenion tuag at lety â chymorth a gomisiynwyd a gwasanaethau cymorth hyblyg fel y bo'r angen. Mae hwn yn fan casglu data allweddol a fydd yn llywio'r broses barhaus o ddatblygu'r llwybr lleol.

Canlyniadau a ddymunir:

- Caiff digartrefedd ei atal lle bynnag y bo modd, er enghraifft drwy helpu pobl ifanc i aros yn eu rhwydwaith teuluol neu eu hatal rhag colli tenantiaeth
- Mae pobl ifanc y mae angen llety a/neu gymorth arnynt yn ei gael, gan gynnwys llety brys addas mynediad cyflym a chymorth uniongyrchol a pharhaus lle y bo angen
- Mae llety a chymorth i bobl ifanc yn ategu eu llwybrau tuag at ddysgu a gwaith yn hytrach nag amharu arnynt

**Beth ddywedodd pobl ifanc**

- *'Pam na all y gwasanaethau i gyd fod yn yr un lle yn hytrach na'n gorfodi i fynd nôl ac ymlaen?'*
- *'Rhaid i chi esbonio beth ddigwyddodd dro ar ôl tro'*
- *'Pe na bai bylchau rhwng gwasanaethau byddai mor hawdd'*
- *'Rydych yn teimlo eich bod yn cael eich hel o le i le a'ch anghofio ar unrhyw bryd'*
- *Mae stigma mawr iawn yn gysylltiedig â bod yn ifanc ac yn ddigartref. Dyw pobl ddim yn credu nad chi sydd ar fai, does neb yn ein cymryd o ddifrif.*
- *'Roeddwn yn llythrennol ar y stryd mewn crys isaf cyn i fi fynd at y Cyngor.'*
- *Mae'n bwysig bod gweithwyr yn gyfeillgar ac yn gwrando ar bobl ifanc.*
- *'Fyddai paned o de a bisgïen ddim yn costio llawer – mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i ni'*
- *Mae angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gael y plentyn a'r rhiant gyda'i gilydd i ddatrys y broblem, os yw'n ddiogel gwneud hynny.*
- *Gall ymweliadau cartref fod yn beth da.*
- *Weithiau, dyw rhieni ddim yn dweud beth sy'n digwydd mewn gwirionedd, mae angen i chi wrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud*

**Y Gwasanaeth**

Mae gan awdurdod lleol ddull di-dor a chydgysylltiedig o fynd ati'n rhagweithiol i atal pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref pan fyddant yn cysylltu i gael cymorth gyda thai. Yn ddelfrydol, mae un 'drws ffrynt' integredig gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Awdurdodau Tai yn cydweithio, yn aml â phartner yn y Trydydd Sector. Os nad yw hynny'n bosibl, weithiau oherwydd natur wledig ardal leol, ceir un pwynt mynediad 'rhithwir' at wasanaethau, gyda Tai, Gwasanaethau Plant ac asiantaethau eraill oll yn cydweithio i ymdrin ag anghenion tai, digartrefedd a'r materion sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae swyddogaethau'r gwasanaethau yn cynnwys asesu angen, gwaith cynllunio, cyngor, opsiynau tai a gweithgarwch ataliol. Mae llety arhosiad byr/brys ar gael os oes angen a cheir cyfeirio a mynediad at wasanaethau eraill – e.e. cyngor/cymorth ynglŷn ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gwasanaethau iechyd, sgiliau bywyd ac unrhyw hawl i gael budd-daliadau. Dylai'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod person ifanc yn barod ar gyfer cyflogaeth gael eu nodi'n glir ynghyd â'r ffordd y caiff ei helpu i'w cyflawni.

Darperir y 'porth' neu 'un pwynt mynediad' tuag at lety â chymorth i bobl ifanc hefyd drwy'r swyddogaeth hon neu mewn cysylltiad agos â hi – i bob diben, dyna'r mynediad o ddydd i ddydd at holl ddarpariaeth Cefnogi Pobl ac unrhyw ddarpariaeth llety â chymorth arall a gomisiynwyd i bobl ifanc, nid yn unig y 'mynediad uniongyrchol' neu'r ddarpariaeth frys.

Disgrifir y swyddogaethau amrywiol sy'n gysylltiedig â thai a chymorth o fewn un gwasanaeth 'hwb' integredig isod.

**Cyngor ar opsiynau tai**

Mae cyngor ar opsiynau tai yn cynnwys rhoi darlun realistig o ba fath o lety a allai fod ar gael a manteision ac anfanteision pob un – er enghraifft fforddiadwyedd, a ydynt yn debygol o fod ar gael, amseroedd aros, lleoliadau a disgwyliadau landlordiaid. Dylid ystyried pob opsiwn, gan gynnwys aros gyda theulu a ffrindiau a rhannu ag eraill. Mae cysyniad o ddilyniant – gweithio tuag at fyw'n annibynnol – hefyd yn rhan o'r cyngor ar opsiynau.

Gallai fod mynediad at yr asiantaeth gosod tai cymdeithasol leol neu gynllun mynediad rhentu preifat a chysylltiad â'r Gofrestr Dai.

Mae fforddiadwyedd eisoes yn ystyriaeth fawr i unrhyw berthynas rhwng tenant ifanc newydd a landlord. I bobl ifanc, mae'r gallu i ymdopi â thenantiaeth ar incwm isel yn ffactor allweddol a fydd yn cael hyd yn oed mwy o sylw yn achos llawer unwaith y bydd y newidiadau arfaethedig i hawl pobl 18-21 oed i gael Budd-dal Tai yn cael eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2017. Noder ar adeg llunio'r ddogfen hon (Awst 2016) mai prin yw'r manylion ynglŷn â'r cynnig polisi hwn. Bydd capio rhenti cymdeithasol ym mis Ebrill 2018 i lefelau'r Lwfans Tai Lleol, gan gynnwys y Gyfradd Llety a Rennir i bobl o dan 35 oed hefyd yn dechrau cael effaith ar dai cymdeithasol i bobl ifanc sengl yn awr, gan y bydd y newid polisi hwn yn gymwys yn 2018 i'r rhan fwyaf o denantiaid newydd o fis Ebrill 2016. Dyna pam mae mor bwysig bod cymorth i bobl ifanc yn cynnwys llwybr clir tuag at gyflogaeth.

**Asesu a chynllunio anghenion tai ac anghenion cymorth eraill**

Mae gan lawer o bobl ifanc nifer o anghenion eraill, na fyddant o reidrwydd yn amlwg oni chynhelir asesiad trylwyr. Mae hwn yn mynd y tu hwnt i edrych ar dai/llety ac edrych ar agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc, megis teulu, cydberthnasau, hunaniaeth, iechyd, addysg/hyfforddiant/cyflogaeth, hunanofal a sgiliau byw ymarferol.

Yn aml, nid yw'r broses o asesu anghenion yn weithgarwch untro, ond yn broses barhaus sy'n llywio'r gwaith o gynllunio'r opsiynau gorau i bobl ifanc a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt o bosibl i'w cefnogi. Y man cychwyn yw asesiad lefel isel o'u sefyllfa bresennol a'u hanghenion uniongyrchol. O'r man cychwyn hwn caiff penderfyniadau eu gwneud gyda hwy ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol ymlaen a ph'un a oes angen asesiad manylach neu asesiad statudol.

Os bydd unrhyw berson ifanc 16 oed a hŷn yn cysylltu â'r awdurdod lleol gan ddweud ei fod neu y gallai fod yn wynebu risg o ddigartrefedd, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i geisio atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod, neu os yw'n ddigartref neu'n mynd yn ddigartref, mae dyletswydd 56 diwrnod i'w helpu i liniaru eu digartrefedd[34]. O ran pobl ifanc 16/17 oed, os ydynt yn ddigartref neu ar fin bod yn ddigartref, bydd y Gwasanaethau Plant am gynnal asesiad o'u hanghenion a'u sefyllfa, ond ni fyddai hyn yn atal y Gwasanaethau Plant rhag rhoi llety i blentyn digartref o dan Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[35], gan nad oes angen iddynt gael eu hasesu fel 'plentyn mewn angen' mwyach er mwyn cael llety. Fel arfer, dylai pobl ifanc 16/17 oed heb lety gael cymorth drwy'r darpariaethau a geir yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â Gwasanaethau Cymdeithasol yn y lle cyntaf.

Pan fydd yn debygol bod angen llety arhosiad byr neu lety â chymorth ar berson ifanc, bydd angen asesiad risg, ac yn dibynnu ar drefniadau gwaith lleol â darparwyr llety â chymorth gall hwn gael ei gynnal drwy'r hwb gwasanaethau integredig neu'r porth.

**Atal digartrefedd**

Ceir nifer o adnoddau ataliol y gellir eu defnyddio i leihau digartrefedd. Un dull neu ethos sylfaenol sy'n gweithio'n dda yw arafu pethau pan fydd person ifanc yn cysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref. Nid yw hyn yn golygu y caiff anghenion y person ifanc eu hanwybyddu na bod y person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei "droi ymaith", ond nad oes tybiaeth yn syth bod y person ifanc yn ddigartref ac nad oes unrhyw ateb ond llety brys. Mae'n rhaid i sefyllfaoedd ac anghenion unigol gael eu hasesu ac mae'n rhaid i adnoddau ataliol gael eu defnyddio lle y bo'n briodol, a hynny'n seiliedig ar farn broffesiynol.

Mae enghreifftiau o'r adnoddau hyn yn cynnwys ymweliadau cartref yn gyflym – o fewn 48 awr; cyd-drafod a chyfryngu anffurfiol rhwng aelodau'r teulu; cyfryngu teuluol mwy ffurfiol neu gynadledda mewn grŵp teuluol; gwaith cyngor ar ddyledion a budd-daliadau; defnyddio cronfeydd atal byrdymor (e.e. drwy ddefnyddio cyllideb Gwasanaethau Plant[36] a chronfeydd atal digartrefedd) neu, os yw'n gymwys, fynediad at Daliadau Tai yn ôl

[34] Gweler Adrannau 66 a 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yma: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/enacted

[35] Gweler Adrannau 21, 22, 76 yma: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted

[36] Gweler Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adrannau 34, 37 neu 38 (3)

Disgresiwn; arosiadau gydag aelodau o’r teulu estynedig/ffrindiau; mynd ati i helpu’r person ifanc i fynd i’r coleg neu gael hyfforddiant; cymorth fel y bo’r angen; neilltuo gweithiwr cymorth ieuenctid ar gyfer y person ifanc; neu gynllunio symudiad i’r teulu cyfan (e.e. pan fydd cartref gorlawn yn broblem).

Mae cyfuno arbenigedd Gwasanaethau Plant a Thai yn hanfodol ar yr adeg hon er mwyn sicrhau’r cyfle gorau i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc 16/17 oed, troseddwyr ifanc, y rhai sy’n gadael gofal a phobl ifanc eraill.

Mae ymweliadau cartref, ynghyd â defnyddio cyd-drafod anffurfiol a sgiliau cyfryngu yn hynod effeithiol pan gânt eu defnyddio’n gyson. Mae cynnig cymorth parhaus – a pharhau i ymgysylltu â’r person ifanc a’i deulu ar ôl i’r argyfwng/fflachbwynt uniongyrchol fynd heibio, yn hanfodol er mwyn parhau i atal digartrefedd.

Ond mae rhai pobl ifanc na allant ac na ddylent aros gartref oherwydd risg o niwed sylweddol. Drwy waith asesu a barn broffesiynol bydd modd penderfynu pa bobl ifanc sy’n wynebu risg ac y mae angen iddynt adael cartref.

Mae **Gwasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS)** yn enghraifft o ‘hwb’ neu siop un stop i bobl ifanc. O dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae nifer o adrannau ac asiantaethau yn ariannu swyddi ac yn darparu gwasanaethau. Yn lle cynllunio gwasanaethau ‘annibynnol’ o fewn amrywiol seilos cyllido a phroffesiynol, pobl ifanc a chanlyniadau cadarnhaol sydd wedi bod wrth wraidd y broses o gynllunio gwasanaethau. Mae’r broses o integreiddio gwasanaethau yn dilyn yn rhesymol pan fo gwaith cynllunio yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc. Mae TYPSS wedi bod yn datblygu dros nifer o flynyddoedd ac mae’n cynnwys gwasanaeth i bobl ifanc 16+ sy’n gadael gofal ac yn cynnig cyngor gyrfaoedd, sesiynau iechyd/atal cenhedlu, cyngor ar hawliau lles, cyfryngu teuluol a chyngor ar dai i bob person ifanc. Am y pedair blynedd diwethaf bu Swyddog Tai Pobl Ifanc penodol yn gweithio o fewn y Gwasanaeth.

Penderfynwyd symud swydd o’r adran Dai i TYPSS o ganlyniad i newid mewn cyfraith achosion – Dyfarniad Southwark 2009 – ond hefyd dystiolaeth leol ynglŷn â niferoedd ac angen, a nodwyd drwy waith ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan y comisiynwyr Cefnogi Pobl yn yr awdurdod lleol a awgrymodd fod angen dull mwy cydgysylltiedig o ymdrin â phobl ifanc sy’n wynebu risg o ddigartrefedd.

Effaith y Swyddog Tai arbenigol yw bod pobl ifanc yn cael ymateb mwy cyson ac mae’r siop un stop yn ei gwneud hi’n haws iddynt ymgysylltu ac yna gael gafael ar wasanaethau eraill. Rhoddir canlyniadau’r buddsoddiad i staff Cefnogi Pobl bob chwarter. Ystyrir ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar atal ac adsefydlu.

Cyswllt: Sheryl Thomas, Rheolwr Cyngor Digartrefedd a Thai, Sheryl.Thomas@torfaen.gov.uk neu Chesney Chick, Rheolwr 16+ a Rheolwr TYPSS Chesney.Chick@torfaen.gov.uk

**Gwaith opsiynau tai Pobl Ifanc ym Mro Morgannwg**

Dros y chwe blynedd diwethaf mae Bro Morgannwg gyda'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd enfawr o ran datblygu gwasanaethau i bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Cydberthnasau cryf, llawn ymddiriedaeth sy'n sail i'r dull gweithredu mewn partneriaeth yn y Fro, ynghyd â ffocws ar welliant parhaus. Fel rhan o'r 'cynnig' lleol i bobl ifanc a'u teuluoedd mae gwasanaeth cydgysylltiedig, gydag 'un drws ffrynt', a elwir yn lleol yn "236" i bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Mae cyllid '236' wedi'i gydgysylltu, gyda Gwasanaethau Plant, Cefnogi Pobl, Tai a chyllid A180 Llywodraeth Cymru yn cael ei gynllunio ar y cyd er mwyn sicrhau bod dull gweithredu di-dor. Unwaith bod rhywun y tu mewn i'r 'drws' mae'n hawdd cael gafael ar elfennau eraill o'r 'llwybr' lleol.

- Gwasanaeth Jigso Llamau sy'n darparu opsiynau tai i bobl ifanc a chyngor ar hawliau lles
- Mae gwaith mewn ysgolion a cholegau lleol yn codi ymwybyddiaeth yn lleol ymhlith pobl ifanc ac athrawon ynglŷn ag opsiynau tai a digartrefedd.
- Mae Gwasanaeth Cyfryngu Llamau yn gweld pob person ifanc sy'n cysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref ac yn cynnal ymweliadau cartref i gyfarfod â theuluoedd.
- Asesiadau o ddigartrefedd, sy'n cynnwys Gwasanaethau Plant a Thai yn cydweithio ar bobl ifanc 16/17 oed sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Mae Swyddog Gofal Cymdeithasol Plant 15+ wedi'i leol yn y gwasanaeth
- Un pwynt mynediad neu'r 'porth' i nifer o opsiynau tai â chymorth, gan gynnwys tŷ llety â chymorth a chymorth fel y bo'r angen, wedi'i reoli ar y cyd drwy'r Gwasanaethau Plant, Cefnogi Pobl, Tai a'r darparwyr sy'n bartneriaid, Gwalia a Llamau.
- Cyfres amrywiol o opsiynau llety â chymorth, gan gynnwys tŷ llety â chymorth, tai â chymorth lefel uchel, canolig ac isel a thai â chymorth 'llai dwys' a rennir
- Mae Barnardo's yn cynnal gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc o "236".
- Darpariaeth bwrpasol Dysgu am Oes Llamau, sy'n cynnig amrywiaeth o opsiynau addysgol i bobl ifanc, gan gynnwys cysylltiadau â Symud Ymlaen – lle gellir paratoi'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ar gyfer lleoliad gwaith chwe mis â thâl ac yna gael cynnig lleoliad o'r fath.
- Hyfforddiant Sgiliau Bywyd
- Panel 'symud ymlaen' bob pedair wythnos ar gyfer y rhai sy'n gadael llety â chymorth
- Mynediad at y sector rhentu preifat drwy asiantaeth gosod tai cymdeithasol CanDo Cadwyn a Chynllun Tenantiaeth â Chymorth llwyddiannus y Fro, sy'n gweithio'n galed i ddod o hyd i atebion i gynorthwyo'r rhai sydd ag anghenion tai.

## Pobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal

Weithiau bydd lleoliadau yn dechrau "chwalu" i bobl ifanc 16/17 oed sydd mewn gofal (h.y. gofal maeth neu ofal preswyl), neu sydd eisoes wedi gadael gofal ond sy'n dal i aros gyda chyn-ofalwyr maeth[37], gall pethau ddechrau mynd yn anodd. Gellir defnyddio'r dull ataliol ar gyfer y bobl ifanc hyn hefyd – nid yw pob un o'r adnoddau ataliol a amlinellir yn yr enghreifftiau yn gymwys, ond gellir defnyddio llawer i geisio helpu pobl ifanc a'u gofalwyr i aros yn eu llety neu gynllunio symud os na allant aros yn y tymor hwy.

[37] Gweler yma am Ganllawiau Arfer Da cynllun Pan fydda i'n Barod, Mawrth 2016 http://gov.wales/docs/dhss/publications/160307guidanceen.pdf a hefyd Adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015

## Pobl ifanc yn y ddalfa

Amcangyfrifir bod gan tua 50% o bobl ifanc 16-24 oed sy'n gadael y ddalfa anghenion tai a'u bod yn wynebu risg uchel o ddigartrefedd ar adeg rhyddhau. Gall gweithredu ar y cyd leihau'r risg o ddigartrefedd i'r grŵp hwn. Bydd pob person ifanc 16/17 oed yn derbyn gofal pan fyddant ar remand a bydd gan rai statws gadael gofal. Mae angen cynllunio er mwyn atal digartrefedd i'r bobl ifanc hyn p'un a ydynt yn blant sy'n derbyn gofal, yn bobl ifanc sy'n gadael gofal ai peidio, oherwydd os nad oes ganddynt lety addas a diogel mae risg lawer uwch y byddant yn aildroseddu ac yn cael eu hamlygu i risgiau sylweddol. Unwaith eto, gellir defnyddio amrywiaeth o'r adnoddau ataliol a nodwyd yn effeithiol, ond mae angen gweithredu ar y cyd rhwng Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ac Ymddiriedolaeth Brawf Cymru.

**Llamau: Partneriaethau Ailintegreiddio ac Adsefydlu – Gwella'r gwaith cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa**

Asiantaeth yn y Trydydd Sector yw Llamau, sy'n gweithio gyda phobl ifanc a menywod sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ledled Cymru. Yn 2013 dyfarnodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru gontract iddo gyflogi dau 'frocer adsefydlu' un i'r de a'r llall i'r gogledd.

Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn yn werthfawr ynddo'i hun o ran gwella gwasanaethau i'r grŵp hwn o bobl ifanc sy'n hynod agored i niwed a nodweddir yn rhannol gan eu risg uchel o fod yn ddigartref. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn blant sy'n derbyn gofal neu'n bobl ifanc sy'n gadael gofal. Ond gall y model a ddatblygwyd gan Llamau ar y cyd â'i phartneriaid, sef dwyn asiantaethau ynghyd i ddatrys problemau a chynllunio'n rhagweithiol hefyd gael ei ddefnyddio i grwpiau eraill o bobl ifanc sy'n agored i niwed lle mae digartrefedd yn bryder mawr.

Mae'r ddau frocer adsefydlu wedi dwyn paneli amlasiantaethol ynghyd mewn ardaloedd gwahanol er mwyn helpu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid/gwasanaethau troseddwr ifanc yn lleol a'r ystâd ddiogel (e.e. sefydliadau troseddwyr ifanc a chartrefi diogel i blant) i fwrw ymlaen â chynlluniau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar ailintegreiddio ac adsefydlu yng Nghymru.

Mae'r grŵp hwn, y tybir yn aml eu bod yn rhy risg uchel ar gyfer opsiynau llety â chymorth, yn wynebu risg uwch o gael eu lleoli mewn llety gwely a brecwast nag unrhyw grŵp arall o bobl ifanc mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig ar adeg rhyddhau o'r ddalfa. Diben y paneli yw cynnwys asiantaethau lleol perthnasol – rhai statudol a rhai yn y Trydydd Sector – yn y gwaith cynllunio â ffocws a phrosesau datrys problemau a darparu cymorth a gwasanaethau adsefydlu ac ailintegreiddio.

Mae'r adnoddau a'r cydweithrediad sydd eu hangen gan bartneriaid yn anelu at lenwi'r bylchau a dileu'r rhwystrau i ailintegreiddio ac adsefydlu pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yn effeithiol, ond hefyd y rhai hynny sy'n wynebu risg o fod yn y ddalfa, risg o aildroseddu neu sydd ag angen nas diwallwyd.

Mae'r ffocws ar ailintegreiddio yn anelu at roi terfyn ar droseddu drwy alluogi pobl ifanc i gael y gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt. Nid oes a wnelo'r broses adsefydlu â thai yn unig – mae wedi'i dosbarthu'n saith maes cysylltiedig yn fras, y mae pob un ohonynt yn berthnasol i fodel y 'Llwybr Cadarnhaol' yn lleol:

- Llety
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl
- Camddefnyddio sylweddau

• Teuluoedd
• Arian, budd-daliadau a dyled
• Cyfnodau pontio a rheoli achosion

Mae'r cyllid ar gyfer y gwaith hwn wedi dod i ben erbyn hyn, er bod y prosiect yn parhau ar hyn o bryd ac mae rhagor o gyllid yn cael ei geisio. Mae adroddiad ar ardaloedd y prosiect yn y de a'r gogledd sy'n crynhoi holl ddysgu, canlyniadau a chyflawniadau'r prosiect, ochr yn ochr ag argymhellion pellach ar gyfer datblygiad parhaus wedi'i baratoi. Mae ar gael yma : www.llamau.org.uk/creo_files/default/final_report_on_the_resettlement_broker_project.pdf

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Tracey Kinsey Brocer Adsefydlu (De Cymru) traceykinsey@llamau.org.uk a Kathy Hampson, Brocer Adsefydlu (Gogledd Cymru) kathyhampson@llamau.org.uk

**Un "porth" i lety brys a llety â chymorth**

Fel rhan o wasanaeth integredig, argymhellir yn gryf fod un pwynt mynediad neu "borth" i bob math o lety â chymorth yn yr ardal leol, gan gynnwys llety brys neu lety arhosiad byr. Gallai hyn fod yn rhan o 'borth' ehangach sy'n cwmpasu holl ddarpariaeth Cefnogi Pobl neu gallai fod yn 'borth' wedi'i ddynodi'n benodol i bobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc 16/17 oed sy'n dal i dderbyn gofal y gall fod angen llety â chymorth arnynt a phobl ifanc sy'n gadael gofal, y dylid mynd ati i gynllunio symudiadau iddynt.

Mae 'porth' yn golygu na all unrhyw berson ifanc gael llety â chymorth oni bai ei fod wedi'i gynllunio, gan gynnwys asesiad a phan fo risg o ddigartrefedd, fod opsiynau atal wedi'u hystyried. I bob diben, mae hyn yn rhoi terfyn ar allu unrhyw berson ifanc i gyfeirio ei hun ac fe'i hargymhellir fel ffordd fwy priodol i benderfynu pa bobl ifanc ddylai gael llety â chymorth yn hytrach na thrwy hunangyfeirio. Byddai hefyd yn golygu y byddai angen i unrhyw restrau aros gael eu rheoli'n ganolog mewn awdurdod lleol, yn hytrach na sefyllfa lle mae gan bob darparwr lleol ei restr aros ei hun.

Mae porth yn galluogi'r canlynol:

- Dull mwy cyson o asesu anghenion a deall y ddarpariaeth sydd ar gael, gan arwain at gyfleoedd gwell i baru pobl ifanc ag opsiynau llety, ac ystyried eu hanghenion, eu rhwydweithiau cymorth, eu dymuniadau a'r risgiau y maent yn eu hwynebu ac yn eu hamlygu o bosibl.
- Defnydd gwell o adnoddau prin iawn, gan sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- Diogelu gwell, gyda gwybodaeth a rennir am risg bosibl, dulliau gweithredu y cytunwyd arnynt i reoli risgiau a gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n cael ei leoli a ble.
- Y gallu i atal pobl ifanc rhag cael eu troi allan o'u cartrefi drwy ddulliau ar y cyd o roi cymorth iddynt a thrwy gydweithredu rhwng darparwyr er mwyn galluogi 'symudiadau wedi'u rheoli' pan fo risg o golli tenantiaeth.
- Mwy o allu i barhau â gwaith ataliol, fel y gall pobl ifanc gael cymorth i ddychwelyd adref/at deulu/ffrindiau os yw hynny'n ddiogel ac yn briodol
- Mwy o allu i gynllunio symudiadau gyda phobl ifanc a'u teuluoedd
- Trosolwg o achosion o symud ymlaen wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio
- Llenwi unedau gwag yn ddi-oed ac yn briodol.

Yn y pen draw, mae “porth”, yn hytrach na sefyllfa lle mae pobl ifanc yn cyfeirio eu hunain i gael llety â chymorth, yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i’r rhai y mae angen llety â chymorth fwyaf arnynt a bod pob opsiwn atal arall wedi cael ei ystyried yn llawn cyn atgyfeirio rhywun at ddarparwr llety â chymorth.

**Llety mynediad uniongyrchol a llety arhosiad byr**

Os bydd person ifanc yn ddigartref ac nad oes unrhyw bosibilrwydd y bydd yn dychwelyd at y teulu neu’n aros gyda ffrindiau yna y tebyg yw y bydd angen llety, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr ydyw. Nid oes unrhyw atebion unigol penodol i ddarparu llety brys neu lety arhosiad byr. Mae gan bob ardal ei heriau unigryw ei hun o ran y mathau o lety sydd ar gael ac o ran awdurdodau gwledig, sy’n her ddaearyddol sylweddol hefyd. Ond mae’n sicr yn wir, pan fydd awdurdod yn penderfynu rhoi’r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast a’i fod wedi’i gefnogi’n gorfforaethol, yna bydd darpariaeth amgen yn datblygu i leihau ac yna roi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast. Gweler Atodiad Dau am rai awgrymiadau ynglŷn â hyn.

Ceir modelau gwahanol o lety arhosiad byr addas, gan gynnwys:

- Gwasanaethau lloches dros nos, lle y caiff person ifanc ei leoli gyda “gwestywr” sydd wedi’i hyfforddi ac wedi’i fetio yn ei gartref ei hun am ychydig nosweithiau.
- Tŷ llety â chymorth byrdymor lle y gall pobl ifanc aros gydag aelwyd am ychydig wythnosau neu fwy.
- Gwelyau “dros dro” mewn cynlluniau tai â chymorth mwy o faint/”foyers”, wedi’u neilltuo ar gyfer pobl ifanc mewn argyfwng.
- Canolfannau asesu, lle y gall pobl ifanc aros am rhwng 6-12 wythnos fel arfer.
- Unedau hunangynhwysol o lety dros dro a ddarperir gan awdurdod lleol – ond dylid nodi nad yw’r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn briodol yn gyffredinol i’r rhan fwyaf o bobl ifanc 16/17 oed sy’n dal yn blant yn gyfreithiol.
- Cynlluniau ‘seibiant’ lle mae llety seibiant ar gael ochr yn ochr â chyfle i ddefnyddio cyfryngu teuluol.

Mae arhosiad mewn llety arhosiad byr yn gyfle i barhau i geisio atal digartrefedd a galluogi person ifanc i ddychwelyd at y teulu/teulu estynedig/gofalwyr neu unrhyw ffrindiau lle y bo’n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny. Dylai fod yn gyfnod o asesu pwrpasol, cynllunio a, lle y bo’n ddiogel gwneud hynny, gyswllt teuluol rheolaidd, a arweinir gan weithiwr proffesiynol medrus. Mae mynd ati’n rhagweithiol i helpu pobl ifanc i barhau â’u haddysg yn yr ysgol, coleg neu hyfforddiant neu ailddechrau hefyd yn rhan o’r gwaith.

**Lloches dros nos – llety arhosiad byr mewn cartrefi teuluol**

Ceir tri chynllun lloches dros nos yng Nghymru, sy’n cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol (Powys, Ynys Môn a chynllun ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych). Mae pob un o’r tri chynllun wedi’i achredu gan DePaul UK ac mae’n darparu llety brys gan ‘westywyr’ hyfforddedig yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn opsiwn arhosiad byr defnyddiol mewn unrhyw ardal awdurdod lleol ac fe’u defnyddir yn aml fel opsiwn mewn ardaloedd mwy gwledig, lle gall cynlluniau llety â chymorth fod yn bellter mawr o ardal leol person ifanc.

Mae lloches dros nos yn opsiwn arhosiad byr iawn, darpariaeth mynediad uniongyrchol – gydag

arosiadau o hyd at dair noson, neu gall cynllun ‘Lloches Dros Nos a Mwy’ ddarparu llety am ychydig mwy. Fel arfer, nid yw lloches dros nos yn addas i bobl ifanc ag anghenion lefel uwch e.e. y rhai â phroblem camddefnyddio sylweddau, hanes o drais neu droseddu sylweddol a phroblemau iechyd meddwl difrifol.

Daeth y cynllun trawsawdurdod rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych i fodolaeth ar ôl i’r ddau awdurdod lleol gytuno i weithio ar sail fwy rhanbarthol i fynd i’r afael â nifer y bobl ifanc ddigartref a oedd yn cael llety gwely a brecwast a llety hostel. Roedd yr adborth a gafwyd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â datblygu Lloches Dros Nos yn gadarnhaol. Cytunwyd ar nod y gwasanaeth Lloches dros nos rhwng timau Cefnogi Pobl yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych ac Atebion Lleol ym mis Ebrill 2013. Roedd yn gwneud synnwyr da o ran arbedion maint a natur y cynllun i leihau’r defnydd a wneir o lety gwely a brecwast mewn ardaloedd mwy gwledig.

Ymhlith y gwersi a ddysgwyd o’r cynllun mae’r ffaith, er bod lloches dros nos yn rhoi mynediad uniongyrchol ar yr un diwrnod, ei bod yn bwysig cael asesiadau risg gan y Tîm Troseddwyr Ifanc a Gwasanaethau Plant mewn modd amserol, er mwyn gwneud yn siŵr bod cefnogaeth gan y gwasanaethau hyn, a sicrhau y gall pobl ifanc gael llety ar yr un diwrnod.

Ar gyfer Sir y Fflint a Sir Ddinbych mae manteision gwerth am arian ar gyfer yr opsiwn hwn fel a ganlyn:

- Taliadau i Ddeiliaid Tai – 622 noson @ £15 y noson, Cyfanswm £9,330
- Cost gyfartalog llety gwely a brecwast (Sir y Fflint) = £38.50 y noson (gyda lleoliadau maeth ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed yn fwy costus) 622 noson mewn llety gwely a brecwast = £23,947
- Arbed £14,617 mewn costau llety, nad yw’n ystyried y cymorth ychwanegol a roddir gan ddeiliaid tai a’r canlyniadau cadarnhaol. Mae atal y cylch o ddigartrefedd mynych a welir yn aml yn y grŵp oedran hwn yn arbediad gwirioneddol.

Cysylltwch â: Debbie Cooke, Cyfarwyddwr, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Atebion Lleol.
Debbie.cooke@localsolutions.org.uk

Gweler hefyd https://uk.depaulcharity.org/NightstopUK i gael rhagor o wybodaeth

**Ystyriaethau ac awgrymiadau**

- Fel arfer, dim ond pan fyddant yn wynebu risg uchel o ddigartrefedd y bydd pobl ifanc yn cysylltu ag awdurdodau lleol. Cyfyd her i edrych ar ailgynllunio gwasanaethau ar adegau eraill yn y Llwybr Cadarnhaol o ran newid diwylliant a systemau sy’n annog ac yn galluogi pobl ifanc a/neu eu teuluoedd i geisio cyngor ar faterion tai **cyn** bod argyfwng digartrefedd.

- Y sylfaen dros un porth gwasanaethau integredig yw bod Gwasanaethau Plant ac Awdurdodau Tai yn gweithio gyda’i gilydd. Ceir tystiolaeth gref bod mewnbwn y Trydydd Sector hefyd yn hynod effeithiol ar yr adeg hon yn ystod y daith.

- Mae un ‘drws ffrynt’ lleol i mewn i wasanaethau ar gyfer cyngor ar opsiynau tai a gweithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion tai neu sy’n wynebu risg o ddigartrefedd yn sicrhau dull gweithredu mwy cyson a chyfraddau atal uwch. Os nad yw hyn yn bosibl yna bydd angen dull symlach o weithio gyda phartneriaid, sy’n gofyn am gytundeb ar

brosesau, rolau a chyfrifoldebau allweddol partneriaid, gyda'r nod o leihau nifer y cysylltiadau a'r asesiadau gwahanol y mae pobl ifanc yn eu cael i'r eithaf.

- Cyflwyno'r achos busnes dros ffordd fwy integredig o weithio – gan ddechrau gyda dealltwriaeth leol y grwpiau cleientiaid a'r dystiolaeth mai'r awdurdodau lleol sydd â'r cyfraddau atal gorau ymhlith pobl ifanc yw'r rhai lle ceir dull gweithredu mwy integredig. Mae adnoddau defnyddiol ar gael er mwyn helpu i ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus[38] fel y byddant wedi'u cysoni'n llawer gwell ag asiantaethau/gwasanaethau eraill sydd â'r prif nod o wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae pob ardal leol yn wahanol ond mae'r mathau o wasanaethau y gellid eu lleoli o fewn model gwasanaethau integredig neu eu cysylltu'n agos ag ef yn cynnwys:

    - Gyrfa Cymru
    - Rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc
    - Gwasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau/Y Ganolfan Byd Gwaith
    - Cyngor ar fudd-daliadau/sicrhau'r incwm mwyaf a chwnsela dyledion
    - Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc
    - Gwasanaethau gadael gofal
    - Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
    - Gwasanaethau iechyd meddwl
    - Cyngor ar iechyd rhywiol
    - Hyfforddiant sgiliau bywyd

- Nid yw'n bosibl datblygu siopau un stop na 'Hybiau Ieuenctid' bob amser am nifer o resymau – e.e. maint yr ardal, niferoedd/y galw, daearyddiaeth, lleoliad/adeiladau, blaenoriaethau partneriaid eraill ac, wrth gwrs, gyllideb. Ond mae rhesymau 'cost a budd' cymhellol dros ystyried yr opsiwn hwn, hyd yn oed ar sail 'rithwir', y gallai dadansoddiad cost a budd gynnig tystiolaeth yn ei gylch.

- Pa fodel bynnag a ddefnyddir, mae pobl ifanc yn dweud mai gwasanaethau cyfeillgar y mae'n hawdd mynd atynt sy'n gweithio orau. Nid yw hyn yn anodd i'w gyflawni – y staff yw'r gwasanaeth ac mae angen iddynt feddu ar y sgil o weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd – a gwir fwynhau gweithio gyda'r grŵp oedran hwn.

- Mae casglu data yn rhan allweddol o unrhyw ymgais i ailgynllunio gwasanaethau – mae'n galluogi awdurdod lleol i ddeall anghenion, tueddiadau a chanlyniadau ataliol ar yr adeg hon yn y Llwybr.

Mae rhoi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi cymryd camau penderfynol er mwyn osgoi lleoli pobl ifanc mewn llety gwely a brecwast a rhoi terfyn arno ac mae eraill yn dechrau gwneud hynny.

[38] Gweler http://publicservicetransformation.org am enghreifftiau o waith dadansoddi cost a budd a syniadau ar gyfer ail-ddylunio gwasanaethau

**Gweithio yn Abertawe i ddileu'r defnydd o lety gwely a brecwast**

Mae Abertawe ond yn un o sawl enghraifft, lle mae'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r defnydd o lety gwely a brecwast. Er mwyn gwneud hyn, arweiniodd swyddog arweiniol grŵp llywio amlasiantaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cefnogi Pobl, Tai, y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, Barnardo's, Wallich, Prosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe a Gwalia.

Gyda'i gilydd maent wedi llunio dull gweithredu mwy pwrpasol o ddiwallu anghenion cymorth pobl ifanc sy'n wynebu risg o fynd i lety gwely a brecwast a chynllunio darpariaeth amgen. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y defnydd o lety gwely a brecwast o ran atal pobl ifanc rhag cael eu lleoli ynddo, ond mae hefyd yn newid y ffordd y caiff llety gwely a brecwast ei ystyried yn lleol – nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn dichonadwy mwyach.

Dechreuodd y cynllun ym mis Tachwedd 2015 ac ar adeg ysgrifennu am yr enghraifft hon (Gorffennaf 2016) dim ond un achos o ddefnyddio llety gwely a brecwast i berson ifanc dros 18 oed a welwyd. Gweler Atodiad Dau am ragor o awgrymiadau ynglŷn â gweithio'n lleol i roi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast.

**4) Llety a Chymorth o Gomisiynwyd**

Y Gwasanaeth:

Amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc iau a mwy agored i niwed. Ceir mynediad drwy un pwynt mynediad neu 'borth'. Mae llety a chymorth wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn rhai opsiynau, er enghraifft, prosiectau llety â chymorth, tŷ llety â chymorth a Tai yn Gyntaf. Mae allgymorth hyblyg hefyd ar gael i gynorthwyo pobl ifanc lle bynnag y maent yn byw (gan gynnwys yn y cartref teuluol) ac, os bydd ei angen, mae'n parhau pan fyddant yn symud.

Canlyniadau a ddymunir:

Mae pobl ifanc yn cael y sefydlogrwydd a'r ystod o sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus ac maent yn cymryd rhan mewn dysgu a gwaith.

**Beth ddywedodd pobl ifanc:**

- *'Gall fod yn anodd byw gyda phobl ar gamau gwahanol o gymorth'*
- *Cewch eich dal mewn llety â chymorth – byddai'n well pe baech yn parhau i gael budd-daliadau.*
- *'Roeddwn yn gweithio – swydd dda hefyd – ond bu'n rhaid i fi roi'r gorau iddi pan es i mewn i dŷ llety â chymorth – doeddwn i ddim yn gallu ei fforddio'.*
- *I bobl ifanc sydd dros 18 oed ac nad ydynt wedi gadael gofal – allan nhw ddim mynd i'r coleg a chael eu budd-daliadau hefyd – mae'n anodd iawn.*
- *Mae'n braf bod tai a rennir i bobl ifanc symud i mewn iddynt sy'n agos i brosiectau llety â chymorth – gallwch barhau i gael ychydig o gymorth.*
- *'Mewn tai a rennir, fe gewch lai o gymorth a llai o arian – ond mwy o breifatrwydd'*

**Y Gwasanaeth**

Yn y rhan hon o'r llwybr y ceir y buddsoddiad mwyaf o arian cyhoeddus fel arfer, a dyna pam mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu systemau 'porth' er mwyn sicrhau y caiff yr adnoddau eu dyrannu a'u rheoli i gyflawni dyletswyddau statudol a diwallu anghenion pobl ifanc mor effeithiol â phosibl. Mae'r ystod o wasanaethau a gomisiynwyd yn amrywio'n eang, yn dibynnu ar ffactorau megis y cyllid sydd ar gael; arfer lleol wrth gomisiynu a chaffael; faint o gydweithredu a geir rhwng gwaith comisiynu Cefnogi Pobl ac adrannau; ffactorau daearyddol lleol (yn enwedig lleoliadau trefol a gwledig); a'r adnoddau eraill, yn enwedig adeiladau sydd wedi'u dylunio neu y gellir eu haddasu ar gyfer darparu llety â chymorth, sydd ar gael yn lleol.

Fel arfer mae angen ystod o opsiynau gwahanol, wedi'u trefnu'n llwybr llety a chymorth, i ddiwallu anghenion yr amrywiaeth o bobl ifanc mewn unrhyw ardal leol ar gamau gwahanol ar eu taith. Mae modelau mewn llwybrau lleol yn cynnwys:

- Gwasanaethau llety â chymorth yn seiliedig ar adeiladau lle mae staff ar y safle. Maent yn amrywio'n enfawr o ran maint, cyfleusterau a lefel y cymorth a roddir i bobl ifanc. Mae gwasanaethau cymorth ychwanegol / 24 awr yn aml yn cynnwys elfen o ddarpariaeth frys/dros dro.

- Tŷ llety â chymorth, lle mae pobl ifanc yn byw yng nghartrefi aelwydydd 'gwestywr' sydd wedi cael eu fetio a'u hyfforddi. Gall gwasanaethau lloches dros nos (gweler yr enghraifft ar dudalen 40) ddarparu llety brys yng nghartrefi gwirfoddolwyr ac mae cynlluniau yn aml yn gweithredu'r ddau fodel gyda'i gilydd.

- Gall cynlluniau sy'n seiliedig ar adeiladau gwasgaredig gynnig llety dilyniant 'cymorth llai dwys' o gynlluniau mwy o faint sy'n cynnig mwy o gymorth. Yn y model hwn, gall pobl ifanc fyw mewn eiddo hunangynhwysol neu, yn amlach na pheidio, mewn eiddo bach a rennir. Maent yn cael cymorth fel y bo'r angen neu allgymorth nes eu bod yn barod i symud ymlaen i'w tenantiaeth eu hunain (sy'n debygol o fod yn llety a rennir i'r rhan fwyaf). Weithiau defnyddir dull 'craidd a chlwstwr' fel bod cymorth yn hygyrch iawn i bobl ifanc gan y llety â chymorth mwy o faint y maent wedi symud oddi yno.

- Gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen neu gymorth hyblyg nad yw ynghlwm wrth unrhyw eiddo penodol ac a all gefnogi pobl ifanc lle bynnag y maent yn byw, gan gynnwys yn y cartref teuluol, ac sy'n parhau pan fydd eu hamgylchiadau'n newid.

- Gwasanaethau 'Tai yn Gyntaf'[39] i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ac nad yw byw gydag eraill yn opsiwn addas iddynt. Caiff pobl ifanc eu lleoli mewn llety sefydlog heb unrhyw ddisgwyliad y dylent fod yn 'barod' i fyw'n annibynnol, a chânt gymorth dwys i adeiladu o sylfaen lle diogel i fyw ynddo. Ceir sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer y model hwn o ran pobl hŷn ag anghenion lluosog a chymhleth ac mae gwaith ymchwil cynnar yn dangos canlyniadau addawol i rai pobl ifanc. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif y gallai cynnig Tai yn Gyntaf ar raddfa fwy yn y DU arbed tua £200m y flwyddyn ar ôl dwy flynedd mewn perthynas â'r grŵp presennol o oedolion digartref sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mewn gwledydd Ewropeaidd eraill ac UDA honnir bod Tai yn Gyntaf yn arwain at arbedion sylweddol mewn costau. Mae'r rhain wedi cael eu profi'n argyhoeddiadol yn UDA ac maent yn gyson â'r canfyddiadau yn sylfaen dystiolaeth fwy cyfyngedig y DU[40].

Mae dilyniant yn ymwneud â chynllunio symudiadau sy'n seiliedig ar anghenion unigol a pharodrwydd i lwyddo. Dylai fod modd i bobl ifanc symud rhwng opsiynau llety, fel y

---

[39] Mae Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar fynd i'r afael â digartrefedd drwy ddiwallu anghenion tai ar sail ddiamod – ddarparu llety sefydlog i'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd hirdymor cronig ac yna mae gwasanaethau cymorth ychwanegol ar gael yn ôl yr angen. Gweler erthygl ddefnyddiol ar y model hwn yma: http://www.theguardian.com/cities/2014/oct/20/housing-first-the-counterintuitive-method-for-solving-urban-homelessness, a phapur gwyntyllu defnyddiol ar addasu model Housing First i bobl ifanc yma: http://www.feantsaresearch.org/IMG/pdf/think-piece-1-4.pdf

[40] Gweler erthygl Sefydliad Joseph Rowntree ar Tai yn Gyntaf yma: https://www.york.ac.uk/media/chp/documents/2015/Housing%20First%20England%20Report%20February%202015.pdf

gallant, os na fydd symud yn llwyddiannus, roi cynnig ar fath arall o opsiwn mewn theori. Efallai y bydd dilyniant drwy bob opsiwn tuag at annibyniaeth yn briodol i rai, ond i eraill, efallai y bydd eu llwybr yn fwy uniongyrchol tuag at fwy o annibyniaeth, gyda'u drws ffrynt eu hunain a rhywfaint o gymorth i ymgartrefu.

Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod dewis ac nad yw pobl ifanc yn cael eu 'dal' yn y system, mewn darpariaeth cost uwch, cymorth uwch os ydynt yn barod i symud ymlaen, am nad oes digon o gyflenwad tai iddynt symud ymlaen iddo. Mae'r model yn galluogi pobl ifanc y mae angen mwy o gymorth arnynt i symud yn ôl i ddarpariaeth sy'n rhoi mwy o gymorth, os yw'n amlwg eu bod yn wynebu risg uchel y bydd eu tenantiaeth yn eu llety presennol yn methu.

Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn cynnig y gwasanaethau hyn, sef cymdeithasau tai, y Trydydd Sector a darparwyr yn y sector preifat gan mwyaf. Yng Nghymru ceir dau brif lwybr comisiynu a/neu gaffael i awdurdodau lleol ar gyfer opsiynau llety a chymorth i bobl ifanc 16 oed a hŷn:

- eu Rhaglen Cefnogi Pobl leol.
- lleoliadau i bobl ifanc 16 oed a hŷn sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal, a gomisiynir gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant.

Mae rhywfaint o brofiad yng Nghymru o ddwyn rhai elfennau o'r systemau gwahanol hyn ynghyd er mwyn gwella gwerth am arian ac ansawdd a'r dewis o ddarpariaeth mewn ardal leol. Er enghraifft, yn Abertawe, caiff darpariaeth tŷ llety â chymorth ei chyd-gomisiynu ac mae Gwasanaethau Plant yn cyllido darparwr lleol, sef Gwalia, ar y cyd â Cefnogi Pobl, i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Drwy gyd-gomisiynu – cytuno i ariannu o gyllidebau gwahanol neu gyfuno cyllidebau – mantais arall yw bod modd mynd i'r afael yn lleol â'r 'dibyn' i rai pobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n gorfod symud lleoliadau'n 18 oed. I'r rhai nad ydynt yn aros gyda gofalwyr maeth o dan y cynllun 'Pan fydda i'n Barod', gall y broses o adael gofal gael ei chywasgu a'i chyflymu[41] ar adeg pen-blwydd y person ifanc yn 18 oed wrth i'r cyllid ar gyfer y lleoliad ddod i ben. Gall gwaith cynllunio a chomisiynu symlach fynd i'r afael â hyn.

Mae llwybrau caffael yn amrywio rhwng contractau bloc – fel arfer drwy Cefnogi Pobl – a phrynu yn ôl y galw, fel arfer drwy'r Gwasanaethau Plant. Gall prisiau amrywio'n eang ac nid ydynt o reidrwydd yn unol â lefelau neu ansawdd gwasanaethau.

Mae llety â chymorth sy'n seiliedig ar adeiladau yn gymharol gostus am ei fod yn cynnwys pecyn o gymorth a chostau rheoli tai cymharol uchel. Fel arfer, caiff y costau hyn eu talu drwy gyfuniad o gyllid gan awdurdod lleol a thaliadau gwasanaeth a rhenti. Caiff y rhent ei ariannu'n bennaf drwy fudd-dal tai, ac eithrio pobl ifanc sy'n derbyn gofal a phobl ifanc 16/17 oed sy'n gadael gofal. Ond mae'r darlun hwn yn newid – mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi y bydd newidiadau mewn perthynas â chostau tai â chymorth a

[41] Gweler Stein, M. (2004) What Works for Young People Leaving Care? Barkingside: Barnardo's

ffrydiau ariannu budd-dal tai yn y dyfodol, o ran llety 'esempt' a 'penodedig' y tu hwnt i drefniadau Credyd Cynhwysol[42].

Ar y cyfan, i'r rhai sy'n dal yn gymharol ifanc ac mae angen iddynt gael amser i ddysgu sgiliau bywyd er mwyn ymdopi â byw'n annibynnol y mae llety â chymorth yn fwyaf buddiol (e.e. pobl ifanc 16-19 oed) a hefyd i'r rhai sydd ag anghenion cymorth uchel/canolig.

**Solas – Cynllun George Street i bobl ifanc ag anghenion cymhleth a lluosog.**

Cafodd cynllun George Street, a ariennir yn rhannol gan gomisiynwyr Cefnogi Pobl Casnewydd a hefyd drwy awdurdodau lleol eraill yn prynu gwelyau yn ôl y galw, ei ddatblygu'n benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n symud o ofal i annibyniaeth, ond yn enwedig y rhai sydd ag anghenion cymhleth a lluosog sy'n aml yn risg iddynt hwy eu hunain neu eraill. Mae'r cynllun yn cynnwys wyth fflat hunangynhwysol, gyda lefel uchel o staffio a model clir neu 'theori newid' wedi'i wreiddio mewn gwaith gyda phobl ifanc sydd â thrawma cymhleth. Gweler: http://www.solas-cymru.co.uk/wp-content/uploads/2012/05/FINAL-GEORGE-BROCHURE-PDF1.pdf

Cafodd y cynllun ei ddatblygu i gydnabod na fydd cymorth tai i rai pobl ifanc – hyd yn oed ar lefel uchel – yn diwallu'r holl anghenion sydd ganddynt. Mae staff wedi'u hyfforddi i weithio mewn amgylchedd 'a lywir gan seicoleg' gyda phobl ifanc a chânt eu goruchwylio gan arbenigwr mewn ymlyniant. Yn ogystal â gwaith mewn grŵp ceir sesiynau un i un i bobl ifanc a/neu eu teuluoedd/eraill sydd o bwys os yw hynny'n briodol. Y nod yw cefnogi a gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus ac mewn ffordd wedi'i chynllunio, gyda'r pwyslais ar hyfforddiant a/neu gyflogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Charlotte Waite, Cyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd: Charlotte.Waite@solas-cymru.co.uk

**GISDA – gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion cymhleth a lluosog**

Elusen sy'n gweithio gyda phobl ifanc 14-25 oed sy'n ddigartref ac sy'n agored i niwed yw GISDA, a leolir yn y gogledd. Mae'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau gwahanol i bobl ifanc, gan gynnwys rhieni ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys cyfryngu teuluol, gwaith ataliol mewn ysgolion, rhaglenni magu hyder, mentora i rieni ifanc, sefydlu mentrau cymdeithasol i hyrwyddo prosiectau cyflogaeth ieuenctid a thai â chymorth.

Er mwyn cydnabod anghenion cymhleth llawer o bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac sy'n byw mewn llety â chymorth yng Ngwynedd, mae GISDA wedi datblygu model sy'n debyg i PIE (Amgylchedd a lywir gan Seicoleg) a TIC (Gofal a lywir gan Drawma). Yn ei model ceir elfen sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd cael cymorth dwys wrth symud tuag at gyflogaeth.

Ers mabwysiadu model therapiwtig, mae GISDA yn nodi ei fod wedi

[42] Gweler http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN06080#fullreport

- Golygu y gall dderbyn atgyfeiriadau i bobl ifanc sydd wedi cael eu dadfeddiannu o ddarpariaeth arall
- Datblygu nifer o ymatebion sy'n canolbwyntio ar arfer adferol a chyfryngu er mwyn osgoi rhybuddion ffurfiol a dadfeddiannu
- Gallu symud pobl ifanc rhwng eu gwasanaethau eu hunain am gyfnodau 'ailfeddwl' os oes angen
- Lleihau'r risg o gael eu troi allan o'u cartrefi oherwydd ôl-ddyledion drwy wneud mynediad at wi-fi yn amodol ar dalu taliadau gwasanaeth
- Gwella cydberthnasau rhwng staff a phobl ifanc
- Lleihau nifer yr achosion o gael eu troi allan o lety â chymorth yn sylweddol, er gwaethaf derbyn mwy o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth a lluosog. Cafodd dau o bobl ifanc eu troi allan o'u cartrefi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mae fframwaith gwasanaeth a phecyn cymorth hyfforddiant i staff yn cael eu datblygu i ffurfioli arfer cyfredol. Bydd y pecyn cymorth yn sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei lwybr dilyniant ei hun sy'n uchelgeisiol ac a fydd, ochr yn ochr â gwasanaeth cymorth therapiwtig GISDA, yn eu helpu i symud tuag at fyw'n annibynnol. Bydd y cynllun dilyniant yn ystyried ffactorau allanol a all ddylanwadu ar y gallu i symud ymlaen tuag at fyw'n annibynnol, megis y cyfnod pontio rhwng dibynnu ar fudd-daliadau a chyflogaeth.
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Siân Elen Tomos, sian@gisda.co.uk

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi datblygu dewislen o opsiynau llety i bobl ifanc, gan gynnwys cynllun i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth neu luosog. Caiff cynllun tai â chymorth saith gwely ei gynnal gan **Digartref** ac mae wedi'i leoli yn Llangefni. Mae'r prosiect yn derbyn pobl ifanc sydd ag anghenion lefel uwch a fyddai'n cael eu hystyried yn rhy uchel, yn y rhan fwyaf o achosion, i'w lleoli mewn darpariaeth tai â chymorth arall. Mae anghenion pobl ifanc yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a/neu droseddu, problemau iechyd meddwl, gan gynnwys hunan-niwed ac ymddygiadau hynod heriol. Mae'r gwasanaeth wedi'i gomisiynu ers mis Mai 2013, ac o'r cychwyn mae wedi cynnwys panel dyrannu amlasiantaethol sy'n cyfarfod i ystyried atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth ac arfer da yn gyffredinol bob mis neu pan fydd lle gwag. Mae'r asiantaethau a gynrychiolir ar y Grŵp yn cynnwys Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Troseddwyr Ifanc, comisiynwyr Cefnogi Pobl, y Gwasanaeth Prawf a Digartref fel darparwr y gwasanaeth. Bu'r galw am y gwasanaeth hwn lawer yn uwch na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau ac mae'n rhaid i'r broses atgyfeirio fod drwy un o'r asiantaethau statudol a nodir uchod. Fodd bynnag, mae'r adborth gan yr asiantaethau uchod wedi bod yn hynod ganmoliaethus ac mae lefel y canlyniadau wedi'u mesur yn erbyn y Fframwaith Cefnogi Pobl Cenedlaethol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae lefel y lleoedd gwag wedi bod yn isel iawn, ac o ystyried lefel yr anghenion heriol sydd gan rai o'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae'r canlyniadau a gyflawnwyd yn y prosiect hwn yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad darparwr y gwasanaeth a pharodrwydd pob asiantaeth bartner i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl ifanc hyn sy'n heriol ond yn hynod agored i niwed.

Yn ogystal â chynllun saith gwely ceir hefyd glwstwr o ddau eiddo y gellir eu defnyddio fel adnodd symud ymlaen/cymorth llai dwys neu i bobl ifanc sy'n wynebu risg is neu y mae amgylchedd nas rhennir yn fwy addas iddynt neu a all fod yn feichiog.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag: Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn: RArwel.Jones@ynysmon.gov.uk

Ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed yn enwedig, mae dadl gref dros gael y rhan fwyaf ohonynt i aros mewn llety â chymorth nes eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ac wedi dysgu'r sgiliau i

lwyddo. Ar wahân i'r ffaith bod angen y sgiliau bywyd a'r aeddfedrwydd i lwyddo i fyw'n annibynnol, yr oedran cyfreithiol y gellir rhoi tenantiaeth yw 18 oed[43].

Bydd trefniadau lleol o ran am faint o amser y gall person ifanc aros yn y ddarpariaeth hon. Mae comisiynwyr Cefnogi Pobl yn monitro hyd arhosiad mewn darpariaeth tai â chymorth. Yn aml, nodir uchafswm o ddwy flynedd, ond mae angen i lawer o bobl ifanc dreulio llai o amser na hyn yn y ddarpariaeth cost uwch, cymorth uwch, ond nid ydynt yn hollol barod i gael eu tenantiaeth eu hunain.

Nodir yn anecdotaidd, o fewn y system budd-daliadau bresennol, gall y rhenti uchel sydd yn aml yn gysylltiedig â chostau llety â chymorth fod yn rhwystr sylweddol i bobl ifanc ymgymryd â gwaith am dâl isel. Dyma lle mae darpariaeth cymorth 'llai dwys', cost is yn opsiwn da.

**Tai 'cymorth llai dwys' a rennir – dilyniant o gynlluniau llety â chymorth mwy o faint**

Mae **Cyngor Bro Morgannwg** wedi prydlesu eiddo oddi wrth landlordiaid i bobl ifanc symud i mewn iddo fel 'cam i lawr' o gynlluniau tai â chymorth cost uwch. Mae pobl ifanc yn rhannu'r eiddo hwn, sy'n eu galluogi i symud yn haws i mewn i hyfforddiant a chyflogaeth. Cysylltwch ag: Ian Jones, Rheolwr Atebion Tai, Cyngor Bro Morgannwg: ILJones@valeofglamorgan.gov.uk

Mae cynllun Isallt **Clwyd Alun** yn Llandudno yn darparu 12 uned o lety â chymorth a 13 uned o gymorth fel y bo'r angen mewn llety 'symud ymlaen' i bobl ifanc. Mae'r model hwn yn un sy'n rhoi mwy o ddilyniant o bosibl i bobl ifanc symud i ddarpariaeth â llai o gymorth cyn cael eu tenantiaeth eu hunain ac mae'n 'gam i lawr' o lety â chymorth cost uwch a gall leihau'r risg o 'flocio deiliadaeth' yn y llety. Cysylltwch â Scott Robinson, Rheolwr Isallt, Scott.Robinson@clwydalyn.co.uk

Mae arfer ac ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn wynebu'r risg benodol o ddigartrefedd mynych, caledi ariannol a dyled ar ôl adsefydlu. Dangosodd ymchwil gan Goleg y Brenin, Llundain fod pobl ifanc cymaint ddwywaith yn fwy tebygol na grwpiau hŷn i brofi digartrefedd mynych ac yn llawer mwy tebygol o fynd i ddyled yn y pum mlynedd ar ôl cael eu hadsefydlu o lety â chymorth[44]. Mae her wirioneddol i ddarparwyr sicrhau bod pobl ifanc yn barod i symud ymlaen i fathau eraill o lety a'i gynnal.

Er mwyn lleihau'r risg y bydd tenantiaeth yn methu, mae sawl math gwahanol o gyrsiau hyfforddiant cyn tenantiaeth a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol.

Mae rhai wedi'u hanelu'n fwy at y rhai sy'n symud i dai cymdeithasol o bosibl – fel MyPad

[43] Yn gyffredinol, caiff tenantiaeth ei chreu'n gyfreithiol yn awtomatig pan fydd rhywun yn cael yr hawl i feddiannu llety gyda meddiannaeth gyfyngol am gyfnod yn gyfnewid am rent. Fodd bynnag, ni all person ifanc 16/17 oed ddal ystâd gyfreithiol ar ffurf tir ac mae hyn yn golygu na allant ddal tenantiaeth gyfreithiol. Gall y landlord roi tenantiaeth gyfreithiol i ymddiriedolwr i'w dal ar ran y person 16/17 oed nes ei fod neu ei bod yn cyrraedd 18 oed.
[44] Gweler Rebuilding Lives gan Crane et al o Goleg y Brenin, Llundain (2015) http://centrepoint.org.uk/media/1450188/rebuilding_lives_report.pdf

(gweler isod) ond mae'r rhaglen genedlaethol Yn Barod i Rentu a ddatblygwyd gan yr elusen digartrefedd Crisis wedi'i hanelu'n benodol at bobl sengl a fydd yn rhentu oddi wrth landlordiaid preifat.

**Yn Barod i Rentu – Sir Ddinbych**

Mae swyddog yng Nghyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Crisis ac yn cael hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen Yn Barod i Rentu yn lleol. Gweler: http://www.crisis.org.uk/pages/pre-tenancy-training.html

Hefyd, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caffael eiddo cartref gwag ar y cyd â Tai Gogledd Cymru i'w rannu fel tŷ hyfforddi. Y bwriad yw y bydd pobl sengl yn cael eu hyfforddi yn y tŷ a rennir, yna symud i lety â phrydles ac yna – os aiff popeth yn iawn – i ymgymryd â thenantiaeth fyrddaliol sicr ar ôl 12 mis. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â John Sweeney, Rheolwr Gwasanaethau Atebion Tai: John.sweeney@denbighshire.gov.uk

**MyPad – Casnewydd**

Mae nifer o asiantaethau yng Nghasnewydd wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu prosiect gwobredig MyPad sy'n cynnig hyfforddiant cyn tenantiaeth i bobl ifanc o dan 25 oed. Ar ôl ychydig o ymchwil i fethiant tenantiaethau ymhlith pobl ifanc yn y ddinas, mae Charter Housing, Cyngor Dinas Casnewydd, Cefnogi Pobl, Cartrefi Dinas Casnewydd, Linc-Cymru a Melin wedi gweithio gyda'i gilydd ers 2012 i gyflwyno rhaglen, sy'n dysgu pobl ifanc am gyllidebu, agweddau cyfreithiol ar fod yn denant, sgiliau ymarferol ac yna trefnir ymweliad â fflat wag i roi'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn cyd-destun realistig.

Mae ymweliad â Wastesavers, sef prosiect ailgylchu dodrefn lleol, yn rhan o'r cwrs a gall pobl ifanc ystyried gwirfoddoli a all eu helpu i gael cyflogaeth. Mae pobl ifanc yn dysgu drwy ddadl, cwis a ffilm ac unwaith y bydd pobl ifanc wedi'u hailgartrefu, cânt daleb gan Wastesavers i'w helpu i sefydlu eu cartref eu hunain.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: mypad@charterhousing.co.uk

Mewn llety â chymorth, dylai pob person ifanc gael swyddog cymorth a enwyd a chynllun cymorth a dylai fod yn gweithio tuag at nodau y cytunwyd arnynt o ran, er enghraifft, sgiliau bywyd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd, cydberthnasau a lles emosiynol. Mae comisiynwyr yn gynyddol yn ceisio canlyniadau y tu hwnt i gymorth sy'n ymwneud â thai ac yn canolbwyntio ar lwyddiant mewn addysg a hyfforddiant a darparu cymorth ym maes lles emosiynol. Dyna lle y gall cyd-gomisiynu ddylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd (gweler Atodiad 3 am enghraifft o fframwaith canlyniadau).

Mae pobl ifanc yn dweud bod y cymorth fel y bo'r angen a roddir iddynt, fel rheol, yn fwyaf effeithiol pan fydd yn hyblyg ac yn gallu ymateb i amgylchiadau sy'n newid, yn hytrach na bloc cymharol anhyblyg o oriau o gymorth yr wythnos y cytunwyd arnynt.

**Gwasanaethau Pobl sy'n Agored i Niwed Conwy**

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cydnabod, ar adeg pontio i fyd oedolion, fod

bwlch yn y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, sydd yn aml yn amlygu ymddygiadau caotig a heriol. Nid yw eu hanghenion yn ddigon uchel i gael gwasanaethau statudol i oedolion ond maent yn rhy agored i niwed i ymdopi'n annibynnol ac mae angen mwy o gymorth tai arnynt. Mae tîm newydd Pobl sy'n Agored i Niwed Conwy yn anelu at ddarparu gwasanaeth i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn y gymuned yng Nghonwy, gan gynnwys pobl ifanc, a all fethu â chyrraedd yr amrywiol drothwyon ar gyfer gwasanaeth statudol i oedolion.

Mae'r gwasanaeth newydd yng Nghonwy yn seiliedig ar ddysgu a data gan y Panel Oedolion sy'n Agored i Niwed, a sefydlwyd yn 2010. Gyda'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant ar fin cael ei chyflwyno yn 2016, gwerthusodd Conwy ei ddarpariaeth bresennol o wasanaethau ac ad-drefnodd strwythurau timau er mwyn diwallu'r angen y nodwyd nad oedd yn cael ei ddiwallu i bobl a oedd yn agored i niwed, gan gynnwys pobl ifanc. Rhoddwyd cyfle i weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol a oedd wedi mynegi diddordeb i wneud cais i weithio yn y tîm newydd ei sefydlu, sydd wedi mabwysiadu dull creadigol ac amlasiantaethol o gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn y gymuned.

Mae'r Panel Pobl sy'n Agored i Niwed amlasiantaethol yn cyfarfod bob mis ac mae'r canlynol yn bresennol yn rheolaidd:

- Gwasanaeth Anabledd
- Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Tân
- Yr Heddlu
- Tai
- Iechyd yr Amgylchedd
- Camddefnyddio sylweddau.

Trafodir achosion cymhleth o fewn y Panel a datblygir strategaethau i gefnogi unigolion yn y gymuned. Pan nodir risgiau cynhelir cyfarfodydd cynllunio risg ar wahân. Pan fydd unigolion yn cael diagnosis deuol, mae'n bosibl cytuno, o fewn y panel, i gwblhau asesiadau ar y cyd rhwng timau yn hytrach na'u trosglwyddo o hyd o un tîm i'r llall.

Mae'n gweithio'n agos gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc ac mae proses atgyfeirio yn cael ei datblygu fel y gall pobl ifanc gael eu cefnogi gan y tîm priodol mewn modd amserol. Mae gwaith gydag ysgol leol yn anelu at nodi pobl ifanc sydd wedi syrthio drwy'r rhwyd o bosibl yn draddodiadol.

Drwy feithrin dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc, mae partneriaeth â chymdeithas dai a darparwr gofal lleol wedi arwain at ddatblygu gwasanaeth newydd, Kick Start. Ym mis Mehefin 2016 bydd tŷ byw â chymorth newydd i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn agor. Bydd y tŷ yn rhan o ddatblygiad tai anghenion cyffredinol ac wrth i'r bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt symud o'r tŷ i lety sydd ar gael ar y safle lle mae nifer o fflatiau unigol gyda chymorth fel y bo'r angen. Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i bedwar o bobl ifanc symud o ofal maeth a gofal preswyl i ddechrau ar eu taith ddatblygu a fydd yn y pen draw yn arwain at fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.

Mae llwyddiant datblygu'r gwasanaeth i Bobl sy'n Agored i Niwed wedi bod yn bosibl oherwydd ymrwymiad Uwch Reolwyr i ddiwallu anghenion y grŵp cleientiaid hwn a chyflawni'r lefel o gymorth. Nid oes gan y tîm ei hun fawr ddim mynediad at gyllideb gofal ac felly mae aelodau'r tîm yn dibynnu arnynt hwy eu hunain fel adnodd gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol i ddiwallu anghenion y cleientiaid. Maent yn greadigol iawn ac yn creu cysylltiadau cryf â sefydliadau yn y Trydydd Sector er mwyn galluogi eu cleientiaid i gael gafael ar y gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i'r gymuned.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Tesni Hadwin, Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tesni.hadwin@conwy.gov.uk
Neu Cathy Roberts, Rheolwr Adran cathy.roberts@conwy.gov.uk

**Ystyriaethau ac awgrymiadau**

- Mae 'porth' neu un pwynt mynediad i'r holl lety â chymorth yn ddefnyddiol iawn er mwyn sicrhau:

  - Defnydd gwell o adnoddau prin, gan sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
  - Diogelu gwell, gyda gwybodaeth a rennir am risg bosibl, dulliau gweithredu y cytunwyd arnynt i reoli risgiau a gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n cael ei leoli ymhle.
  - Llenwi unedau gwag yn ddi-oed ac yn briodol

- Mae cyd-gomisiynu a chyd-ddarparu gan nifer o gomisiynwyr yn y sector cyhoeddus yn ychwanegu at ganlyniadau cadarnhaol, y tu hwnt i'r swyddogaeth 'cymorth tai' draddodiadol. Nid yw hyn yn golygu arian newydd o reidrwydd ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn, ond ymgais i ailalinio'r gwasanaethau a ddarperir i fynd ati'n rhagweithiol i gyrraedd ac yna gefnogi pobl ifanc sy'n byw mewn llety â chymorth neu sy'n cael cymorth fel y bo'r angen yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ogystal â phobl ifanc eraill. Dyna'r bobl ifanc ledled Cymru sy'n wynebu'r risg uchaf o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd – e.e. diweithdra, problemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol, digartrefedd a bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

- Mae enghreifftiau o gyd-gomisyniu a phroses fwy integredig o ddarparu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ym maes cymorth i bobl ifanc na allant fyw gartref nac mewn gofal yn cynnwys:

  - Gwasanaethau Plant ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed sy'n derbyn gofal fel na fyddant yn cyrraedd 'dibyn' yn 18 oed ac ar gyfer darpariaeth amgen addas yn lle opsiynau remand yn y ddalfa i bobl ifanc 16/17 oed
  - Comisiynu iechyd – yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau
  - Cymorth hyfforddiant a chyflogaeth
  - Gofal Cymdeithasol Oedolion, lle mae pobl ifanc yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer gwasanaethau
  - Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol – e.e. Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y mae angen iddynt sicrhau bod nid yn unig llety ond cymorth priodol i bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa, neu yn lle bod yn y ddalfa. Mae gan lawer o'r bobl ifanc hyn anghenion lluosog.

- Er mwyn lleihau dyblygu a gwella cydweithio a phrosesau casglu data, gallai ffurflen atgyfeirio gyffredin a phroses asesu risg gyffredin rhwng pob darparwr sy'n ymwneud â chymorth tai fod yn ddefnyddiol. Yn gyntaf, mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i bobl ifanc 'adrodd eu hanes' sawl gwaith ond gall hefyd helpu i nodi unrhyw dueddiadau o

ran newidiadau i hyd arhosiad ar gyfer pobl ifanc, canlyniadau ac unrhyw gysylltiadau â chysylltu/digartrefedd mynych, er enghraifft.

- Er mwyn osgoi achosion o symudiadau heb eu cynllunio a dadfeddiannu, gall awdurdodau lleol ddatblygu protocol 'symud wedi'i gynllunio' ar y cyd â'u darparwyr, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw risg o gael eu troi allan o'u cartrefi ei lleihau i'r eithaf drwy achub y blaen ar anawsterau gyda'i gilydd. Mae hyn yn bwysig iawn er mwyn lleihau'r risg y bydd y bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed yn mynd i lety arhosiad byr anaddas – gan gynnwys llety gwely a brecwast a llochesi nos i bob oedran. Os mai dim ond un darparwr sydd mewn ardal leol, a bod risg y byddai dadfeddiannu yn golygu nad oes unrhyw opsiynau eraill o gwbl, gellid ei amlinellu yn eu contract nad yw pobl ifanc yn cael eu gwahardd o'r ddarpariaeth gyfan, dim ond cynlluniau unigol a hynny ond drwy gytundeb â'r comisiynwyr. Mae enghreifftiau o hyn y gellir eu defnyddio e.e. Depaul UK ym mwrdeistref Greenwich, Llundain.

- Mae'n ddefnyddiol iawn i'r holl bartïon gynnal cyfarfodydd 'panel' amlasiantaethol rheolaidd er mwyn trafod pobl ifanc sy'n ymuno â'u llwybr lleol ac sy'n wynebu risg o'i adael. Mae hyn fel arfer yn cynnwys pobl ifanc ar adeg gadael gofal a throseddwyr ifanc sydd ar fin cael eu rhyddhau o'r ddalfa, yn ogystal â phobl ifanc eraill. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol o ran cytuno pwy sy'n barod i symud ymlaen.

- Mae rhai awdurdodau lleol wedi cael bod paneli 'symud ymlaen' yn ddefnyddiol i asesu pa bobl ifanc sy'n barod i symud ymlaen a nodi'r opsiynau mwyaf addas. Gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â chynllun mynediad rhentu preifat lleol a/neu asiantaeth gosod tai cymdeithasol, fel y gall pobl ifanc gael mynediad at adneuon neu fondiau rhent.

- Er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer rhannu ag eraill yn ogystal â'u hopsiwn symud ymlaen, gallai sefydliadau sy'n ddarparwyr ystyried addasu eu hyfforddiant cyn tenantiaeth. Ceir dysgu defnyddiol o werthusiad a phecyn cymorth 'Sharing Solutions' Crisis[45].

**Paneli symud ymlaen:**

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu paneli 'symud ymlaen' erbyn hyn, gan gynnwys **Bro Morgannwg**. Mae cynrychiolwyr o'r adran Dai, Gwasanaethau Plant a darparwyr lleol, Llamau a Gwalia yn cyfarfod bob mis i drafod achosion o bobl ifanc a gynigir fel rhai sy'n barod i symud i fod yn annibynnol. Ni ragdybir mwyach mai tai cymdeithasol fydd cartref pobl ifanc yn y pen draw a thrwy eiddo gosod CanDo (Cymdeithas Dai Cadwyn) mae mwy o fynediad at y sector rhentu preifat.

Yng **Nghaerffili**, os bydd y Panel Symud Ymlaen yn penderfynu nad yw person ifanc yn hollol barod i gael ei denantiaeth ei hun, mae Rheolwr Llety Dros Dro yr awdurdod lleol wedi dod o hyd i ateb creadigol. Mae rhai pobl ifanc sydd bron â bod yn barod yn cael cynnig cam 'dilyniant' arall – treial byrdymor o fyw'n annibynnol. Maent yn ceisio

[45] Gweler http://www.crisis.org.uk/pages/sharing-solutions-programme.html

byw ar eu pennau eu hunain mewn llety hunangynhwysol dros dro er mwyn gweld sut maent yn ymdopi. Os a phryd y cytunir â'r Rheolwr Llety Dros Dro eu bod yn barod, maent yn mynd yn ôl at y Panel gyda thystiolaeth o ba mor dda y maent wedi ymdopi.

## 5) Amrywiaeth o Opsiynau Tai

<u>Y gwasanaeth:</u>

Amrywiaeth o opsiynau tai diogel, gweddus a fforddiadwy, tai a rennir a rhai tai hunangynhwysol, yn y sector preifat a'r sector tai cymdeithasol. Lle nad yw'r farchnad yn darparu, caiff yr hyn a gynigir ei lunio drwy strategaethau a phartneriaethau tai lleol er mwyn creu opsiynau i bobl ifanc sy'n dechrau ennill bywoliaeth ar incwm isel. Gall hyn gynnwys dulliau creadigol megis partneriaethau â darparwyr dysgu, cyflogwyr a gwasanaethau cyflogaeth er mwyn cysylltu llety a ddarperir â chyfleoedd i ddysgu a gweithio.. Ceir cysylltiadau â'r cymorth hyblyg lle y bo'r angen/allgymorth a ddarperir ar Gam 4 rhag ofn bod ei angen ar bobl ifanc.

<u>Y canlyniadau:</u>

Mae pobl ifanc yn economaidd weithgar ac yn byw mewn cartrefi addas y gallant eu fforddio – gallant adeiladu ar gyfer eu dyfodol.

**Beth ddywedodd pobl ifanc**

- *Mae angen i bobl ifanc gyfarfod â phobl eraill y byddant yn rhannu gyda hwy*
- *Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod rhannu yn gweithio*
- *'Nid yw gwneud ffrind, ond yna rannu â ffrind yn mynd i weithio bob amser'*
- *Efallai y byddai cymorth cyfryngu yn beth da – felly os bydd pethau'n dechrau mynd o chwith mae mwy o gymorth i ddatrys y broblem*
- *Mae angen i chi weithio gyda landlordiaid er mwyn iddynt ddeall mwy am yr hyn a all wneud i rannu weithio*
- *Gallai pobl ifanc fod mewn cylch o ddigartrefedd pan ddaw'r newidiadau i' fudd-dal tai i bobl ifanc 18-21 oed i rym yn 2017*

**Disgrifiad**

Nodwedd sylfaenol yr adran hon yw bod pobl ifanc mewn llety diogel, gweddus a fforddiadwy. I'r mwyafrif mae hynny'n golygu aros yn y cartref teuluol a gohirio symud allan, ond rydym yn ystyried yma y bobl ifanc sy'n annhebygol o gael yr opsiwn hwnnw.

Mae llawer o deithiau a llwybrau tuag at lety mwy annibynnol. Mae llawer o bobl ifanc yn symud ymlaen yn annibynnol, gyda chymorth eu teulu, heb fyth fod angen iddynt gael cyngor ar dai/gwasanaethau opsiynau na byw mewn llety â chymorth. Ond gallai rhai pobl ifanc sy'n gofyn am gymorth gan Wasanaeth Opsiynau Tai gael cymorth i ddod o hyd i lety – bydd y math o lety sydd ar gael yn amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r cyflenwad lleol. Bydd pobl ifanc eraill sy'n byw mewn llety arbenigol â chymorth neu lety 'dilyniant' yn ystyried hyn fel eu hopsiwn 'symud ymlaen' terfynol ac efallai eu bod wedi gweithio tuag at 'symud ymlaen' ers misoedd neu flynyddoedd.

Y materion cysylltiedig pwysicaf i bob person ifanc yw cyflenwad lleol a fforddiadwyedd – a all person ifanc ddod o hyd i lety gweddus a diogel ac a allant ymdopi â'u hymrwymiadau ariannol yn yr hirdymor yn eu llety?

Wrth i farchnadoedd tai grebachu ac wrth i fforddiadwyedd fynd yn fwy o her mae angen meddwl yn greadigol ac yn rhagweithiol ynglŷn â sut i greu opsiynau tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc sy'n dechrau ennill eu bywiolaeth ar incwm isel.

Mae perchen-ddeiliadaeth a chydberchenogaeth ymhell yn y dyfodol – os o gwbl – i'r rhan fwyaf o bobl ifanc, a rhentu yn y sector preifat neu'r sector cymdeithasol yw'r opsiwn arferol. Yn wyneb y diwygiadau lles arfaethedig a fydd yn effeithio ar bobl ifanc[46], bydd angen i awdurdodau lleol a phartneriaethau barhau i weithio'n galed i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y farchnad rent yn fwy hygyrch i bobl ifanc, er enghraifft drwy'r canlynol:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn barod i gael tenantiaeth – drwy hyfforddiant cyn tenantiaeth wedi'i achredu ar reoli arian a sgiliau bywyd eraill (gweler enghreifftiau uchod) ac yn hollbwysig, cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth
- Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi cynlluniau i gynyddu'r cyflenwad o lety rhentu preifat a rennir sydd ar gael i bobl ifanc
- Cyflwyno opsiynau rhannu ym maes tai cymdeithasol, gan ddefnyddio'r stoc bresennol a/neu brydlesu
- Hyrwyddo tŷ llety fel opsiwn

Un dull sy'n cael ei ddatblygu yw llety a ddatblygir yn arbennig i bobl ifanc sy'n dysgu neu'n gweithio, yn aml mewn partneriaeth rhwng landlordiaid a darparwyr dysgu a/neu gyflogwyr. Gall hyn ddarparu tai cost isel a rennir i bobl ifanc fel cam ymlaen wrth iddynt ddechrau ar eu taith tuag at annibyniaeth. Gallai nodweddion y math hwn o ddarpariaeth gynnwys:

- Fforddiadwyedd – mae angen i'r rhenti fod yn isel, wedi'u gosod ar lefel y Lwfans Tai Lleol neu lefel sy'n wir fforddiadwy i bobl ifanc. Mae dadansoddiad lleol o lefelau incwm pobl ifanc fel rhan o'r broses o ddatblygu unrhyw gynllun yn hanfodol yn hyn o beth.
- Ychydig o gymorth rheoli tai ychwanegol a chymorth "ysgafn" o bosibl drwy denant sy'n 'gymar' neu denant 'arweiniol' neu goleg neu ddarparwr hyfforddiant. Mae Commonweal Housing[47] wedi ariannu dwy asiantaeth yn Llundain i gynnal cynlluniau Landlordiaid sy'n Gymheiriaid. Mae hwn yn fodel y gellid ei efelychu mewn unrhyw le ac mae'n werth ei ystyried fel opsiwn cost isel[48].
- Cysylltiadau cadarn â cholegau AB, rhaglenni prentisiaeth, darparwyr hyfforddiant a'r Ganolfan Byd Gwaith a thra bônt ar gael, unrhyw raglenni a ariennir gan Ewrop ym maes cyflogaeth ieuenctid
- Gallai llwybrau atgyfeirio fod yn gwbl gysylltiedig â'r partneriaethau hyn.

---

[46] Rhoi terfyn ar yr hawl awtomatig i bobl 18-21 oed gael costau tai yn 2017 a chapio rhenti cymdeithasol i gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn 2018, gan gynnwys y Gyfradd Llety a Rennir i bobl o dan 35 oed

- [47] Gweler yr adroddiad ar y rhaglen yma: https://www.commonwealhousing.org.uk/wordpress/wp-content/uploads/2014/02/FINAL-PEER-LANDLORD-SUMMARY-REPORT-OF-KEY-POINTS-AND-LEARNING-JUNE-2016-8-6-16.pdf

[48] Gweler: https://www.commonwealhousing.org.uk/wordpress/wp-content/uploads/2014/02/FINAL-PEER-LANDLORD-SUMMARY-REPORT-OF-KEY-POINTS-AND-LEARNING-JUNE-2016-8-6-16.pdf

- Buddsoddi yng ngwead cymdeithasol y cynllun, er enghraifft, mewn mentoriaid a modelau rôl cadarnhaol neu 'denantiaid arweiniol' (gweler uchod), ardal gymdeithasol, pwyllgor preswylwyr â chyllideb fach.
- Ethos o astudio, gweithio ac uchelgais, wedi'i ategu o bosibl gan ddosbarthiadau nos a mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu ar y safle.
- Cyfleusterau TG.
- Helpu i ddod o hyd i lety mwy sefydlog a symud iddo.

Yn lleol, gallai mathau gwahanol o lety fod ar gael, yn dibynnu ar gyflenwad ac argaeledd, gan gynnwys clystyrau o unedau bach a rennir, blociau mwy o lety neu dai a rennir.

**ENGHRAIFFT Y Cynllun 'Byw a Gweithio'**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai St Basils a Sandwell a Gorllewin Birmingham wedi datblygu cynllun arloesol i gynnig prentisiaethau â thâl a llety cyfagos i bobl ifanc ddigartref, gan wneud defnydd da o hen lety i nyrsys sydd bellach yn wag ac sydd wedi cael ei adnewyddu.

Ariannwyd y cynllun newydd arloesol hwn drwy grant gan Raglen Grant Cymunedol Cartrefi Gwag (EHCGP) y Llywodraeth yn Lloegr i adnewyddu eiddo gwag ar safle'r ysbyty. Mae 27 o bobl ifanc wedi symud i mewn i'r cynllun ac maent yn rhannu'r llety ond y gobaith yw y bydd y bartneriaeth yn parhau a thrwy ddysgu o'r cynllun cyntaf hwn y caiff ei efelychu mewn mannau eraill.

Mae'r bobl ifanc yn byw heb fudd-daliadau gan fod y rhentu wedi'u gostwng i lefel fforddiadwy i brentisiaid ifanc. Gweler: http://www.stbasils.org.uk/how-we-help/our-services/live-and-work/

Nid yw **rhannu** tai cymdeithasol ymhlith pobl ifanc wedi'i ddatblygu'n dda yn y rhan fwyaf o'r DU ac ar adeg ysgrifennu mae diwygiadau lles arfaethedig yn golygu bod datblygu cynlluniau yn her i landlordiaid. Mae cynlluniau rhannu yn tueddu i ganolbwyntio ar 'symud ymlaen' o lety â chymorth neu dai i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r rhain yn bwysig ond yr un mor hanfodol yw mwy o opsiynau rhannu 'anghenion cyffredinol' i bobl ifanc, sydd ond am gael tai gweddus cost isel a rennir ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol, yn hytrach na thai â chymorth cost uwch. O ran rhannu, mae adroddiad ymchwil defnyddiol iawn sy'n cynnwys argymhellion ar gael ar wefan Cartrefi Cymunedol Cymru[49].

Ar adeg ysgrifennu mae nifer o enghreifftiau ar raddfa fach yng Nghymru y gellir cyfeirio atynt, sydd â'r nod o ddarparu tai ar gyfer y rhai sy'n symud ymlaen o gynlluniau llety â chymorth mwy o faint.

Mae ble mae pobl ifanc yn byw, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a pha fath o amwynderau lleol sydd ar gael (e.e. trafnidiaeth gyhoeddus, siopau, gwasanaethau iechyd

[49] Gweler: http://chcymru.org.uk/cy/view-news/chc-and-wlga-viable-housing-model-research

sylfaenol), bod yn agos i rwydweithiau cymorth yn ffactorau pwysig, gan y bydd y rhain yn effeithio ar unrhyw asesiad o'r gallu i fod yn economaidd weithgar a fforddiadwyedd yn gyffredinol.

**Hafod – treialu modelau a rennir**

**Llety a Rennir – Cymdeithas Tai Hafod**
Mae Cymdeithas Tai Hafod wedi treialu sawl model gwahanol o lety a rennir ac mae'n dysgu oddi wrth bob un ohonynt. Fel pob landlord cymdeithasol sydd wedi cyflwyno rhannu fel opsiwn, mae dysgu o'r hyn sy'n gweithio – a'r hyn nad yw'n gweithio – yn hollbwysig.
Mae partneriaeth a dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau rhwng partneriaid yn bwynt dysgu allweddol drwy'r holl enghreifftiau isod.

**Tai cymdeithasol a rennir:**
Arweiniodd cynllun peilot bach o dai cymdeithasol a rennir mewn un awdurdod lleol at nifer o golledion i Hafod drwy'r canlynol:
- Colli rhent drwy ôl-ddyledion rhent
- Colli rhent drwy leoedd gwag
- Amser rheoli ychwanegol
- Gwaith ychwanegol ar eiddo gwag
- Costau'r Dreth Gyngor

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn betrusgar cyn cynnal cynllun peilot arall ond mae mewn trafodaethau ag awdurdodau lleol eraill. Amlygodd y cynllun peilot nifer o faterion:
- Nid oedd y cynllun peilot Llety a Rennir yn ariannol ddichonadwy i Hafod
- Mae angen i awdurdodau lleol lacio ar y meini prawf o ran anghenion tai wrth ystyried enwebiadau ar gyfer llety a rennir, dylai cyfaddasrwydd darpar denantiaid gael eu cydbwyso ag anghenion tai.
- Mae cael crynodiad o bobl sengl ag anghenion uchel mewn llety a rennir yn achosi risgiau mwy
- Mae angen i awdurdodau lleol ystyried datblygu llety a rennir i ailgartrefu pob math o bobl sengl o dan 35 oed ac nid dim ond y rhai sy'n ddigartref / ag anghenion mawr ac ati.
- Mae angen i awdurdodau lleol ystyried sut y gallant helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli llety a rennir i landlordiaid
- Dylai awdurdodau lleol ystyried darparu pecynnau cefnogi pobl i bobl sengl o dan 35 oed mewn llety a rennir

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Michele Homes, e-bost[michelle.holmes@hafod.org.uk](mailto:michelle.holmes@hafod.org.uk)**

**Prydlesu llety rhentu preifat:** mae cynllun peilot mewn un awdurdod yn cynnig llety a rennir sefydlog mewn tai rhentu preifat, a reolir gan Hafod.
Unwaith eto, dysgwyd gwersi drwy'r cynllun peilot ond bwriedir i'r cynllun barhau. Y cyngor sy'n deillio o'r cynllun hwn yw mai tri neu bedwar ar y mwyaf yw'r nifer orau ar gyfer rhannu ond caiff hyn ei arwain gan y landlord a'r enillion y mae'n disgwyl eu cael am osod ei eiddo drwy'r cynllun.
Ar y cychwyn bu gormod o bartneriaid yn rhan o'r cynllun a barodd i'r ffiniau fod yn annelwig o ran pwy oedd yn gyfrifol am elfennau gwahanol. Mae'r cynllun wedi'i ail-lansio yn cynnwys rhai addasiadau, gan gynnwys teledu cylch cyfyng.
Mae'r model hwn wedi cael ei gymorthdalu gan yr awdurdod lleol er mwyn denu landlordiaid preifat a gwrthbwyso unrhyw golledion rheoli a thalwyd ffi reoli i Hafod. Heb gymhorthdal, mae'n annhebygol y byddai'r fenter hon yn llwyddo.
Mae Hafod hefyd yn prydlesu eiddo pum ystafell wely mewn un ardal oddi wrth landlord preifat, er mwyn darparu llety dros dro i bobl ddigartref sengl o bob oedran. Er bod y model yn wahanol oherwydd y cymhorthdal llety dros dro, mae gwersi defnyddiol i'w dysgu oddi wrtho o ran rheoli dwys mewn perthynas â thŷ a rennir mwy o faint.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Diana Turner, e-bost [diana.turner@hafod.org.uk](mailto:diana.turner@hafod.org.uk)**

**Ystyriaethau ac awgrymiadau**

- Mae landlordiaid – rhai cymdeithasol a phreifat – yn pryderu'n gynyddol am allu pobl ifanc i fforddio llety. Cynhelir gwiriadau fforddiadwyedd ar ddarpar denantiaid weithiau ac efallai na fydd rhai pobl ifanc yn cael cynnig tenantiaeth oherwydd eu hincwm isel a'u gallu i dalu'r rhent yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hyfforddiant cyn tenantiaeth o safon uchel ar reoli ariannol yn helpu pobl ifanc fel tenantiaid y dyfodol a gallai fod yn achrededig. Mae llawer o ddarparwyr llety â chymorth yn cynnig rhaglenni ond gall y rhain fod yn rhai dewisol. Fodd bynnag, mae rhai partneriaethau lleol, yn aml drwy baneli symud ymlaen, yn cynnig llety symud ymlaen yn amodol ar gwblhau cynllun hyfforddiant cyn tenantiaeth.

- Nodir bod dealltwriaeth rhai gweithwyr proffesiynol o'r opsiynau y tu hwnt i denantiaethau mewn tai cymdeithasol hunangynhwysol yn gyfyngedig, sydd, yn ei dro, yn creu disgwyliad ymhlith pobl ifanc mai tai cymdeithasol yw'r unig opsiwn neu'r opsiwn gorau. Mae hyn yn golygu nad yw opsiynau eraill, gan gynnwys yr opsiwn o rannu llety, yn cael eu trafod fel mater o drefn mewn llawer o ardaloedd, ac efallai na fydd materion fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat yn rhan o unrhyw waith paratoi.

- Mae llety sefydlog yn awgrymu annibyniaeth a'r gallu i ymdopi heb unrhyw gymorth neu fawr ddim cymorth. Yn aml, mae angen cyfnod byr o gymorth fel y bo'r angen ar rai pobl ifanc i'w helpu i ymgartrefu, ac yn ddelfrydol o ran parhad, dylai eu gweithiwr allweddol o'r llety blaenorol ddarparu hyn.

- Cydnabyddir y bydd angen cymorth ar rai pobl ifanc, er enghraifft, pobl anabl neu bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus, drwy'r amser, ond i'r mwyafrif llethol o bobl ifanc, eu huchelgais yw symud i mewn i'w llety sefydlog eu hunain, hyd yn oed gyda lefel uwch o gymorth fel y bo'r angen. Byddai model Tai yn Gyntaf i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth a lluosog sy'n cynnig cymorth sy'n tapro yn addas yma.

- Gallai rhannu mewn tai cymdeithasol gael ei ddatblygu gan gymdeithasau tai a'r awdurdod lleol fel opsiwn i rai pobl ifanc. Gall helpu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd a'r defnydd gwell o stoc. Amlinellir rhai enghreifftiau o rannu llety yn y tymor hwy uchod fel enghreifftiau. At hynny, gweler adroddiad Crisi, 'Spare to Share' ar dai cymdeithasol a rennir yma:
  http://www.crisis.org.uk/pages/spare-to-share.html
  a hefyd yr adroddiad newydd a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru yma: http://chcymru.org.uk/cy/view-news/chc-and-wlga-viable-housing-model-research

- Bydd angen i bobl ifanc brynu dodrefn a nwyddau gwyn er mwyn ymgartrefu mewn cartref newydd. Gall ceisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol[50] gael eu gwneud ar ran y rhai sy'n gadael gofal ac ar gyfer llety â chymorth. Mae ffynonellau ychwanegol o gyllid yn brin ac oni fydd darparwyr yn helpu pobl ifanc i gynilo a dod o hyd i gynlluniau dodrefn lleol a grantiau elusennol, mae'n debygol y bydd y profiad o sefydlu cartref yn anodd iawn. Gall diffyg dodrefn a chyfarpar sylfaenol i'r cartref ei gwneud yn fwy tebygol y bydd tenantiaeth yn methu.

- Mae Crisis wedi datblygu nifer o adnoddau defnyddiol er mwyn helpu i sefydlu cynlluniau rhannu yn y sector rhentu preifat. Cyhoeddodd rhaglen 'Sharing Solutions' Crisis werthusiad a phecyn cymorth ym mis Mawrth 2015. Mae hon yn seiliedig ar wyth cynllun rhannu yn y sector rhentu preifat a dreialwyd yn 2014/15. Mae'r ddau gyhoeddiad yn cynnig cipolwg amhrisiadwy ar yr hyn sy'n gwneud i rannu weithio – neu beidio. Mae modelau o rannu yn cynnwys tenantiaid sy'n gymheiriaid/tenantiaid arweiniol a thai llety. Maent ar gael yma:
http://www.crisis.org.uk/pages/sharing-solutions-good-practice.html

- O ystyried pa mor anodd ydyw i bobl ifanc o dan 25 oed ar incwm isel gael mynediad at y sector rhentu preifat, gellid cynnig rhywbeth mwy arbenigol i gael landlordiaid preifat i dderbyn pobl ifanc sy'n rhoi cymhellion ychwanegol i landlordiaid o ran pobl ifanc fel tenantiaid. Ceir dwy ddogfen pecyn cymorth defnyddiol i'r sector rhentu preifat a ddatblygwyd gan Crisis: http://www.crisis.org.uk/pages/prs-toolkit.html . Mae pecyn cymorth 2012 a oedd yn anelu at sicrhau mynediad at y sector rhentu preifat i bobl ifanc yn dal i fod yn ddefnyddiol ond cafwyd newidiadau'n fwy diweddar mewn perthynas â diwygiadau lles y dylid eu hystyried wrth ddarllen hwn:
http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/PRS%20Youth%20Homelessness%20Toolkit.pdf

- Mae Crisis hefyd wedi datblygu pecyn cymorth am ddim ynglŷn â sut y dylid cyflwyno sesiwn wybodaeth i staff sy'n helpu cleientiaid i symud ymlaen i lety yn y sector rhentu preifat. Mae'n cynnwys templedi defnyddiol sy'n amrywio o agendâu, cyflwyniadau, ffurflenni adborth a chwis chwalu mythau, ynghyd â throsolwg defnyddiol o'r sector rhentu preifat. Gall y pecyn cymorth hwn gael ei ddefnyddio gan unrhyw un sy'n ystyried trefnu a chyflwyno gwybodaeth i staff cymorth sydd am wella eu gwybodaeth am y sector rhentu preifat a'u hyder ynddo.

[50] Gweler: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?lang=cy

## Atodiad Un

Daw'r tabl isod o waith ymchwil: *'Pathways into multiple exclusion homelessness in seven UK cities*' gan Suzanne Fitzpatrick; Glen Bramley a Sarah Johnsen. Cyhoeddwyd 2013, Urban Studies.

**Tabl 4. Digartrefedd Allgáu Lluosog – profiadau perthnasol ac oedran canolrifol yr achos cyntaf – 452 o bobl o saith dinas yn y DU**

| Profiad | % y mae yn gymwys iddynt | Oedran canolrifol |
|---|---|---|
| 1. Wedi camddefnyddio toddyddion, nwy neu lud | 23 | 15 |
| 2. Wedi gadael gofal awdurdod lleol | 16 | 17 |
| 3. Wedi cael eu taflu allan gan rieni/gofalwyr | 36 | 17 |
| 4. Wedi cael rhyw neu wedi ymgymryd â gweithred rywiol yn gyfnewid am arian, cyffuriau, ac ati | 10 | 17 |
| 5. Wedi yfed ar y stryd | 53 | 18 |
| 6. Wedi defnyddio cyffuriau caled | 44 | 19 |
| 7. Wedi mynd drwy gyfnod mewn bywyd pan oeddent yn yfed chwe diod alcohol neu fwy y dydd | 63 | 20 |
| 8. Wedi aros gyda ffrindiau neu berthnasau am nad oedd ganddynt eu cartref eu hunain | 77 | 20 |
| 9. Wedi dwyn o siop am fod angen pethau fel bwyd, cyffuriau, alcohol neu arian am rywle i aros | 38 | 20 |
| 10. Wedi dioddef trosedd dreisgar (gan gynnwys trais domestig) | 43 | 20 |
| 11. Wedi bod yn y carchar | 46 | 21 |
| 12. Wedi mynd drwy gyfnod mewn bywyd pan oeddent yn orbryderus iawn neu'n isel eu hysbryd | 79 | 22 |
| 13. Wedi chwistrellu cyffuriau | 27 | 22 |
| 14. Wedi cysgu ar y stryd | 77 | 26 |
| 15. Wedi cael eu derby i'r ysbyty oherwydd problem iechyd meddwl | 29 | 26 |
| 16. Wedi colli eu swydd | 23 | 26 |
| 17. Wedi gwneud cais i'r cyngor am eu bod yn ddigartref | 72 | 27 |
| 18. Wedi aros mewn hostel, foyer, lloches, lloches nos neu westy gwely a brecwast | 84 | 28 |
| 19. Wedi cardota (hynny yw, wedi gofyn i bobl sy'n mynd heibio ar y stryd | 32 | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| neu fan cyhoeddus arall am arian) | | |
| 20. Wedi cael eu dadfeddiannu o eiddo rhent | 25 | 28 |
| 21. Wedi bod yn fethdalwr | 6 | 29 |
| 22. Wedi ysgaru neu wedi gwahanu | 44 | 32 |
| 23. Cartref wedi'i hailfeddiannu | 6 | 34 |
| 24. Partner hirdymor wedi marw | 10 | 43 |

## Atodiad Dau:

**Cynllunio i roi terfyn ar lety gwely a brecwast – rhai awgrymiadau:**

Noder bod hyn wedi'i ddarparu gyda diolch i Gyngor Sir a Dinas Abertawe – daw ychydig o'r cynnwys ar gyfer yr awgrymiadau isod o'i waith peilot i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast.

1. **Lluniwch ddatganiad syml o'r bwriad corfforaethol i roi terfyn ar y defnydd o lety Gwely a Brecwast i bobl ifanc 16/17 a 18-21 oed**

    - Datganiad byr yn amlinellu'r bwriad corfforaethol o ran lleihau/rhoi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast.

    - Dylid sicrhau bod Aelodau Etholedig ac uwch swyddogion yn ymwybodol o hyn ac yn ddelfrydol eu bod yn chwarae rhan uniongyrchol yn hyn.

2. **Ystyriwch a ydych am lunio unrhyw gylch gorchwyl i unrhyw grŵp a fydd yn gorchwylio'ch cynllun i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast**

3. **Ble rydych arni nawr? Luniwch ddatganiad cryno o'r sefyllfa:**

    Er enghraifft:

- Pam rydych yn defnyddio llety gwely a brecwast, o dan ba amgylchiadau?
- Pa grwpiau o bobl ifanc?
- Faint o bobl ifanc yn 2015/16 a gafodd eu lleoli? Gan ba ran o'r awdurdod lleol?
- Faint ohonynt a gafodd eu lleoli yn eich ardal awdurdod lleol, faint y tu allan i'ch ardal awdurdod lleol?
- Sawl noson y flwyddyn?
- Cost bresennol defnyddio llety gwely a brecwast ac unrhyw wybodaeth arall ynglŷn â chostau (e.e. os defnyddir cyllid i brynu cymorth ychwanegol i bobl ifanc tra byddant mewn llety gwely a brecwast).
- Ble mae pobl ifanc yn mynd i fyw ar ôl bod mewn llety gwely a brecwast? Mapiwch rai o'u teithiau o lety gwely a brecwast – gall fod yn ddadlennol iawn o ran eich holl lwybr llety a chomisiynu.

4. **Crynodeb o'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i roi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast**

    Er enghraifft:

- Trefniadau adrodd newydd i uwch reolwyr a/neu Aelodau Etholedig.
- Gweithdrefnau awdurdodi newydd – er enghraifft, uwch swyddog yn awdurdodi ac yn cyfyngu'r awdurdod i leoli mewn llety gwely a brecwast am 48 awr ar y tro.
- Gwell gwaith cynllunio a chynllunio wrth gefn – rhagweld y rhai hynny sy'n wynebu risg uchel cyn eu bod mewn argyfwng, gan gynnwys pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

- Defnyddio cyfarfod 'Panel' amlasiantaethol ar gyfer rhai achosion er mwyn rheoli risgiau a chynllunio symudiadau.
- Dylid cynnig cymorth ychwanegol er mwyn osgoi defnydd e.e. drwy Teuluoedd yn Gyntaf/cymorth i deuluoedd/cymorth ieuenctid wedi'i dargedu/darparwyr cymorth fel y bo'r angen.
- Amrywio contractau â darparwyr llety â chymorth er mwyn cynyddu nifer y gwelyau arhosiad byr/mynediad uniongyrchol – newid y dybiaeth ynglŷn â'r defnydd a wneir ohono er mwyn sicrhau nad yw darparwyr o dan bwysau i lenwi lleoedd gwag – mae angen i welyau brys fod yn WAG er mwyn bod ar gael felly mae angen gwelyau gwag am fwy o amser – bydd hyn yn costio mwy na gwelyau eraill lle y gellir hawlio budd-dal tai.
- Amrywio contractau â darparwyr llety â chymorth er mwyn eu galluogi i dderbyn pobl ifanc y tu allan i oriau swyddfa.
- Amrywio contractau er mwyn ailganolbwyntio cymorth ar y rhai sy'n wynebu risg uchel o gael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast am eu bod wedi cael eu troi allan o lety â chymorth.
- Lleihau'r risgiau y bydd lleoliad plant 16/17 oed sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac sy'n byw o dan drefniadau 'Pan fydda i'n Barod' yn methu – a oes gennych wasanaethau cyfryngu hygyrch ac effeithiol ar gael i'r grŵp hwn?
- Lleihau'r risgiau o achosion o droi allan o ddarpariaeth Cefnogi Pobl arall drwy gynlluniau ar y cyd i gynllunio symudiadau lle y bo angen cyn troi allan, neu ychwanegu cymorth i bobl ifanc.
- A fyddai datblygu lloches dros nos achrededig yn lleol yn ddarpariaeth ychwanegol ddefnyddiol – a ellid gwneud hynny ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn creu cynllun mwy o faint ond mwy cost-effeithiol?
- Treialu rhai camau gweithredu a pharatoi achos busnes dros brif ffrydio newidiadau llwyddiannus.

## 5. Gweithgarwch cofnodi a chasglu tystiolaeth:

**Noder bod Llywodraeth Cymru bellach wedi'i gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gofnodi eu defnydd o lety gwely a brecwast ymhlith pobl ifanc bob chwarter – mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Plant a Thai.**

Sut y byddwch yn rhoi gwybod am effaith unrhyw newidiadau, i bwy a pha mor aml? Sut y caiff Aelodau Etholedig ac uwch swyddogion eu hysbysu?

Beth yw eich mesurau o lwyddiant:
Byrdymor (e.e. 6 mis)
Tymor canolig (e.e. 12 mis)
Tymor hwy (e.e. 12 – 24 mis)

## 6. Paratoi'r achos:

Nid yw dadansoddiad cost a budd yn rhywbeth hynod dechnegol ond yn ffordd o geisio deall costau mewn termau cyllidol/arian parod i'r sector cyhoeddus ond hefyd gostau gwerth cyhoeddus (costau cymdeithasol ac economaidd), a all gynnwys costau cyllidol ond hefyd gostau canlyniadau megis cymryd rhan mewn hyfforddiant, gwell iechyd, gostwng troseddu neu lai o ddigartrefedd.

Os ydych am baratoi achos busnes cost a budd syml/sylfaenol dros roi terfyn ar y defnydd o lety gwely a brecwast, y lle gorau i gael gwybodaeth yw yma: http://neweconomymanchester.com/media/1443/2765-pu1617-cba-guidance-020414-1312-final.pdf

A gweler yma am gronfa ddata costau uned – ond efallai y bydd gennych eich costau uned lleol eich hun: http://neweconomymanchester.com/our-work/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database

Isod ceir rhai awgrymiadau sy'n seiliedig ar ddull gweithredu Abertawe:

- Nodwch bob asiantaeth sy'n rhan o'r ddarpariaeth 'busnes fel arfer' bresennol o lety gwely a brecwast a chyfrifwch eu costau uned fesul person ifanc mewn llety gwely a brecwast

- Nodwch nifer y bobl mewn llety gwely a brecwast dros y flwyddyn ddiwethaf a chyfanswm y diwrnodau y cafodd ei ddefnyddio.

- Cyfrifwch gostau llety gwely a brecwast, gan gynnwys holl gostau amser staff a dreuliwyd yn ceisio OSGOI'R defnydd o lety gwely a brecwast.

- Ychwanegwch unrhyw gymorth ychwanegol a drefnwyd gennych i gefnogi lleoliadau mewn llety gwely a brecwast o ran amser staff.

- Byddwch yn realistig – a heriwch eich tybiaethau – drwy baratoi rhai astudiaethau achos wedi'u costio o ddau berson ifanc neu fwy mewn llety gwely a brecwast ar hyn o bryd neu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran yr hyn a ddigwyddodd, pam cawsant eu lleoli, costau ymyriadau a chymorth yn ogystal â chostau llety gwely a brecwast yn ystod ac ar ôl eu lleoliadau ynddo, hyd y gellir cyfrifo'r rhain.

- Bydd angen ichi fynd y tu hwnt i gyllid llety a chymorth yn unig (mewn arian parod ac mewn da) ac ystyried costau uned, er enghraifft, o ran iechyd, tai/digartrefedd, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

- Mae hyn oll yn llywio'r ymarfer costio 'Busnes fel Arfer'.

b) Darparu gwasanaeth(au) ychwanegol i osgoi'r defnydd o lety gwely a brecwast

- Aseswch y model newydd o ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o nodi'r un mathau o fetrig(au) costau uned fel yr achos 'Busnes fel Arfer' (e.e. llety, cymorth, cyllid atal digartrefedd/cyllid Gofal Cymdeithasol Plant, budd-daliadau a hawlir).

- Yna gallech hefyd baratoi astudiaethau achos o bobl ifanc lle cafodd llety gwely a brecwast ei osgoi ac unrhyw fanteision o ran costau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau amgen (DS nid oes a wnelo hyn ag arbedion cyllidol 'arian parod' neu 'heb fod yn arian parod' gan ei bod yn annhebygol y bydd y rhain

yn helaeth neu'n gywir ond, yn hytrach, mae a wnelo â chanlyniadau ac unrhyw fanteision Gwerth Cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r rhain).

- Unwaith eto, bydd angen ichi fynd y tu hwnt i gyllid llety a chymorth yn unig (mewn arian parod ac mewn da) ac ystyried costau o ran, er enghraifft, iechyd, tai/digartrefedd, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, cyfarfodydd adolygu achosion.

- Dylid herio unrhyw ragdybiaethau o'r hyn a allai fod wedi digwydd/ddim wedi digwydd sut bynnag yn y ddarpariaeth llety gwely a brecwast 'busnes fel arfer' (a elwir yn 'ddi-fuddiant'). Mae hyn yn eich helpu i beidio â gorddatgan effaith y gwasanaeth newydd a ddarperir ar gyfer pobl ifanc.

**Atodiad Tri**

| **Enghraifft o fframwaith canlyniadau ar gyfer Llwybr Cadarnhaol lleol**<br><br>DS bydd angen i hyn gysylltu â'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethau sydd ar gael yma:<br>http://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf<br><br>Ni fydd pob un o'r awgrymiadau isod yn cydweddu â'ch strwythurau a'ch prosesau rheoli perfformiad lleol. Fe'i rhoddir er gwybodaeth yn unig pan fo awdurdodau lleol, gyda'u partneriaid yn dymuno ystyried cyfres o ganlyniadau a rennir i'r grŵp hwn.<br><br>**Yr effaith gyffredinol: Mae pobl ifanc yn eich ardal mewn addysg, hyfforddiant neu'n economaidd weithgar**<br>Y rhesymeg:<br>Mae tlodi yn un o'r penderfynyddion allweddol: mae'n cynyddu'r risg o ganlyniadau gwael ym mhob un o feysydd eraill bywydau pobl ifanc: iechyd, addysg, diogelwch cymunedol, a thai.<br>Mae'n rhaid mai gweithgarwch economaidd yw'r effaith gyffredinol a ddymunir gennym i bobl ifanc ac i'r ardal leol – gall helpu i dorri cylch amddifadedd. Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd canlyniadau cadarnhaol. |
|---|

| **Mae cynifer o bobl ifanc â phosibl yn byw gartref neu gyda'u gofalwyr hyd nes eu bod yn barod i adael mewn ffordd gynlluniedig** |
|---|
| **Disgrifydd gweithgarwch ar hyd y Llwybr Cadarnhaol:**<br><br>Mae pobl ifanc yn cynllunio eu llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac ochr yn ochr â hyn maent yn deall eu hopsiynau tai yn y dyfodol oherwydd...<br><br>• Maent yn cael gwybodaeth berthnasol, hawdd ei deall am y dewis o lety sydd ar gael iddynt ac ystyriaethau ariannol y rhain o nifer o ffynonellau.<br><br>• Maent yn gwybod ble i fynd i gael cyngor a chymorth manylach.<br><br>• Mae rhieni a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn deall opsiynau tai a heriau gwirioneddol gadael cartref yn ifanc a gallant gynghori pobl ifanc.<br><br>• Mae teuluoedd lle mae pobl ifanc yn eu harddegau yn wynebu risg uchel o ddigartrefedd yn cael mynediad at gymorth yn eu hardal leol drwy raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a/neu Gymorth Integredig i Deuluoedd, cyfryngu teuluol a chyngor a |

chymorth ymarferol.

- Mae'r ddarpariaeth 'un drws ffrynt' e.e. siop un stop/hwb ieuenctid yn cael mynediad at nifer o adnoddau ataliol, gan gynnwys cyfeirio pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o adael cartref mewn ffordd nas cynlluniwyd at gymorth yn y gymuned (e.e. rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf neu'r Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd), cyfryngu teuluol, cyngor ar arian, cymorth ieuenctid ac ati.

**Mesurau awgrymedig y gellir dewis o'u plith:**

- ✓ Mae pobl ifanc yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth dda o opsiynau tai a materion fforddiadwyedd *(DS mae hyn yn ansoddol a byddai angen ei wneud drwy arolygon cipolwg neu waith monitro drwy adborth)*
- ✓ Lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n cysylltu i ddweud eu bod yn ddigartref *(a gasglwyd o'ch darpariaeth 'un drws ffrynt' e.e. siop un stop/hwb ieuenctid)*
- ✓ Lleihad yn nifer yr asesiadau o ddigartrefedd (a62 o Ddeddf Tai 2014) ac asesiadau gofal a chymorth plant (a21 o Dddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a gynhaliwyd *(Awdurdodau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant)*
- ✓ Mae symudiadau wedi'u cynllunio o'r cartref teuluol neu ofal yn cynyddu *(byddai angen llinell sylfaen a chytundeb ynglŷn â sut i gasglu'r wybodaeth gan y byddai'n cynnwys gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a chymorth eraill, nid dim ond eich darpariaeth 'un drws ffrynt' e.e. siop un stop/hwb ieuenctid)*
- ✓ Caiff pobl ifanc eu hatal rhag mynd yn ddigartref ac nid ydynt yn cysylltu eto â'r ddarpariaeth un drws ffrynt e.e. siop un stop/hwb ieuenctid o fewn chwe mis

## Mae llesiant corfforol ac emosiynol pobl ifanc yn dda

### Disgrifydd gweithgarwch ar hyd y Llwybr Cadarnhaol:

Mae llesiant corfforol ac emosiynol pobl ifanc sy'n gadael cartref neu ofal yn ifanc yn dda oherwydd...

- Maent yn deall eu hanghenion iechyd unigol a sut i geisio cyngor neu gymorth pan fo angen.

- Gallant ymgymryd â gweithgareddau sy’n hybu iechyd corfforol da – ymarfer corff, bwyta’n iach.
- Gallant weld/teimlo eu bywydau yn symud ymlaen yn gadarnhaol, sy’n helpu i hybu eu llesiant emosiynol.
- Mae ganddynt rwydweithiau cymdeithasol sy’n cefnogi eu llesiant emosiynol.
- Pan fydd angen rhywun – oedolyn y maent yn ymddiried ynddo/ynddi – i siarad â hwy, maent yn gwybod gyda phwy y gallant gysylltu.

**Rhai mesurau awgrymedig y gellir dewis o’u plith**

Rhai awgrymiadau i bobl ifanc sy’n byw mewn llety â chymorth neu sy’n cael cymorth fel y bo’r angen:

- ✓ Wedi’u cofrestru â meddyg teulu a gwasanaeth deintyddol *(Darparwyr Cefnogi Pobl dan gontract gyda chysylltiadau â’r Gwasanaeth Gadael Gofal a’r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder)*
- ✓ Gwell iechyd corfforol *(Comisiynwyr Cefnogi Pobl, gallai gwybodaeth drwy Fyrddau Iechyd Lleol, gwasanaethau a darparwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei hunangofnodi drwy holiadur cipolwg e.e. holiadur cryfderau ac anawsterau)*
- ✓ Gwell iechyd a llesiant emosiynol *(Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, comisiynwyr Cefnogi Pobl, Iechyd Cyhoeddus Cymru a darparwyr, gallai gael ei hunangofnodi drwy holiadur cipolwg e.e. holiadur cryfderau ac anawsterau)*
- ✓ Lefelau is o gamddefnyddio sylweddau – neu fynediad cynyddol at wasanaethau camddefnyddio sylweddau *(Darparwyr a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol i bobl ifanc)*
- ✓ Mynediad cynyddol at wasanaethau iechyd rhywiol NEU ostyngiad yn lefelau heintiau a drosglwyddir yn rhywiol e.e. clamydia *(eich gwasanaethau iechyd rhywiol lleol)*

**Mae pobl ifanc yn teimlo’n ddiogel ac yn cyfrannu’n gadarnhaol yn eu cymuned leol**

**Disgrifydd gweithgarwch ar hyd y Llwybr Cadarnhaol:**

Mae pobl ifanc sy'n gadael cartref neu ofal yn ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfrannu at eraill yn teimlo'n ddiogel oherwydd...

- Caiff eu lefelau unigol o fod yn agored i niwed a risg eu deall yn dda gan y gweithwyr proffesiynol hynny y maent yn gweithio gyda hwy.
- Mae systemau ar waith i sicrhau bod ymateb amlasiantaethol i'r rhai sy'n wynebu risg uchel o niwed sylweddol, gan gynnwys pobl ifanc 18 oed a hŷn.
- Mae pobl ifanc wedi cael eu helpu i ddeall sut i wneud dewisiadau diogel ym mhob rhan o'u bywydau – gan gynnwys drwy rwydweithio cymdeithasol, targedu gan gangiau, bwlio a cham-fanteisio rhywiol – ac i wybod ble i fynd i gael cymorth a chyngor.
- Os bydd person ifanc yn wynebu risg o droseddu/aildroseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae ymateb a chymorth amlasiantaethol i atal hynny neu eu tywys oddi wrth hynny ar gael.

**Rhai mesurau awgrymedig y gellir dewis o'u plith**

Rhai awgrymiadau i bobl ifanc o dan 25 oed sy'n byw mewn llety â chymorth neu yn eu llety eu hunain

- ✓ Lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, aildroseddu a chyfraddau ieuenctid yn y ddalfa *(Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Cyfiawnder, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chymdeithas Adsefydlu Cymunedol Cymru)*
- ✓ Lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n ddioddefwyr trosedd gan gynnwys camfanteisio rhywiol *(Bwrdd Diogelu Lleol, yr Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant)*
- ✓ Mae pobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel (Comisiynwyr a darparwyr Cefnogi Pobl) *(hunangofnodi drwy holiadur cipolwg e.e. defnyddio holiadur cryfderau ac anawsterau)*

**Mae pobl ifanc yn byw mewn llety gweddus, diogel a fforddiadwy**

Disgrifydd gweithgarwch ar hyd y Llwybr Cadarnhaol:

Mae pobl ifanc yn byw mewn llety gweddus a diogel y gallant ei fforddio ar eu hincwm oherwydd...

- Maent wedi cynllunio ar gyfer symud yn seiliedig ar wybodaeth gywir a realistig.
- Maent wedi cael rhywfaint o ddewis ynglŷn â ble maent yn byw a'r math o ddeiliadaeth.
- Maent wedi cael hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol, gan gynnwys llythrennedd ariannol/cyllidebu.
- Maent wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n gallu fforddio ac ymdopi â'u tenantiaeth/llety.
- Os ydynt yn rhannu llety ag eraill, gan gynnwys dychwelyd at y teulu, mae ganddynt y sgiliau i rannu'n llwyddiannus a gwybod sut i gael cymorth os bydd angen.
- Maent wedi cael eu hannog i gynilo cyn symud i mewn.
- Os bydd angen, gallant gael gafael ar arian, neu fenthyciadau fforddiadwy drwy Undeb Credyd, neu gymorth mewn da, i sefydlu eu cartref newydd eu hunain.
- Mae cymorth adsefydlu a chymorth fel y bo'r angen ar gael os bydd angen.
- Maent yn gwybod ble i fynd i gael cymorth ar gam cynnar os bydd pethau yn dechrau mynd o chwith.

**Mesurau**

Rhai awgrymiadau i bobl ifanc o dan 25 oed sy'n byw mewn llety â chymorth neu yn eu llety eu hunain:

- ✓ Gostyngiad yng nghyfraddau tenantiaethau landlordiaid cymdeithasol sy'n methu ymhlith pobl ifanc o dan 25 oed a llety un gwely *(Awdurdod Tai gyda landlordiaid cymdeithasol lleol eraill)*
- ✓ Gostyngiad yng nghyfraddau tenantiaeth y sector rhentu preifat sy'n methu lle mae hyn yn opsiwn tai/opsiwn symud ymlaen *(Awdurdod Tai)*
- ✓ Lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol (e.e. yn y siop un stop/hwb ieuenctid) eto ar ôl 6 mis, 12 mis a 18 mis o ran pobl ifanc sydd wedi cael eu tenantiaeth eu hunain? *( e.e. siop un stop/hwb ieuenctid)*
- ✓ Mae pobl ifanc yn fodlon ar eu canlyniad tai – *(Mynediad at lety gweddus a rhywfaint o ddewis – wedi'i fesur drwy arolwg cipolwg/grŵp ffocws) Pwy fyddai'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am hyn?*

| **Mae pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu'n economaidd weithgar** |
|---|

Disgrifydd gweithgarwch ar hyd y Llwybr Cadarnhaol:

Mae pobl ifanc sydd wedi gorfod gadael cartref neu ofal yn ifanc yn hyderus ac yn llawn cymhelliant i gyflawni eu huchelgeisiau gyrfa oherwydd...

- Maent yn deall eu cryfderau, yr heriau a'r llwybr at lwyddiant y maent am ei ddilyn.
- Maent yn cael cyngor a chymorth i'w helpu i wneud penderfyniadau.
- Mae ganddynt sgiliau sylfaenol – llythrennedd a rhifedd.
- Mae ganddynt sgiliau cymdeithasol a gwaith da – cyfathrebu, prydlondeb, dibynadwyedd.
- Maent yn gwybod ble y gallant gael cymorth os ydynt yn wynebu anhawster.

**Mesurau**

Rhai awgrymiadau i bobl ifanc sy'n byw mewn llety â chymorth neu sy'n cael cymorth fel y bo'r angen tra byddant y byw yng nghartref eu rhieni/teulu neu'n byw'n fwy annibynnol:

- ✓ Cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant 16-19 oed *(Comisiynwyr Cefnogi Pobl gyda darparwyr – mae angen cysylltu â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol e.e. Gwasanaethau Plant a phrosesau casglu data ar gyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn lleol)*
- ✓ Cymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant 19, 20 a 21 oed *(Comisiynwyr Cefnogi Pobl gyda darparwyr – mae angen cysylltu â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol e.e.* Gwasanaethau Plant a phrosesau casglu data ar gyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn lleol)